# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Medi 2020

Amser: 08.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(09.00-09.15)

**1 Ymchwiliad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Papur cwmpasu**

(09.15 - 09.55) (Tudalennau 1 - 23)

PAC(5) -17-10 Papur 1 - Papur cwmpasu

**(Egwyl)**

(09.55-10.00)

**2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(10.00)

**3 Papur(au) i'w nodi**

(10.00 - 10.15)

**3a Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (27 Awst 2020)**

(Tudalennau 24 - 38)

**3b Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (28 Awst 2020)**

(Tudalennau 39 - 42)

## 4 Caffael Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(10.15 - 11.30) (Tudalennau 43 - 117)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

PAC(5)-17-20 Papur 2 – Llywodraeth Cymru

PAC(5)-17-20 Papur 3 – Llythyr gan Lywodraeth Cymru ynghylch caffael Cyfarpar Diogelu Personol (PPE).

PAC(5)-17-20 Papur 4 – Llythyr gan Lywodraeth Cymru ynghylch caffael prydau ysgol

Andrew Slade - Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru

Dean Medcraft - Cyfarwyddwr, Cyllid a Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru

Marcella Maxwell - Dirprwy Gyfarwyddwr Caffaeiliad Masnachol a Strategaeth, Llywodraeth Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(11.30)

Eitemau 6 a 7

## (Egwyl)

(11.30 - 11.35)

## 6 Caffael Cyhoeddus: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(11.35 - 11.50)

## 7 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Ystyried yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

(11.50 - 12.30) (Tudalennau 118 - 134)

PAC(5)-17-20 Papur 5 -Ymateb Llywodraeth Cymru

PAC(5)-17-20 Papur 6 - Strategaeth Cymraeg: Mae'n perthyn i ni i gyd: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (28 Gorffennaf 2020)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3a

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Awst 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS 6 GORFFENNAF 2020**

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2020, amgaeaf ymatebion i'r cwestiynau na lwyddodd y Pwyllgor i'w gofyn oherwydd cyfyngiadau amser yn y cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020.

**Y Gwasanaeth Sifil a lles staff**

**1. O ystyried y pwysau, faint o risg sydd y bydd staff Llywodraeth Cymru – gan gynnwys yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth neu chi eich hunan, yn gorweithio? Sut ydych chi'n lliniaru'r risg hon, a pha gamau ydych chi'n eu cymryd i wneud yn siŵr bod staff ar draws Llywodraeth Cymru yn cymryd gwyliau blynyddol?**

- Rydym yn ymwybodol iawn bod nifer o staff wedi bod yn gweithio'n arbennig o galed ac am oriau hir er mwyn ymdopi ag effaith pandemig y Coronafeirws am gyfnod estynedig. O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi darparu cyngor ac arweiniad i staff ar y systemau cymorth sydd ar waith gennym ar eu cyfer a'r ffaith y dylent gymryd egwylion er mwyn ceisio ymdopi â'u llwyth gwaith. Rwyf wedi bod yn glir iawn yn fy holl negeseuon i staff mai proses hirdymor yw hon.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Rydym eisoes wedi cynghori rheolwyr i sicrhau bod staff yn cymryd gwyliau dros yr wythnosau nesaf i orffwys ac ymadfer, ond hefyd i baratoi eu hunain ar gyfer cyfnod prysur tan ddiwedd y flwyddyn. Yn fwy ffurfiol, fel rhan o'n gwaith i adfer ac ailosod cynlluniau, rydym wedi gofyn i bob rheolwr llinell gael trafodaeth unigol ag aelodau ei dîm rhwng 1 a 22 Gorffennaf, gan ganolbwyntio ar eu llesiant ac ystyried pa gymorth penodol a allai fod ei angen arnynt wrth inni baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf. Mae rheolwyr wedi cael pecyn cynhwysfawr o adnoddau, cyngor, canllawiau a chymorth i'w helpu i gynnal y sgyrsiau 1-1 hyn.

- I mi fy hun a'r uwch-dîm, mae hwn yn bwnc y byddwn yn ei ailystyried yn rheolaidd, gan gefnogi ein gilydd i gynnal ein cadernid a'n llesiant. Rwyf bellach yn cynnal rhithgyfarfodydd bob pythefnos â'r Uwch Wasanaeth Sifil ac mae llesiant a chadernid yn bynciau sefydlog a gaiff eu trafod.

- Mae ein pecyn cymorth ar gyfer llesiant staff yn cael ei adolygu, ei ehangu a'i hyrwyddo'n gyson drwy gyfathrebu ar y fewnrwyd a negeseuon gan arweinwyr. Mae'n cael ei lywio gan arolwg 'Pulse' a gynhaliwyd ym mis Mai ar effeithiau cynnar yr argyfwng ar ein bywydau gwaith. Mae arolwg dilynol sy'n canolbwyntio'n benodol ar brofiad pobl o weithio o bell yn cael ei gynnal ym mis Awst, gan roi syniad pellach inni o'r heriau sy'n wynebu rhai staff. Mae rheolwyr llinell wedi cael deunyddiau a chanllawiau i'w cefnogi wrth iddynt gynnal sgwrs â phob aelod o'u tîm ynglŷn â'u llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys adnodd asesu risg unigolion ac rydym wedi annog rheolwyr i'w rannu â'u staff – gan gynnwys cydweithwyr o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig sydd o bosibl â phryderon ychwanegol am risgiau COVID-19 o ystyried y dystiolaeth frawychus sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig byd-eang ynglŷn ag effeithiau gwahaniaethol.

**Archwilio Mewnol**

**2. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o waith yr adran Archwilio Mewnol yn 2020-21: a yw hwn wedi'i gwblhau; beth oedd y prif ganfyddiadau ac a yw Llywodraeth Cymru wedi cadw digon o adnoddau yn y tîm craidd i gyflawni'r gwaith hwn?**

- Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cwblhau ei hadolygiad o flaenoriaethau archwilio 2020-21 gan ddefnyddio gwybodaeth risg a gwariant bresennol, mewnbwn gan y Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac uwch reolwyr eraill a gwybodaeth gorfforaethol y tîm archwilio.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Mae cynllun drafft ar gyfer gweddill 2020-21 nawr wedi'i lunio sy'n nodi "blociau" ar wahân o sicrwydd. Wrth osod y rhain ochr yn ochr â'r gwaith archwilio sydd wedi'i wneud hyd yma eleni, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn credu y byddant yn darparu corff addas o waith i fod yn sail ar gyfer barn diwedd blwyddyn gymwys a ddygir o'r meysydd rheolaeth canlynol:

    - Gwariant cysylltiedig â COVID-19
    - Brexit
    - Rhaglenni â blaenoriaeth
    - Systemau Corfforaethol
    - TG
    - Risgiau penodol i grŵp.

- Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu ar gyfer ymrwymiadau'r adran Archwilio Mewnol sydd dan gontract ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (ond nid ar gyfer unrhyw gymorth i Trafnidiaeth Cymru).

- Mae lefelau adnoddau yn gwella wrth i rai staff Archwilio Mewnol ddychwelyd ar ôl bod yn gweithio i gefnogi'r ymateb i COVID-19 ac wrth i staff dros dro gael eu recriwtio, ond byddai angen atgyfnerthu'r tîm ymhellach er mwyn cyflawni'r cynllun arfaethedig yn ei gyfanrwydd. Rydym wrthi'n ystyried y camau nesaf o ran y pwysau cyffredinol ar adnoddau a gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd o fewn y sefydliad. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y datblygiadau.

**3. Sut bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r achosion o wrthdaro buddiannau o ganlyniad i adleoli staff Archwilio Mewnol i gyflawni rolau gweithredol? Sut bydd hyn yn effeithio ar gapasiti'r adran Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21 a'r blynyddoedd sydd i ddod?**

- Ymarfer proffesiynol arferol yw i archwilydd mewnol beidio ag archwilio maes y mae wedi ymwneud ag ef yn weithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf yn dilyn diwedd y cysylltiad hwnnw.  Bydd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn dilyn yr ymarfer hwn am y deuddeg mis nesaf.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Fel arfer, caiff y Rheolwyr Archwilio Mewnol a'r Uwch-archwilwyr yn y Tîm eu neilltuo i feysydd penodol o weithgarwch Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt allu datblygu gwybodaeth am y pwnc ac arbenigedd. Caiff dull mwy hyblyg o ddyrannu aseiniadau archwilio ei ddefnyddio am y 12 mis nesaf er mwyn i'r Tîm Rheoli allu trefnu aseiniadau fel nad oes gofyn i unrhyw archwilydd archwilio maes y buont yn gweithio ynddo fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

- Mae'n ofynnol i Archwilwyr Mewnol eu hunain asesu unrhyw wrthdaro buddiannau sydd ganddynt fel rhan o'u Cod Moeseg Proffesiynol. Bydd y Tîm Rheoli yn gofyn i Archwilwyr Mewnol ddogfennu a oes ganddynt unrhyw wrthdrawiadau posibl fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer pob aseiniad archwilio.

- Os bydd gan Archwilydd Mewnol ddealltwriaeth werthfawr o weithgarwch a oedd yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, bydd yn fuddiol defnyddio'r profiad hwnnw fel rhan o unrhyw adolygiad systematig a gynhelir gan yr adran Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, dim ond archwilwyr nad ydynt yn rhan o'r gweithgarwch hwnnw fydd yn gallu sicrhau ansawdd yr holl waith archwilio a wneir a gwerthuso'r farn/casgliad sicrwydd a roddir a chymeradwyo'r aseiniad.

**Mynediad at ddata – Cronfa Ddata Cyllid a Thollau EM**

**4. Nid oes gan Lywodraeth Cymru fynediad at y gronfa ddata. Beth yw eich asesiad o effaith hynny ar y broses arfarnu o ran hawliadau grant?**

**Faint o amser staff fyddai wedi'i arbed pe bai swyddogion wedi cael mynediad, a pha gamau ydych chi wedi'u cymryd i gael mynediad at gronfa ddata Cyllid a Thollau EM?**

- Rydym yn cynnal trafodaethau â Cyllid a Thollau EM mewn perthynas â mynediad at ei ddata fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol ehangach.

- Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys rhannu a pharu data â gwybodaeth debyg a ddelir gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn nodi twyll posibl, gwallau ac anghysondebau eraill. Un o nodweddion y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21 fydd ymgymryd â gwaith paru data traws-sefydliadol yn erbyn taliadau COVID-19.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Mae telerau ac amodau ein llythyrau dyfarnu grantiau yn ein galluogi i gymryd camau adfer ôl-weithredol os yw'n briodol, er enghraifft mewn perthynas â dyblygu cyllid neu dwyll.

- Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am gyfleoedd i rannu data â sefydliadau eraill yn barhaus er mwyn lleihau'r posibilrwydd o golled neu dwyll.

- Mae'r Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog a'r adran Archwilio Mewnol yn treialu **Adnodd Atal Twyll newydd** ar hyn o bryd. Datblygwyd yr adnodd gan Swyddogaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth y DU gydag Experian, a gall ddilysu manylion cyfrif banc sefydliad a chadarnhau a yw cwmni'n bodoli ac yn masnachu'n weithredol. Nod y cynllun peilot yw canfod a oes modd ymgorffori'r adnodd mewn gwiriadau cyn ac ar ôl digwyddiadau a gynhelir ar sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid sy'n ymwneud â COVID-19 neu'n derbyn cyllid o'r fath.

- Yn ogystal â gwiriadau ôl-weithredol, bydd swyddogion yn ymgymryd â phrosesau diwydrwydd dyladwy ar sefydliadau pan fyddant yn gwneud cais am gyllid grant. Bydd lefel y diwydrwydd dyladwy sydd ei hangen yn dibynnu ar risg a graddfa'r sefydliadau a'r prosiectau. Felly, byddai cael mynediad at gronfa ddata Cyllid a Thollau EM yn ategu gweithgareddau diwydrwydd dyladwy presennol yn hytrach na'u disodli.

- Ymgymerir â phrosesau diwydrwydd dyladwy ar y cam gwneud cais gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau:
  - Gwybodaeth y gofynnir amdani fel rhan o'r broses gwneud cais, megis data TAW a TWE a chyfriflenni banc
  - Croesgyfeirio â gwybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru eisoes
  - Gwybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau allanol, gan gynnwys Tŷ'r Cwmnïau, Creditsafe (sy'n darparu gwybodaeth am unig fasnachwyr), y Comisiwn Elusennau (ar gyfer grantiau i'r trydydd sector) a Company Watch

- Mae'r tîm diwydrwydd dyladwy canolog gennym hefyd sy'n darparu'n rheolaidd yr hyn a ddisgrifir gennym fel adroddiadau profion iechyd ariannol ar gyfer sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm hefyd ar gael i gefnogi arweinwyr polisi gyda gwiriadau ad hoc.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Cefnogi ac ariannu sefydliadau eraill: Awdurdodau lleol**

**5. Sut bydd Llywodraeth Cymru yn cael sicrwydd ynghylch y grantiau COVID-19 a weinyddir gan awdurdodau lleol, a sut bydd hi'n gwerthuso eu heffaith?**

- Cynllun ad-dalu yw'r gronfa galedi ar gyfer costau ychwanegol, felly mae awdurdodau lleol yn cyflwyno hawliadau misol am gostau ychwanegol. Mae gan y cynllun baramedrau eang ar gyfer pob maes sydd wedi'i glustnodi.

- Mae'r broses hawlio yn un 'cyffyrddiad ysgafn' er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol cymaint â phosibl.

- Caiff yr hawliadau eu hadolygu gan banel sy'n cynnwys swyddogion o'r tîm ariannol awdurdodau lleol, y tîm polisi perthnasol a dau aelod annibynnol, un o dîm cyllidebu strategol Llywodraeth Cymru ac un o'r tu allan i Lywodraeth Cymru (er enghraifft trysorydd awdurdod lleol). Mae hyn yn golygu bod awdurdodau'n cael eu had-dalu'n gyson.

- Er enghraifft, mae 50% o hawliadau TG ar gyfer gweithio o bell wedi cael eu talu gan eu bod yn asedau parhaus ac roedd rhai cynghorau eisoes wedi buddsoddi yn y maes hwn; mae rhai eitemau bach lle rydym yn disgwyl i gyllidebau arferol fod yn ddigon hyblyg i'w cwmpasu wedi'u heithrio; mae cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor wedi'i eithrio gan fod hwn yn cael ei ystyried ar wahân.

- Hawliwyd £2.4m ar gyfer costau ychwanegol ym mis Mawrth / £16.7m ar gyfer costau ychwanegol ym mis Ebrill.

- Ceir dadansoddiad o'r symiau a dalwyd ym mis Mai ac a hawliwyd ar gyfer mis Mehefin isod:

| **Cronfa Caledi** | **Costau a dalwyd hyd at ddiwedd mis Mai**<br>(mae £3.955m ychwanegol yn cael ei egluro, caiff symiau a gymeradwyir eu talu gyda hawliad mis Mehefin) | **Hawliadau ar gyfer mis Mehefin** (yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd) |
|---|---|---|
| Prydau ysgol am | £7.124m | £6.296m |



BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

| **Cronfa Caledi** | **Costau a dalwyd hyd at ddiwedd mis Mai** (mae £3.955m ychwanegol yn cael ei egluro, caiff symiau a gymeradwyir eu talu gyda hawliad mis Mehefin) | **Hawliadau ar gyfer mis Mehefin** (yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd) |
|---|---|---|
| ddim | (£3.4m yn cael ei egluro) mwyafrif yn aros am gostau ychwanegol | |
| Ymateb brys i ddigartrefedd | £2.127m | £2.485m |
| Gofal cymdeithasol | £20.457m | £24.179m |
| Darpariaeth ar gyfer marwolaethau ychwanegol | £1.601m | £1,359m |
| Cyffredinol | £13.681m | £20.173m |
| **Cyfanswm** | **£44.991m** | **£54.492m** |

**Monitro gwariant a sicrhau allbynnau**

- Bydd Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod – ei Swyddog 151 – yn ardystio pob hawliad gan gadarnhau yr aethpwyd i'r gwariant yn y meysydd gweithgarwch perthnasol, ei fod yn ychwanegol i wariant a gynlluniwyd ac yn net o arbedion, er enghraifft o ganlyniad i roi staff ar ffyrlo, neu beidio â darparu gwasanaeth.

- Bydd awdurdodau yn cynnwys sylwebaeth yn yr hawliad ac ar gyfer rhai meysydd, e.e. prydau ysgol am ddim, bydd angen data ychwanegol ar allbynnau.

- Mae amodau'r gronfa yn caniatáu ar gyfer archwilio ac mae gofynion archwilio mewnol ac allanol parhaus ar waith mewn awdurdodau lleol ar gyfer gwariant yn gyffredinol.

**Cefnogi'r Economi**

**6. Cyhoeddodd Airbus y bydd nifer sylweddol o swyddi yn cael eu colli yn ei safle ym Mrychdwn yr wythnos diwethaf. Mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar y camau sy'n cael eu cymryd i**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**ymateb i’r argyfwng y mae’r diwydiant awyrofod yng Nghymru yn ei wynebu. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau hynny, a chamau Llywodraeth Cymru, i gefnogi'r diwydiant awyrofod yng Nghymru yn y dyfodol?**

- Mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi sefydlu Grŵp Ymateb Rhanbarthol ar Gyflogaeth. Tîm amlasiantaethol a arweinir gan Lywodraeth Cymru yw hwn ac mae'n gweithio ar draws Gogledd Cymru a'r ardaloedd trawsffiniol. Mae'r aelodau yn cynnwys Airbus, y gadwyn gyflenwi, undebau llafur a phob asiantaeth allweddol er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei rannu'n gyflym ac yn effeithiol ag unigolion a'r gadwyn gyflenwi. Cyfarfu'r grŵp hwn am y tro cyntaf ar 13 Gorffennaf.

- Sefydlwyd Grŵp Cadwyn Gyflenwi Trawsffiniol hefyd sy'n gweithredu fel is-grŵp i'r Grŵp Ymateb Rhanbarthol ar Gyflogaeth. Gan weithio gydag awdurdodau lleol yng ngogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, mae'n edrych yn benodol ar effaith cyhoeddiad Airbus am golli swyddi ar gwmnïau'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, arweiniodd Fforwm Awyrofod Cymru drafodaeth bord gron ar 9 Gorffennaf â chwmnïau'r gadwyn gyflenwi o bob cwr o ogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr er mwyn casglu eu pryderon, yr effaith ar eu busnesau a chynlluniau adfer.

- Gan weithio mewn partneriaeth agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau, bydd y Grŵp Cadwyn Gyflenwi Trawsffiniol yn llunio dogfen gyfeirio ffynhonnell unigol yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i staff yr effeithiwyd arnynt ar draws y ddau ranbarth. Mae'r ddogfen hon ar y cam drafft cynnar a dylai fod ar gael i'w rhannu dros yr wythnosau nesaf. Rhagwelir y bydd y grŵp hwn hefyd yn dod yn fodd inni gydlynu ymdrechion mewn ymateb i unrhyw gyhoeddiadau eraill am golli swyddi a all godi o ganlyniad i COVID-19 a newidiadau i gynllun ffyrlo'r DU.

- Bydd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru yn cynnull uwchgynhadledd lefel uchel i drafod dyfodol y diwydiant awyrofod, modurol a gweithgynhyrchu gwerth uchel ehangach dros yr wythnosau nesaf ac rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn rhan o hyn.

**Dysgu gwersi**

**7. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau’r Ymateb i’r Arolwg ynghylch yr Argyfwng, y cyfeiriwyd ato yn eich llythyr dyddiedig 1 Mehefin 2020?**

- Fel yr amlinellwyd yn fy ateb yn gynharach, roedd yr Arolwg 'Pulse' a gynhaliwyd ar draws gwasanaeth sifil y DU yn cynnwys rhywfaint o adborth lefel uchel defnyddiol iawn ynghylch profiad ein staff o weithio drwy'r argyfwng, gydag ymatebion cadarnhaol ar ba mor dda y maent yn cael eu cefnogi a'u hymddiriedaeth yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan uwch-arweinwyr. Wrth gwrs, rydym yn ystyried yr adborth ar lesiant o ddifrif yn ogystal â phryderon cydweithwyr sy'n cael anawsterau gyda'r her ddeublyg o ymdopi â gwaith a gofynion gofalu.

- Rwyf wedi gofyn i'r holl Benaethiaid Is-adran drafod canlyniadau Arolwg 'Pulse' a'r ymatebion is-adrannol i'n Harolwg Pobl cynharach (a gynhaliwyd ym mis Mawrth) â'u timau fel rhan o'n gwaith paratoi ar gyfer adfer ac ailosod. Rwyf hefyd wedi gofyn i reolwyr siarad â thimau am y ffordd rydym yn cefnogi ein cydweithwyr BAME yn ystod yr argyfwng o ystyried yr effeithiau anghymesur y mae'r Coronafeirws yn eu cael ar y gymuned BAME. Rwyf wedi lledaenu neges gref ar draws y sefydliad bod hyn yn brif flaenoriaeth i bob un ohonom. Caiff adborth a chamau gweithredu o'r sesiynau hyn eu coladu a'u dadansoddi fel eu bod yn llywio cynlluniau'r Pwyllgor Gweithredol ar lefel gorfforaethol ynghyd â chynlluniau gweithredu lleol.

**Llacio’r cyfyngiadau ac adfer yn dilyn COVID-19**

**8. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio’r pwysigrwydd – o ran iechyd y cyhoedd a hyder y cyhoedd – bod sectorau’n agor yn ddiogel. Beth oedd rôl Llywodraeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd fel ei gilydd o ran hediadau Ryanair a adawodd ddydd Gwener 3 Gorffennaf o Faes Awyr Caerdydd i Malaga a Faro, cyn codi'r gofyniad i aros yn lleol, a chodi'r cyfyngiad ar deithio nad yw'n hanfodol, a sut mae'r risgiau iechyd cyhoeddus cysylltiedig wedi'u rheoli?**

- Nid oedd rheoliadau Coronafeirws Cymru yn atal Ryanair rhag hedfan. Fel endid masnachol a gaiff ei redeg yn annibynnol, roedd rhwymedigaeth gontractiol ar Faes Awyr Caerdydd i hwyluso'r hediadau hyn gan gwmnïau hedfan sydd wedi penderfynu eu rhedeg er bod cyfyngiadau ar deithio oni bai bod hynny'n hanfodol ar waith o hyd.

- Gallai fod wedi bod yn bosibl i Lywodraeth Cymru gau'r Maes Awyr neu atal hediadau ar sail iechyd y cyhoedd ond byddai tystiolaeth gref wedi bod yn

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ofynnol i wneud hynny. Ysgrifennodd Gweinidogion at Ryanair yn gofyn i'r cwmni ohirio ei hediadau nes y byddai'r newidiadau cynlluniedig i'r rheoliadau ‘aros yn lleol’ mewn grym. Gwrthododd Ryanair.

- Y risg bosibl a oedd yn deillio o bobl yn teithio ar yr hediadau hyn oedd y gallent deithio'n ddiangen ac felly'n groes i'r ddeddfwriaeth ‘aros yn lleol’ a oedd mewn grym ar y pryd. Fodd bynnag, yn ogystal â phobl yn dychwelyd i Gymru ar yr hediadau hyn, roedd rheoliadau Coronafeirws Cymru yn caniatáu i bobl adael eu hardal leol os oedd ganddynt esgus rhesymol, felly roedd pobl a allai deithio'n ddilys i'r maes awyr a theithio ar yr hediadau hynny.

- Drwy gydol y pandemig, rydym wedi dibynnu ar unigolion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a theithio os yw'r rheolau'n caniatáu yn unig. Roedd unrhyw un a deithiodd i'r maes awyr ar 3 Gorffennaf heb esgus rhesymol yn wynebu erlyniad. Rydym ar ddeall bod nifer sylweddol o deithwyr a oedd wedi archebu sedd ar yr hediadau hyn wedi dewis yn gall i beidio â theithio.

**9. Soniwyd yn y cyfryngau bod Llywodraeth Cymru wedi gwario dros £11 miliwn ar barc busnes Bryn Cegin ym Mangor, sydd wedi aros yn wag am 20 mlynedd. A allwch chi egluro beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol y parc busnes, ac a oes potensial iddo gael ei ddefnyddio i ysgogi adferiad economaidd ar ôl COVID-19?**

- Rydym yn parhau i weithio gyda Chyngor Gwynedd i ddenu busnesau i safle Parc Busnes Bryn Cegin. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cyfleuster parcio a rhannu/teithio a fydd yn helpu pobl sy'n gweithio y tu allan i ardal Bangor. Yn ogystal, mae'r safle wedi cael ei nodi fel cyfle datblygu cynnar posibl ar gyfer Bargen Twf y Gogledd a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i ddarparu cyfleoedd buddsoddi a chyflogaeth ar y safle. Mewn perthynas ag eiddo masnachol yn fwy cyffredinol, yn fuan bydd swyddogion yn paratoi cyngor ar gyfer Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar ôl cwblhau gwaith ymchwil ar y pwnc hwn a fydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer ymyriadau Llywodraeth Cymru o ran darparu eiddo masnachol fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

**Camau gweithredu ar ôl y cyfarfod**

**1. ‘Profi, Olrhain, Diogelu’**


Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Cytunwyd yn y cyfarfod y byddai Dr Andrew Goodall yn anfon rhagor o wybodaeth atom am y dull gwerthuso ar gyfer y system olrhain cysylltiadau – Profi, Olrhain a Diogelu.**

Mae dwy elfen allweddol i sicrhau proses olrhain cysylltiadau effeithiol a all helpu i leihau cyfraddau trosglwyddo'r feirws yn llwyddiannus: (i) cyflymder ym mhob rhan o'r broses (o amseroedd aros ar gyfer canlyniadau profion i adnabod cysylltiadau agos yn gyflym) a (ii) cymorth, ymrwymiad a chydymffurfiaeth barhaus y cyhoedd. Mae disgwyliad, yn seiliedig ar gyngor gwyddonol a chyngor iechyd y cyhoedd (papur modelu SPI-M is-grŵp y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau, 22 Mehefin 2020) y dylai'r broses olrhain cysylltiadau geisio olrhain 80% amcangyfrifedig o gysylltiadau, ac y dylid olrhain o leiaf 35% ohonynt o fewn 24 awr.

Mae hyn yn golygu bod angen inni ystyried y canlynol:

- Cyfran yr achosion positif y cysylltwyd â nhw'n llwyddiannus ac a ddarparodd fanylion cysylltiadau agos.
- Cyfran y cysylltiadau agos a gafodd eu holrhain yn llwyddiannus ac a gynghorwyd i hunanynysu.
- Yr amser a gymerwyd i gynghori cysylltiadau i hunanynysu.

Mae wedi'i sefydlu drwy dystiolaeth ryngwladol (Sefydliad Iechyd y Byd) a chenedlaethol (Y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau a'r Gell Cyngor Technegol) fod cyflymder ymateb yn y broses o'r dechrau i'r diwedd yn hollbwysig ynghyd â chydymffurfiaeth y cyhoedd i wrando ar gyngor a dilyn y gyfraith. Mae'n anodd mesur cyfraddau diffyg cydymffurfio oherwydd eu natur, ond mae ffyrdd o wella dealltwriaeth yn y maes hwn yn cael eu hystyried yn briodol. Rydym yn cyhoeddi data perfformiad wythnosol sy'n nodi nifer yr achosion a'r cysylltiadau a chyfran y bobl sydd wedi'u holrhain yn llwyddiannus.

Gwelir effeithiolrwydd y system yn ei llwyddiant i reoli a chyfyngu brigiadau o achosion, megis y rhai hynny rydym wedi'u gweld mewn cymunedau yn Ynys Môn a Glynebwy. Mae ein gallu i nodi achosion ac ymateb iddynt yn gyflym drwy Profi, Olrhain a Diogelu yn ein galluogi i leihau cyfraddau trosglwyddo a chyfyngu brigiadau. Gosodir hyn yn erbyn mesurau ehangach sydd ar waith i fesur cyfraddau trosglwyddo mewn cymunedau o achosion positif, megis monitro rhif *R*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

y feirws a nifer cyffredinol yr achosion positif. Bydd astudiaethau serowyliadwraeth yn rhoi mwy o wybodaeth inni am gyffredinrwydd mewn cymunedau gan ein galluogi i fireinio ein modelau a'n dull gweithredu. Mae mesurau o'r fath yn golygu y gallwn roi dangosyddion sbarduno cyfyngiadau perthnasol ar waith pan fydd angen er mwyn sicrhau bod y feirws yn cael ei gyfyngu.

**2. Oriau gwaith staff a gwyliau blynyddol**

**Wrth ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, gofynnodd yr Aelodau hefyd i mi ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth am oriau gwaith staff Llywodraeth Cymru, a gwyliau blynyddol. A fyddech cystal â rhoi data dienw inni sy'n dangos faint o wyliau blynyddol a gymerwyd gan staff Llywodraeth Cymru rhwng 1 Mawrth a 30 Mehefin 2020, wedi'u dadansoddi yn ôl gradd ac yn ôl rhywedd, ac wedi'u gosod yn erbyn yr un data ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth – 30 Mehefin 2019? Byddai'n dda petai'r data hwnnw hefyd yn cynnwys faint o ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gweithio, a phenwythnosau, a weithiwyd gan staff fesul eu gradd.**

Nid ydym yn cofnodi gwyliau blynyddol yn ganolog ac felly ni allwn ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Mae cydweithwyr yn trefnu gwyliau blynyddol yn uniongyrchol gyda'u rheolwyr llinell. Mae trefniadau gweithio hyblyg ar waith gennym hefyd a gall staff addasu eu hamseroedd a'u diwrnodau gwaith i gefnogi eu cydbwysedd bywyd a gwaith a'u hymrwymiadau gofalu, felly ni fyddai cofnodi pryd maent yn gweithio o reidrwydd yn darparu trosolwg cywir o oriau gwaith.

Gwnaethom gynnal Arolwg 'Pulse' gyda'n staff, a nododd 1 o bob 8 ymatebydd (13%) fod eu llesiant yn wael yn ystod yr wythnos flaenorol, ond nododd 43% fod eu llesiant yn dda. Hefyd, dangosodd yr arolwg er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi nodi eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn neu'n weddol dda gan eu rheolwr (90%) a'u tîm (94%), byddai 42% yn hoffi mwy o gymorth i reoli eu llwyth gwaith. Mae hyn wedi bod yn ffocws allweddol mewn trafodaethau diweddar ag aelodau o'r tîm a arweiniwyd gan reolwr llinell mewn perthynas â blaenoriaethau, llesiant a'r cymorth sydd ar gael i'r staff.

**3. Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru**

**Yn y cyfarfod gofynnodd yr Aelodau am eich asesiad o'r effaith ar golli masnach ac incwm arall nad yw'n incwm oddi wrth y Llywodraeth, ar Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn ystod y pandemig a pha gymorth ariannol a gynigiwyd iddynt, neu a fydd yn cael ei gynnig iddynt. Fe ddywedoch wrth y Pwyllgor fod**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Gweinidogion wedi trafod goblygiadau gostyngiadau yn y gyllideb gyda'r cyrff sydd wedi'u noddi, cyn cyhoeddi'r gyllideb atodol gyntaf, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod i'w cefnogi yn y broses o wneud penderfyniadau.**

**Ar 9 Gorffennaf 2020, dywedodd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wrth Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd, fod ei adolygiad wedi nodi pwysau o ran costau, a cholli incwm, a bod diffyg posibl o £15 miliwn yn ei gyllideb, o ganlyniad. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £5 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol, yn ôl y sôn roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio cronfeydd wrth gefn yn sgil gwerthu pren yn flaenorol, a'i fod wedi nodi arbedion o £8.8 miliwn i fynd i'r afael â'r bwlch o ran cyllido.**

**Hoffem gael gwybodaeth am Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n profi gostyngiadau sylweddol mewn incwm masnach neu gyllid nad yw oddi wrth y Llywodraeth, cyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru, CCAUC a Chwaraeon Cymru, o ganlyniad i COVID-19. Beth yw hyd a lled yr anawsterau y maent yn eu hwynebu, a ydyn nhw'n rhoi gwybod am newidiadau o ran eu costau o ganlyniad i'r pandemig, sut maen nhw'n ymateb a pha gefnogaeth sy'n cael ei chynnig gan swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys yr Uned Cyrff Cyhoeddus)?**

Mae heriau eithriadol yn wynebu'r rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus, os nad pob un ohonynt, o ganlyniad i COVID-19. Mae Gweinidogion yn cael diweddariadau rheolaidd am sefyllfa ariannol cyrff. Rydym eisoes wedi clustnodi mwy na £2.5bn i ymateb i COVID-19, ond mae'n annhebygol y byddwn yn gallu lliniaru'r holl bwysau y mae cyrff yn eu hwynebu a'r dewisiadau anodd a fydd yn ofynnol.

Nid yw'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn gyfrifol am benderfyniadau o ran yr adnoddau a roddir i Gyrff Hyd Braich yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd i wella prosesau ymgysylltu â Chyrff Hyd Braich y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, a'r ffordd y cânt eu llywodraethu, ac ymhlith pethau eraill mae wedi rhoi templedi ar waith ar gyfer Dogfennaeth Fframwaith, Cylchoedd Gwaith Tymor Llywodraeth a model Sicrwydd Risg cyson i Gyrff Hyd Braich a fydd yn llywio cylch pum mlynedd Adolygiadau Pwrpasol.

Un o'r ystyriaethau allweddol ym mhob Adolygiad Pwrpasol, rhaglen a fydd yn ystyried pob Corff Hyd Braich yng Nghymru yn ystod tymor y Llywodraeth nesaf, yw'r graddau y mae Cyrff yn gwario'r adnoddau a ddyrennir iddynt yn effeithiol ac yn effeithlon, gan



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

gynnwys ystyried y canlyniadau y gall pob corff eu cyflawni gyda'r adnoddau a ddyrennir iddynt gan Weinidogion.

Mae effaith COVID-19 ar ein cyrff cyhoeddus wedi amrywio yn ôl amgylchiadau unigol y sefydliad, ac nid yw hynny'n syndod. Mae'r pandemig wedi effeithio ar rai yn fwy nag eraill. Fel y mae'r Pwyllgor yn nodi, y cyrff hynny sy'n dibynnu yn fwy ar incwm a enillir sydd wedi teimlo'r effaith fwyaf. Mae pob un o'n cyrff yn cydnabod graddfa'r argyfwng yr ydym yn delio ag ef ar hyn o bryd, ac maent yn ymdrechu i amsugno pwysau neu ailflaenoriaethu pan fo'n bosibl, ar y cyd â gweddill y gwasanaeth cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ei hun. Rydym yn cynnal deialog agos â'n cyrff cyhoeddus yn unigol, a hefyd yn gyfunol drwy'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus. Ar adeg ysgrifennu, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried asesiad o'r pwysau sydd ar bob corff cyhoeddus, gan dynnu ar wybodaeth a gasglwyd mewn deialog â nhw.

**4. Canolfan Confensiynau Rhyngwladol Cymru**

**Ar 9 Gorffennaf 2020, ac yn dilyn y cyfarfod, cyhoeddodd sefydliad y Celtic Manor a Chanolfan Confensiynau Rhyngwladol Cymru raglen o golli swyddi, o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar gyfer y sectorau lletygarwch a thwristiaeth. Disgwylir y bydd 450 o staff yn colli eu swyddi o blith y gweithlu parhaol o 995 o aelodau o staff. Byddem yn croesawu gwybodaeth am asesiad Llywodraeth Cymru o ran pa mor agored yw'r Ganolfan i risg ariannol o ganlyniad i'r cyhoeddiad hwn a'r amodau economaidd ehangach. A ydych wedi newid gwerth neu ddosbarthiad unrhyw rwymedigaethau cysylltiedig ac os felly, a wnewch chi roi'r manylion?**

Mae COVID-19 wedi cael effaith ddirfawr ar Ganolfan Confensiynau Rhyngwladol Cymru. Caeodd y Ganolfan ei drysau yn gynnar ym mis Mawrth ac o ganlyniad nid yw wedi cael unrhyw incwm; sefyllfa y disgwylir iddi barhau tan 2021. Fodd bynnag, mae'r cwmni wedi nodi bod digwyddiadau wedi'u trefnu yn gynnar yn 2021 a'i fod yn disgwyl masnachu ar oddeutu 50% o'r lefelau cyn y Coronafeirws y flwyddyn nesaf. Mae maint y Ganolfan yn golygu ei bod mewn sefyllfa dda i weithredu gan ddilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol ac mae'r ffaith hon, ynghyd â'i maes parcio ar y safle a'i lleoliad y tu allan i'r dref, yn golygu y gall ymdopi'n well â heriau parhaus COVID-19 na llawer o'i chystadleuwyr. Mae'r rhan fwyaf o staff y Ganolfan ar ffyrlo ar hyn o bryd, ond gan fod disgwyl i'r cynllun hwnnw ddod i ben ddiwedd mis Medi, mae cyfanswm o 40 o aelodau o staff wedi cael eu hysbysu'n ffurfiol y gallent golli eu swyddi.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae Bwrdd Canolfan Confensiynau Rhyngwladol Cymru wedi datblygu strategaeth ddiwygiedig er mwyn adlewyrchu'r lefel fasnachu lai a ragwelir ac mae wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol ar ffurf benthyciad gan NatWest. Mae'r Bwrdd yn adolygu ei drefniadau ariannol er mwyn i'r Ganolfan allu masnachu drwy 2021 a pharhau gyda lefel o fusnes sy'n is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol yn 2022. Fel rhan o hyn, mae'r Bwrdd wedi gwneud cais am fuddsoddiad ecwiti ychwanegol gan bob un o'i chyfranddalwyr. Mae swyddogion yn paratoi cyngor i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pwnc hwn.

Mae'r rhwymedigaeth allweddol i Lywodraeth Cymru yn y cwmni hwn yn ymwneud â gwarant cyd ac unigol y benthyciad adeiladu gan NatWest. Gan fod y banc hwnnw yn parhau i gefnogi'r busnes, nid oes disgwyl i'r gwarant gael ei alw ar hyn o bryd. Yn ogystal, gan fod cleientiaid yn trefnu digwyddiadau unwaith eto flwyddyn nesaf, nid oes rheswm i leihau gwerth y buddsoddiad. Mae'n werth nodi hefyd bod y Celtic Manor wedi dechrau adfer rhywfaint gan ei fod yn croesawu gwesteion i'r gwestai ac mae'r cyrsiau golff ar agor unwaith eto.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, rhowch wybod imi.




**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Eitem 3b

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Awst 2020

Annwyl Mr Ramsay

**Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Awst 2020 ynghylch gwaith parhaus y Pwyllgor ar Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn llwyddo i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo a mantoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd. Heb ystyried effaith yr argyfwng iechyd y cyhoedd, rwy'n cydnabod yr heriau ariannol y mae'r tri bwrdd sy'n dal i fod mewn sefyllfa o ddiffyg yn parhau i'w hwynebu. Yn ddiweddar, rwyf wedi ailddechrau'r ddeialog fisol reolaidd gyda'r tri bwrdd hyn, o dan y broses uwchgyfeirio ac ymyrryd, i gefnogi a herio eu rhaglenni ariannol a gwella gwasanaethau wrth iddynt ddechrau adfer o effaith y pandemig.
Rydych wedi gofyn am eglurhad ynghylch cyhoeddiad y Gweinidog am gyfrifon y GIG ar 6 Gorffennaf. Mae fy ymatebion i'w gweld isod:

1. O ble ddaeth y cyllid o £470 miliwn?

Cymorth arian parod strategol yw'r £470 miliwn, sydd wedi'i roi i'r pedwar bwrdd iechyd i'w galluogi i fodloni eu hymrwymiadau ariannol i dalu staff a chyflenwyr tra maent mewn sefyllfa o ddiffyg. Nid yw'r cymorth hwn yn rhan o ddyraniad adnoddau'r byrddau iechyd, ac nid yw'n dâl a godir ar gyllidebau DEL. Yn hytrach caiff ei gyflwyno fel tâl chwyddo ychwanegol.

Ym mhob blwyddyn ariannol y darparwyd y cymorth, mae'r cymorth arian parod wedi'i fodloni o'r cwmpas y pleidleisiwyd drosto ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

2. A oedd unrhyw amodau ynghlwm wrth y cyllid pan gafodd ei ddarparu, ac os felly, a gafodd yr amodau hynny eu bodloni?

Pan ddarparwyd y cymorth ariannol, roedd disgwyliad y byddai'n cael ei ad-dalu pan fyddai'r sefydliad yn mantoli'r gyllideb unwaith eto. Fodd bynnag, er mwyn i sefydliad allu ad-dalu'r cymorth, byddai angen iddynt gynhyrchu gwarged arian parod yn ystod y flwyddyn drwy danwario yn erbyn eu dyraniad adnoddau blynyddol. Byddai'r gofyniad hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar sefydliad wedi iddo fantoli'r gyllideb dro ar ôl tro. Am y rheswm hwn, cytunodd y Gweinidog na fyddai'n rhaid ad-dalu'r arian cymorth hwn mwyach.

3. Sut mae'r cyllid ychwanegol a'r penderfyniad a wnaed ynghylch ad-dalu yn cyd-fynd ag egwyddorion a gofynion Deddf Cyllid y GIG 2014?

Fel yr amlinellwyd uchod, nid yw'r cymorth arian parod yn rhan o ddyraniadau adnoddau'r byrddau iechyd, ac felly nid yw'n cael ei gynnwys gan y ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn Neddf Cyllid y GIG.

Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd na fyddai angen i sefydliad ad-dalu unrhyw ddiffyg hanesyddol a ysgwyddwyd ganddo cyn iddo fantoli'r gyllideb wedi iddo gyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r gyllideb am dair blynedd o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.
I roi enghraifft o sut y byddai hyn yn gweithio, llwyddodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro i fantoli'r gyllideb yn 2019-20, ar ôl ysgwyddo diffygion mewn blynyddoedd blaenorol a oedd yn dod i gyfanswm o £87 miliwn erbyn diwedd 2018-19. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei gynllun cytbwys, cymeradwy presennol yn y flwyddyn ariannol bresennol a'r nesaf, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021-22 byddai wedi cyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r gyllideb am dair blynedd. Bryd hynny, byddai'r diffyg hanesyddol o £87 miliwn yn cael ei ddileu i bob pwrpas, gan na fyddai angen ai adennill mewn blynyddoedd i ddod.

4. Ai'r sefyllfa bellach yw na fydd cyrff y GIG sy'n parhau i orwario yn y dyfodol byth yn gorfod ad-dalu'r diffygion hynny?

Un unol â chyhoeddiad y Gweinidog, ni fydd gofyn i sefydliad ad-dalu unrhyw ddiffygion hanesyddol, gan gynnwys diffygion yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol neu mewn blynyddoedd ariannol sydd i ddod, wedi iddynt gyflawni eu dyletswydd i fantoli'r gyllideb am dair blynedd o dan delerau Deddf Cyllid y GIG.

Cymerwyd y cam hwn i helpu'r pedwar bwrdd iechyd hyn i adeiladu cadernid ariannol ar gyfer y dyfodol wrth iddynt gynllunio eu hadferiad o'r effaith sylweddol y mae COVID-19 wedi'i chael ar eu sefydliadau. Fodd bynnag, nid yw'n dileu'r disgwyliad bod angen i'r byrddau hyn fynd i'r afael â'u sefyllfaoedd diffyg sylfaenol drwy ddatblygu cynlluniau gwasanaeth ac ariannol cynaliadwy a'u rhoi ar waith yn y dyfodol.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o gyhoeddiad tebyg a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddechrau mis Ebrill ynglŷn â dileu gwerth £13.4 biliwn o ddyledion a oedd gan ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr. Er bod

gwahaniaeth rhwng cyfundrefn ariannol y GIG yng Nghymru a Lloegr, rydym wedi defnyddio dull tebyg i egluro'r safbwynt polisi o ran diffygion a dyledion hanesyddol.

Hyderaf fod hyn yn darparu'r eglurder y mae'r Pwyllgor yn ei geisio.
Rwy'n falch o ddweud bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi gallu darparu barn gywir a theg ynglŷn â chyfrifon cryno y GIG ar gyfer 2019-20, a gosodwyd y rhain gerbron y Senedd ar 24 Awst 2020.

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth, addewais y byddwn yn darparu enghreifftiau o fentrau a phrosiectau sy'n helpu i reoli'r arfer o ddefnyddio staff asiantaeth fel rhan o waith cynllunio'r gweithlu yn ehangach.

Cyn COVID-19, roeddem yn canolbwyntio ar leihau unrhyw wariant diangen ar staff asiantaeth a locwm drwy nifer o elfennau allweddol. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu Cylchlythyr WHC/2017/042 Llywodraeth Cymru a oedd yn sefydlu fframwaith rheoli newydd a mecanweithiau ar gyfer adrodd ar wariant ar staff asiantaeth a locwm ar lefel Bwrdd yn holl sefydliadau'r GIG. Arweiniodd hyn at leihau gwariant ledled Cymru. Adlewyrchwyd hyn yn astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaethom hefyd sefydlu Grŵp Strategol Cymru ar gyfer Trefnu'r Gweithlu i weithio ar sail genedlaethol gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â rhai o'r materion sylfaenol sy'n arwain at ragor o ddibyniaeth ar staff asiantaeth a locwm.

Roedd rhywfaint o'r gwaith cynnar yn cynnwys trafodaethau gyda Chymdeithas Feddygol Prydain a chyflogwyr ar strwythur cyflog a threfniadau contract newydd, mwy deniadol, ar gyfer meddygon gradd staff, arbenigwyr cysylltiol ac arbenigwyr (SAS) sy'n ffurfio rhan anghymesur o'r gwariant ar staff asiantaeth a locwm. Bu saib yn y trafodaethau hyn pan oedd COVID-19 yn ei anterth ond maent bellach wedi ailddechrau ac rydym yn gobeithio dod i gytundeb yn fuan. Dylai hyn arwain at allu recriwtio'n sylweddol i ragor o rolau ac felly at leihau'r ddibyniaeth ar staff dros dro. Yn ogystal â'r uchod, comisiynodd Grŵp Strategol Cymru ar gyfer Trefnu'r Gweithlu achos busnes ar ddefnyddio datblygiadau allweddol a fyddai'n galluogi defnydd mwy hyblyg o'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwiriadau DBS sydd ar fandad parhaus ac sy'n gallu cael eu trosglwyddo felly ar draws sefydliadau yn hytrach na bod angen eu hail-wneud bob tro y bydd unigolyn yn dymuno gweithio i gyflogwr gwahanol.

Yn ogystal â hynny, mae system newydd ar-lein wedi cael ei datblygu i gefnogi'r gwaith o recriwtio a defnyddio meddygon teulu locwm ar draws nifer o bractisau. Mae potensial i ymestyn y system hon ar draws grwpiau eraill o staff i ddarparu ffordd effeithiol o ddefnyddio staff mewn modd hyblyg ar draws gwahanol gyflogwyr a lleoliadau. Defnyddiwyd y system hon yn ystod y cyfnod COVID-19 i drefnu staff yn gyflym ar draws y GIG a bellach mae gan y system y potensial i sicrhau defnydd mwy effeithiol o'r staff presennol ac ehangu'r pwll posibl o staff dros dro er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth a locwm o blith pwll bach o unigolion. Oherwydd ein bod wedi bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ein hymateb i COVID-19, cafodd y gwaith i helpu i reoli staff asiantaeth ei atal dros dro. Mae gwaith ar hyn bellach wedi ailddechrau, er bod hynny mewn fformat ychydig yn wahanol, ond bydd yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd canlynol –

- Gwell arweinyddiaeth genedlaethol

- Gwell dulliau o gasglu a dadansoddi data
- Lleihau’r galw am staff dros dro drwy leihau bylchau yn y gweithlu parhaol drwy:
    - recriwtio i’r gweithlu parhaol a chadw staff
    - defnyddio staff presennol yn fwy effeithiol

Gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd cyn COVID-19, rydym bellach yn gallu defnyddio’r hyn a ddysgwyd o’r gwaith cynharach, ac adeiladu ar rai datblygiadau a gefnogodd y gwaith o drefnu staff yn ystod y cyfnod COVID-19, a chyflymu’r cynnydd i ddatblygu’r canlynol ar y cyd –

- Cyflwyno system e-amserlennu safonol ledled Cymru a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn darparu cyfle i ddefnyddio staff mewn modd mwy hyblyg yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar staff nyrsio i ddechrau. Bydd yn cynnwys y modiwl safecare i helpu i sicrhau lefelau staffio diogel ar wardiau.

- Bydd e-amserlennu ar y cyd â datblygu Banc Gweithlu Cydweithredol yn darparu cyfle i leihau costau’r gweithlu dros dro drwy ganiatáu i staff gael eu defnyddio mewn modd mwy hyblyg ledled Cymru. O safbwynt staff meddygol, roedd gwaith wedi mynd rhagddo i ddiffinio’r elfennau craidd sy’n ofynnol i sefydlu banciau meddygol ar draws yr holl fyrddau iechyd.

Yn gywir

**Andrew Goodall CBE**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol – Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

07 Medi 2020

Annwyl Gadeirydd

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr 2019 a chyn cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor ar 14 Medi, mae'n bleser gen i gyflwyno papur tystiolaeth ar hynt ein gweithgareddau caffael.

Yn unol â'ch cais, mae'r papur tystiolaeth hwn yn ymdrin â'r canlynol:

1. Hynt y rhaglen gaffael o ran ei datblygu a'i gweithredu yn y dyfodol, yn seiliedig ar strategaeth newydd oedd yn cael ei pharatoi trwy ymgynghori â rhanddeiliaid;
2. Esblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS);
3. Methiant y broses gaffael yn achos Cymorth Swyddi Cymru a chasgliadau'r adolygiad a gynhaliwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol;
4. Cyfraniad ESNR at gaffael PPE; a
5. Cyfraniad ESNR at gaffael prydau ysgol.

Byddaf yn rhoi mwy o wybodaeth ichi am y datblygiadau yn y maes hwn yn yr hydref.

Croeso ichi gysylltu â mi os hoffech ragor o wybodaeth.

Gyda phob dymuniad da

Yn gywir

**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

**Rhaglen gaffael y dyfodol a'r strategaeth newydd**

Yn gynnar yn 2020, roedd camau breision yn cael eu cymryd i ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd yn unol â'r datganiad ysgrifenedig ar gaffael (2018) ac ymrwymiadau cysylltiedig y llywodraeth yn y maniffesto. Roedd hynny'n cynnwys datblygu cynllun gweithredu 9-rhan mewn ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid a chrisialu'r fframweithiau y byddai'r NPS neu lywodraeth leol yn eu defnyddio. Ym mis Mawrth 2020, cafodd yr adroddiad 'Cynnydd tuag at ddatblygu tirwedd caffael newydd yng Nghymru' ei gyhoeddi oedd yn disgrifio'r gwaith a wnaed.

***Digwyddiadau diweddar***

O ganlyniad i argyfwng COVID-19, a ddaeth i'r amlwg ym Mawrth 2020, a'i effeithiau uniongyrchol, bu'n rhaid i'r proffesiwn caffael ar draws Llywodraeth Cymru a ledled Cymru newid y ffordd y defnyddiai adnoddau er mwyn ymateb i'r pandemig. Er bod COVID-19 wedi peri heriau, mae hefyd wedi arwain at nifer sylweddol o gyfleoedd.

Er enghraifft, mae her enfawr bodloni'r galw am gyfarpar diogelu personol wedi gorfodi gweithwyr caffael proffesiynol yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ac, yn wir, yng ngweddill y DU i gydweithio i sicrhau bod y cyfarpar hwn yn cael ei gyflenwi mewn modd priodol ac effeithiol.

Bu llawer mwy o weithio ar draws y llywodraeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y cyfnod hwn, gyda gweithgorau'n cael eu sefydlu i ymateb yn gyflym a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, y GIG a Llywodraeth Leol i fobileiddio a chyd-drefnu adnoddau. Cafwyd llawer o adborth cadarnhaol oddi wrth randdeiliaid allweddol yn ystod y broses hon; er enghraifft, mae cynrychiolwyr CLILC ac WCVA wedi canmol y gwaith sydd wedi'i wneud gan yr NPS yn ystod yr argyfwng. Mae'r ymgysylltu agos a'r cydweithio hwn yn para i'r cyfnod ailgodi ac adfer. (Rydym yn parhau i fod, wrth gwrs, yng nghanol y pandemig.)

Wrth i ni gamu tua'r normal newydd, mae'r pwyslais wedi symud i gyflawni'r camau gweithredu yn y datganiad ysgrifenedig ar gaffael a'r cynllun cysylltiedig, gan ystyried yr arferion a'r gwersi da a ddysgwyd wrth ymateb i'r argyfwng. Mae'r dulliau gweithio yn ystod y pandemig wedi newid dulliau gweithio Llywodraeth Cymru a dulliau gweithio ei rhanddeiliaid. Mae'n amlwg bellach y gellir llunio polisïau caffael a bodloni anghenion caffael mewn ffordd fwy holistig, gan weithio mewn partneriaeth â gweddill y gwasanaeth cyhoeddus, a helpu i wireddu uchelgeisiau ehangach ar gyfer caffael yng Nghymru. Mae'r sylw bellach ar ffyrdd newydd o weithio ac ar wneud y gorau o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod pandemig COVID-19

***Datganiad Polisi Caffael Cymru***

Gyda'r ffordd newydd hyn o weithio mewn golwg, mae sylw'n cael ei roi nawr ar ddiweddaru Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) a datblygu gallu a chapasiti'r

proffesiwn caffael o fewn sector cyhoeddus Cymru trwy ein Cynllun Sgiliau a Galluoedd.

Mae'r DPCC, a gafodd ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2015, yn strategaeth a fframwaith caffael ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Mae defnyddio DPCC yn effeithiol wedi esgor ar effeithiau cadarnhaol. Mae datganiad newydd wrthi'n cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r trefniadau a'r cysylltiadau agosach newydd gafodd eu creu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod Pandemig Covid-19 ac i ddatblygu arnynt.

Rydym eisoes wedi gofyn i'n rhanddeiliaid am eu barn a'u hadborth am Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio'r adborth i lunio a diweddaru DPCC gan ymgynghori eto ar y mater er mwyn rhoi pob cyfle i randdeiliaid gyfrannu at lunio'r datganiad nesaf. Byddwn yn holi rhanddeiliaid am y fersiwn newydd ddrafft yn yr hydref hwn gan obeithio lansio DPCC newydd cyn diwedd y flwyddyn.

Bydd Caffael Cyhoeddus, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn gyfle pwysig i gyrff cyhoeddus gyrchu at eu hamcanion llesiant a'r amcanion llesiant cenedlaethol. Bydd cyfle i ddiweddaru DPCC er mwyn iddo adlewyrchu'r amcanion llesiant yn well ac i fynd i'r afael â'r tensiynau gwir a dychmygol rhwng costau is a chyflawni canlyniadau ehangach. Fel rhan o DPCC newydd, byddwn yn ystyried argymhellion a chanfyddiadau Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 sy'n ymwneud â Chaffael Cyhoeddus. Rydym wrthi'n cydweithio â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i swyddfa ar y ffordd ymlaen o ran y Datganiad a chaffael yn gyffredinol yng Nghymru.

Mae ein tîm Gwerth Cymru eisoes wedi rhoi arweiniad, hyfforddiant ac arfau i helpu awdurdodau i fabwysiadu egwyddorion DPCC. Caiff y rhain eu hadolygu a'u diweddaru wrth ddiweddaru DPCC. Rydym wedi adolygu'r Nodiadau Cynghori ar Gaffael (PANs) y mae Gwerth Cymru yn eu cyhoeddi'n rheolaidd er lles sefydliadau prynu sector cyhoeddus Cymru. Sylweddolir bod yna fylchau a bod angen diweddaru nifer ohonynt.

Ar hyn o bryd, mae 18 PAN ar gael i sector cyhoeddus Cymru ar wefan llyw.Cymru. Mae tri ohonynt yn gysylltiedig â'r Nodiadau Polisi Caffael a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU am Covid-19 ac a olygwyd gan Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi i'w defnyddio gan sector cyhoeddus Cymru.

Er mwyn gwneud PANs yn haws eu defnyddio gan randdeiliaid, rydym yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i'w cyhoeddi mewn lle penodol, wedi'u trefnu mewn ffordd fwy cronolegol a deallus, er hwyluso pethau i'r prynwr.

***Sgiliau***

Rydym wedi neilltuo amser hefyd i ddatblygu'n Cynllun Sgiliau a Galluoedd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y gweithwyr caffael proffesiynol yn sector cyhoeddus Cymru. Mae bellach gennym raglen caffael broffesiynol ar waith i fynd i'r afael â'r angen hwn.

- Rydym wedi lansio rhaglen Dyfarnu Corfforaethol MCIPS (Aelod o'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi) wedi'i chreu'n benodol ar gyfer Cymru. Ceisiwyd datganiadau o ddiddordeb ledled sector cyhoeddus Cymru. Roedd y galw yn uchel iawn a gwnaethom ymrwymo i gyllido dwy garfan. Mae bellach gennym gyfanswm o 36 myfyriwr rhwng y ddwy garfan. Maent yn cynrychioli pob sector a byddant yn dechrau CIPS Lefel 4 ym mis Medi.
- Byddwn hefyd yn lansio Dyfarniad Corfforaethol Uwch i Ymarferwyr (Lefel 5/6) ym mis Ionawr 2021, eto ar gyfer cohort o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r dyfarniad hwn eisoes wedi'i hysbysebu i wahodd ymgeiswyr. Bydd myfyrwyr sy'n dilyn y cwrs yn cael eu hachredu'n llawn gan yr MCIPS cyn belled â bod ganddynt y nifer gofynnol o flynyddoedd o brofiad a bennir gan y cyrff proffesiynol.
- Yn ogystal, er mwyn diogelu dyfodol y proffesiwn, rydym yn cynnal cynllun rhyngosod peilot o fis Medi, ar y cyd â Phrifysgol De Cymru. Yn ystod y cynllun peilot bydd pum myfyriwr ym mlwyddyn olaf ond un eu gradd Cadwyn Gyflenwi a Logisteg yn treulio blwyddyn mewn sefydliad sector cyhoeddus. Bydd y myfyrwyr hyn yn derbyn profiad gwaith gwerthfawr wrth elwa ar ein rhaglen galluoedd caffael ac unrhyw hyfforddiant caffael gan y sefydliad sy'n cynnig y lleoliad gwaith. Rydym yn gobeithio ariannu'r sefydliadau hyn i gadw'r myfyrwyr yn rhan amser yn dilyn y cynllun peilot, gyda'r bwriad y byddant yn gwneud cais am rolau llawn amser, gan sicrhau cyflenwad o dalent ar gyfer y dyfodol.
- Rydym hefyd yn archwilio ymarferoldeb cynlluniau prentisiaeth, ac yn y tymor hwy rydym yn gobeithio gweithio gyda chydweithwyr ym maes addysg a Gyrfa Cymru i godi proffil caffael mewn ysgolion fel opsiwn deniadol ar gyfer gyrfa.

Yn ogystal â chynyddu nifer y gweithwyr caffael proffesiynol, rydym yn gwella sgiliau staff drwy gyfres o fodiwlau e-ddysgu. I ddechrau canolbwyntir ar fodiwlau caffael masnachol a meysydd polisi allweddol drwy gyfres o fodiwlau e-ddysgu. Bydd y modiwlau'n cynnwys Cyfrifon Bank Prosiectau, Ymyrryd â'r Gadwyn Gyflenwi/Adeiladu Cyfoeth Cymunedol, Datgarboneiddio, yr Economi Gylchol a Phartneriaethau Cymdeithasol.

**1. Esblygiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS)**

Yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae'r NPS wedi parhau i esblygu'n wasanaeth sy'n canolbwyntio ar reoli portffolio llai o gontractau cenedlaethol yn ôl categori tra'n parhau i integreiddio polisi mewn ffordd ymarferol. Ceir nifer gynyddol o enghreifftiau o ymyriadau polisi gan yr NPS trwy gaffael.

Mae cytundeb fframwaith yr NPS ar gyfer Athrawon Cyflenwi wedi cael dylanwad mawr ar y ffordd y mae marchnad yr athrawon cyflenwi'n gweithio, gan ddod â

buddiannau i athrawon a gweithwyr eraill ein hysgolion fel ei gilydd. Cafodd y fframwaith ei gyd-ddylunio trwy ymgysylltu â phob rhan o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys â chydweithwyr yng ngrŵp EPS Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr athrawon cyflenwi a hefyd â'r farchnad. Ymhlith y canlyniadau y mae cyfradd tâl ddyddiol isaf i athrawon cyflenwi, hyfforddi a datblygu parhaus ym maes y cwricwlwm newydd a mesurau diogelu cadarn.

Mae dros 25 o asiantaethau o bob rhan o Gymru bellach yn rhan o'r cytundeb ac mae'n cael ei ddefnyddio lawer mwy ar draws Cymru na'r fframwaith blaenorol.

Mae cefnogi'r economi sylfaen wedi bod yn elfen bwysig yn nifer o gytundebau'r NPS trwy ymyriadau mewn cadwyni cyflenwi. Er enghraifft, mae cytundeb nwyddau swyddfa NPS â Lyreco yn cefnogi ailgylchu a'r economi sylfaen trwy gynllun Cymru Copier lle mae menter gymdeithasol o Gymru yn gyfrifol am waredu gwastraff cyfrinachol. Mae hyn wedi arwain at ryw 90 o swyddi yn cael eu creu ar gyfer pobl oedd yn ddi-waith tymor hir gan helpu i weddnewid eu bywydau.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar ddefnyddio papur eildro 100% di-glorin. Yn ogystal â bod yn well i'r amgylchedd, mae'n rhatach na brandiau sy'n defnyddio clorin i wynnu papur.

Daeth fframwaith Glanhau a Deunyddiau Glanhau NPS i rym ar fyrder ganol mis Mawrth, gan helpu sefydliadau i ymateb i Covid-19. Gyda'r rhan fwyaf o'r cyflenwyr yn dod o bob rhan o Gymru, cafodd nifer o ymyriadau polisi pwysig eu cynnal yn effeithiol.

Mae'r fframwaith yn cefnogi menter polisi Llywodraeth Cymru i daclo tlodi mislif ac rydym wedi bod mewn cysylltiad clos â nifer o awdurdodau lleol i'w helpu i brynu eitemau mislif trwy'n fframwaith. Mae gwaith wedi'i wneud gyda chyflenwyr y fframwaith i gefnogi'r economi leol a chryfhau'r gadwyn gyflenwi trwy ddenu cyflenwyr newydd i'r gadwyn gyflenwi e.e. Prifysgol Abertawe a Mewhall yn cydweithio ar ddiheintydd dwylo.

Fel hwb i economi Cymru, cafodd Chemsol Cymru Ltd, busnes teuluol o Gonwy, le ar Fframwaith Glanhau a Deunyddiau Glanhau newydd yr NPS ym mis Chwefror 2020. Ers hynny, mae'r cwmni wedi cael amrywiaeth o waith newydd trwy'r fframwaith, gan gynnwys contract gyda Chyngor Caerdydd i gyflenwi 1500 o orsafoedd diheintio dwylo sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghonwy.

Cafodd fframwaith Cyfreithwyr yr NPS ei adolygu fel rhan o ymarferiad ehangach gan y Comisiwn Cyfiawnder i ystyried y sector cyfreithiol yng Nghymru. Ar y pryd, roedd 91% o holl wariant y fframwaith o ryw £5 miliwn y flwyddyn yn cael ei wario ar gwmnïau o Gymru. Yn unol ag argymhellion y Comisiwn, mae model caffael wedi'i ddatblygu ar y sylfeini cadarn hynny a'r gobaith yw ehangu cyfleoedd i fusnesau cyfreithiol yng Nghymru. Roedd y fframwaith NPS gwreiddiol a osodwyd yn 2015 yn un llwyddiannus, yn enwedig o ran rhoi cyfleoedd i'r Ministry of Furniture (MOF), busnes o Faglan. O dan y fframwaith, sicrhaodd Cyngor Abertawe a MOF nifer o arbedion o ran arian a charbon trwy ailddodrefnu Canolfan Ddinesig y Cyngor â chelfi wedi'u hailgynhyrchu.

Mae'r fframwaith newydd wedi penodi busnes arall, Sefydliad Deillion Merthyr, ynghyd â nifer o BBaChau eraill, hen a newydd o Gymru.  Mae'r fframwaith wedi cael ei addasu er mwyn cefnogi defnyddio cynnyrch wedi'u hailgynhyrchu yn lle prynu pethau newydd, ac mae gwaith wedi dechrau gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, a noddir gan Lywodraeth Cymru, i roi arweiniad i ddefnyddwyr y fframwaith o'r sector preifat i'w helpu yn hynny o beth gan leihau eu gwariant ariannol a'u defnydd o garbon. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr weithio gyda mentrau cymdeithasol o Gymru i sicrhau bod y manteision economaidd yn aros yng Nghymru.

Hefyd, fel rhan o waith y Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol (CERET) ar PPE a ddisgrifir nes ymlaen yn y papur hwn, mae'r NPS yn gweithio'n glos â gweithgynhyrchwyr o Gymru sydd wedi addasu'u cynnyrch i'w helpu â'u cynaliadwyedd tymor hir.  Er mai megis dechrau y mae'r gwaith, mae'r NPS wedi hwyluso perthynas fusnes rhwng tri o'r gweithgynhyrchwyr hyn a dosbarthwyr yng ngweddill y DU.  Mae'r ymyriadau polisi y cyfeiriwyd atynt, ynghyd â'r nifer fawr sydd wedi'u defnyddio ar draws fframweithiau'r NPS wedi helpu i annog defnyddio'r fframweithiau ar draws sector cyhoeddus Cymru.

Ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 2018/19, rhyw £366 miliwn oedd gwariant y fframweithiau, ac ym Mlwyddyn Ariannol 2019/20, roedd hynny wedi cynyddu i ryw £390 miliwn. Mae'r ffigurau hyn yn rhai cadarnhaol o gofio bod nifer cytundebau'r NPS yn gostwng yn sgil datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet (ar y pryd), yn 2018 ynghylch addasu'r NPS a Gwerth Cymru

Wrth ddatblygu ei gynllun cenedlaethol diwygiedig, mae'r NPS wedi gweithio ochr yn ochr â CLlLC sydd wedi datblygu ei ffordd ranbarthol ei hun o weithio.  Mae hyn wedi cymryd amser, a da hynny, er mwyn gallu rhoi ystyriaeth drylwyr i'r trywydd y dylid ei ddilyn yng Nghymru i ymdrin â rhaglen wreiddiol yr NPS o 67 o fframweithiau.  Y canlyniad oedd rhaglen genedlaethol o 32 o fframweithiau gyda CLlLC yn datblygu 15 o fframweithiau eraill ar lefel rhanbarth.  Mae'r fframweithiau eraill oedd yn rhaglen wreiddiol yr NPS o 67 o fframweithiau wedi'u hystyried a byddant yn cael eu darparu trwy ddulliau eraill e.e. trwy drefniadau sefydliadol lleol, cytundebau eraill ar lefel y DU fel trwy'r Crown Commercial Services (CCS) neu eu hymgorffori yn fframweithiau newydd yr NPS.

Wrth i'r NPS newid i ddelio â'r rhaglen newydd, mae nifer staff yr NPS wedi gostwng. Fodd bynnag, nid yw'r swyddi hynny wedi'u colli fodd bynnag. Maen wedi'u symud i gefnogi rhagor o waith Caffael gweddnewidiol.

Hefyd, mewn ymateb i'r datganiad ysgrifenedig, mae rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r Gwasanaeth Darparu a Pholisi Caffael newydd fydd yn uno gwasanaethau darparu'r NPS â'r tîm datblygu a chefnogi polisi.  Amcan y

gwasanaeth yw darparu ac integreiddio gwasanaethau sydd nid yn unig yn rhoi polisi ar brawf ond sydd hefyd yn darparu fframweithiau ar gyfer Cymru gyfan mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth newydd: wedi inni ei ddatblygu ymhellach, byddwn yn ymgynghori ar ein cynlluniau cychwynnol â'r prif randdeiliaid er mwyn sicrhau'r manteision gorau i sector cyhoeddus Cymru.

**3. Y broses gaffael a gynhaliwyd ar gyfer Cymorth Swyddi Cymru a chasgliadau adolygiad yr Ysgrifennydd Parhaol.**

Ar 27 Ionawr 2020, cynghorwyd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y dylid rhoi'r gorau i'r ymarferiad caffael ar gyfer Cymorth Swyddi Cymru (JSW), yn dilyn cyngor cyfreithiol, ac y dylid dyfeisio ffordd arall o sicrhau canlyniadau'r polisi. Cymeradwywyd yr argymhelliad gan y Gweinidog.

Trafododd y Prif Weinidog y mater gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, gan ofyn iddi gomisiynu adolygiad cyflym o'r problemau ac o unrhyw risgiau cysylltiedig a allai ymddangos mewn mannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan swyddogion llywodraethu o fewn Tîm Gweithrediadau Canolog Grŵp yr ERNR ym mis Mawrth 2020. Cafodd ei ansawdd ei warantu gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a chyflwynwyd yr adroddiad i Gyfarwyddwr y Trysorlys o fewn grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys:

a) Pam y cafodd yr ymgais gyntaf i gaffael y fframwaith hwn ei gollwng.
b) Beth oedd y gwersi a ddysgwyd o'r broses gyntaf hon gan adolygu ac archwilio'r gwersi hynny ar gyfer eu gweithredu.
c) Pam y cafodd y broses ar gyfer caffael y fframwaith hwn ei ollwng am yr ail dro, a chadarnhau'r ffeithiau hynny.
d) Llunio adroddiad ar yr hyn a aeth o'i le a'r gwersi a ddysgwyd.
e) Argymell a oes angen cynnal ymchwiliad pellach o dendrau eraill.

Roedd yr adolygiad yn barod ym mis Mawrth 2020, cafodd yr adroddiad ei glirio a pharatowyd cyngor i'r Gweinidogion. Ni chafodd yr adolygiad ei gyhoeddi cyn hynny gan fod y swyddogion mor brysur yn delio ag ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19 a olygodd ohirio unrhyw waith nad oedd yn gysylltiedig â'r pandemig. Mae'r Gweinidogion wedi cael gweld yr adroddiad bellach, ac mae'r argymhellion gweithredol a gweinyddol yn yr adroddiad wedi derbyn sylw.

Mae Gweinidog yr Economi a'r Gogledd wedi addo rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad yr adolygiad i Senedd Cymru. Bydd hynny'n digwydd pan fydd Senedd Cymru'n ailymgynnull ar ôl toriad yr haf.

## 4. Cyfraniad ESNR at gaffael PPE yn ystod pandemig Covid-19

Mae her enfawr sicrhau y gellid bodloni'r galw am Gyfarpar Diogelu Personol hanfodol (PPE) wedi'i gwneud yn ofynnol i staff caffael o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru a'r DU gydweithio i sicrhau cyflenwad priodol ac effeithlon.

Arwydd o hynny oedd sefydlu'r CERET gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd CERET ar ddechrau pandemig Covid-19 i weithio gyda Diwydiant Cymru i gaffael cyflenwadau a chyfarpar hanfodol ar gyfer y GIG a Gofal Cymdeithasol trwy adain cyd-wasanaethau'r GIG - Partneriaeth Cydwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NWSSP). Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd a sefydliadau busnes, gan gynnwys :

- Economi, Arloesi. Sectorau Thematig, CPS, Cysylltiadau Rhyngwladol, yr Economi Sylfaen.
- Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Labordy Profi Deunydd Llawfeddygol (SMTL).
- Hwb Gwyddorau Bywyd.
- Diwydiant Cymru.
- Partneriaeth Cydwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NWSSP).

Cylch gorchwyl CERET yw cefnogi'r NWSSP gan roi sylw arbennig i geisio atebion gweithgynhyrchu o Gymru er mwyn creu cadwyn gyflenwi lawer cryfach ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Gwelwyd llawer o lwyddiannau gan gynnwys pedwar cwmni o Gymru sydd bellach yn cynhyrchu mygydau o radd feddygol, tarianau wyneb yn cael eu cynhyrchu gan y Bathdy Brenhinol, diheintyddion dwylo'n cael eu cynhyrchu gan nifer o gwmnïau gwahanol a diwydiant bychan o wniadwyr yn helpu i gynhyrchu sgrybs ysbytai.

Mae staff Masnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru, o'r NPS a'r CPS, wedi cefnogi CERET mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- Helpu i greu contractau masnachol-gadarn yn gyflym ar gyfer amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau, gan fanteisio ar yr hyblygrwydd a gafwyd trwy'r rheoliadau argyfwng;
- Gweithio law yn llaw â'r Hwb Gwyddorau Bywyd gan gyfrannu at brosesu dros 2000 o gynigion;
- Datblygu canllawiau diwydrwydd dyledus ar gyfer PPE, a'u rhannu ar draws sector Cyhoeddus Cymru;
- Cael hyd i PPE ar gyfer lleoliadau eraill yn y sector cyhoeddus; a
- Helpu gweithgynhyrchwyr newydd trwy estyn eu marchnadoedd trwy fframwaith PPE yr NPS.

Er mwyn gallu dygymod â'r galw am PPE yn y dyfodol, mae'r NPS bellach yn gweithio mewn partneriaeth glos ag NWSSP i ystyried trefniadau caffael PPE newydd.

Pan ddaeth y byd yn ymwybodol o Covid-19 a'r achosion yn Tsieina, cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiad o'r risg i'w chytundebau cydweithredu ar draws sector cyhoeddus Cymru.  Gwelwyd bod nifer o gytundebau, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â TGCh, dillad amddiffynnol a nwyddau swyddfa bach, yn ddibynnol iawn ar gadwyni cyflenwi yn Tsieina. Cysylltwyd â chyflenwyr allweddol i gael gwybod eu cynlluniau i ddatrys hyn.

Gwelwyd bod y sector TGCh yn gallu ymdopi a phrofwyd hynny pan gafwyd y cynnydd cyflym yn y galw am galedwedd i gefnogi gweithio o bell.  Roedd perygl y byddai meysydd eraill, fel cyfarpar diogelu personol, yn cael eu llethu yn sgil tarfu ar y gadwyn gyflenwi fyd-eang a chan y galw digynsail trwy'r byd.

Pan ddaeth y cyfnod clo a rhoi'r gorau i arferion busnes arferol, daeth yn amlwg bod nifer o fusnesau'n wynebu caledi ariannol difrifol. Trwy ei system dadansoddi gwariant cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiadau risg o fusnesau ar draws nifer o gategorïau allweddol. Cefnogodd y tîm Deallusrwydd Busnes amrediad o weithgareddau caffael Covid-19, gan gynnwys adroddiadau dadansoddi ar gategorïau o wariant. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys nodi categorïau allweddol o wariant a'r cyflenwyr hanfodol trwy waith dadansoddi.  Cyfunwyd hynny â sgoriau iechyd ariannol, naratif ategol a gwybodaeth am farchnadoedd  er mwyn rhoi gwybodaeth i feysydd mewnol i'w cefnogi â'u gweithgareddau Covid-19

**5. Caffael ESNR at gaffael prydau ysgolion.**

Pan gafodd ysgolion eu cau'n gynnar cyn dechrau Gwyliau'r Pasg, gofynnwyd i'r Is-adran Cymorth i Ddysgwyr ddatblygu system genedlaethol ar gyfer helpu teuluoedd dysgwyr oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim ond yn methu mynd i'r ysgol yn ystod cyfnod y Coronafeirws . Neilltuwyd i ddechrau hyd at £7m er mwyn i awdurdodau lleol allu cynnal cynllun lleol am 4 wythnos (gan gynnwys dros yr hyn a fyddai wedi bod yn Wyliau Pasg) tan y gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chynnal cynllun cenedlaethol.

Y bwriad oedd adeiladu cynllun cenedlaethol yng Nghymru a fyddai'n rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol allu ymateb i ofynion lleol a sicrhau bod y plant mwyaf bregus yn cael y cymorth oedd fwyaf addas iddynt.  Roedd hyn yn golygu cael hyd i grwpiau ychwanegol o blant bregus (fel y rheini o dan bedair oed) y gellid eu hychwanegu at y frwydr yn erbyn tlodi bwyd dros gyfnod argyfwng Covid-19.

Byddai'r ffordd Gymreig unigryw hon o wneud pethau yn caniatáu i awdurdodau lleol naill ai:

a. ddewis ymuno â'r cynllun cenedlaethol, gan olygu bod talebau'n cael eu hanfon i aelwydydd cymwys ond gan ganiatáu i ysgolion/awdurdodau lleol nodi os oedd angen help penodol ar deuluoedd, megis cyflenwadau bwyd;
b. parhau i ddarparu talebau lleol;
c. cadw'r trefniadau i dalu arian i gyfrifon banc teuluoedd cymwys; neu
d. parhau i fynd â bwyd at deuluoedd cymwys.

Oherwydd amserlenni tynn, edrychodd CPS Llywodraeth Cymru a oedd Contract neu Fframwaith addas fyddai'n caniatáu i gynllun fel hwn gael ei ddarparu yng Nghymru o fewn amserlen dynn.

Cadarnhaodd Cyfarwyddiaeth CPS Llywodraeth Cymru fod cytundeb fframwaith eisoes yn bod â chwmni o'r enw Edenred i ddarparu cynlluniau buddiannau i gyflogedigion (enw'r "lot" oedd "Atebion Gwobrwyo a Chydnabod"). Ond cytunwyd y dylid ystyried modelau darparu eraill hefyd (e.e. gweithio gydag archfarchnadoedd a allai fod yn barod i ystyried cynnig disgowntiau).

Gweithiodd y CPS â'r Is-adran Cymorth i Ddysgwyr a Gwasanaethau Cyfreithiol LlC i ystyried opsiynau contractio eraill a nodi gwendidau'r opsiynau hyn. Mae contractau cyhoeddus i ddarparu mwy na £122,976 o wasanaethau yn gorfod cydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. O dan yr amgylchiadau hyn, mae hynny'n golygu naill ai:

1) defnyddio fframwaith sy'n bod eisoes
2) diwygio contract sy'n bod eisoes
3) cynnal proses gaffael sy'n cydymffurfio, gydag amserlen dynnach
4) rhoi dyfarniad uniongyrchol o dan reoliad 32

Dywedodd y CPS a'r Gwasanaethau Cyfreithiol wrth yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr y byddai contract ag un archfarchnad erbyn 20 Ebrill 2020 wedi lleihau'r posibilrwydd y byddai'r ymarfer caffael wedi bod yn un cadarn oedd yn cydymffurfio. Cynghorwyd yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr i wneud Cytundeb yn ôl y gofyn ag Edenred gan mai hwnnw fyddai â'r risg leiaf.

Byddai contract ag Edenred yn cynnig dewis o dalebau i rieni oddi wrth Tesco, Sainsbury, SainsburyAsda, Morrison's, John Lewis/Waitrose a Marks & Spencer. Roedd Edenred yn ystyried hefyd opsiynau fyddai'n cynnwys y Co-op ac o bosibl Iceland. Daeth yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr i'r casgliad y byddai contract ag Edenred fyddai'n rhoi cyfle i deuluoedd ddewis unrhyw un o blith nifer o adwerthwyr yn amlwg fwy cydnaws ag Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan ganiatáu i deuluoedd ddewis yr opsiwn oedd fwyaf addas iddynt hwy.

Ond cyn llofnodi'r contract, daeth yr Is-adran Fwyd i glywed bod Edenred yn ei chael hi'n anodd ysgwyddo ymrwymiadau ei gontract yn Lloegr ac na fyddai ganddo'r capasiti a oedd ei angen i fodloni anghenion Cymru. Yr un pryd, cadarnhaodd yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr fod awdurdodau lleol wedi creu eu hatebion eu hunain a'u bod yn gweithio'n dda. Ar 22 Ebrill 2020, cyhoeddwyd cynlluniau i roi arian i gefnogi awdurdodau lleol â'u trefniadau eu hunain ac nad oedd angen cyngor y Gyfarwyddiaeth Fasnachol mwyach ar drefniadau cenedlaethol. Unwaith eto, roedd hyn yn enghraifft dda o weithrediadau ar y cyd o fewn ac ar draws Llywodraeth Cymru ac ar draws y sector cyhoeddus ehangach i sicrhau canlyniad yn gyflym.

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF991SN

28 Awst 2020

Annwyl Mr Ramsay

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch caffael Cyfarpar Diogelu Personol (PPE).

Ar ddechrau'r pandemig COVID-19, ehangodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei rôl gaffael, gan ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflenwi'r holl PPE angenrheidiol i'r GIG, ac i awdurdodau lleol ar gyfer ei ddefnyddio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Ers dechrau mis Mawrth, mae'r Bartneriaeth wedi darparu dros 293 o filiynau o eitemau o PPE i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bu hon yn ymdrech anferthol, o ran logisteg a dod o hyd i ffynonellau, a oedd yn defnyddio cyflenwyr lleol a rhyngwladol. Serch hynny, fe helpodd Cymru i gyrraedd sefyllfa sefydlog mewn perthynas â PPE, gan ein galluogi i gynnig cymorth i rannau eraill o'r DU drwy drefniadau cymorth gydfuddiannol. Llwyddwyd i gynnal y cyflenwad ar yr adeg fwyaf heriol, er bod pryderon ynglŷn â phrinderau. Mewn cyfnod byr o amser, llwyddwyd hefyd i newid y broses cyflenwi a dosbarthu a oedd yn canolbwyntio ar fyrddau iechyd a'r GIG yn unig, i broses o ddarparu i gannoedd o leoliadau, o ddarparwyr gofal cymdeithasol i weithwyr proffesiynol ym maes gofal sylfaenol, ee meddygfeydd a fferyllfeydd. Bu hyn yn newid sylfaenol ac yn dipyn o gamp, a gefnogwyd i ddechrau gan ein gallu i gael mynediad at gyflenwadau pandemig y cynlluniwyd ar eu cyfer. Wrth inni gynllunio ar gyfer misoedd y gaeaf, mae'r Bartneriaeth eisoes wedi cymryd camau i wella cydnerthedd, a bydd yn parhau i adeiladu ar y camau hynny drwy ddatblygu cynllun strategol ar gyfer caffael PPE.

Fel y nodwch yn eich llythyr, mae adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, ar yr '*ymchwiliad i effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar*

*iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru',* yn cynnwys nifer o argymhellion ynglŷn â PPE. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn wedi ei atodi, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei waith o ystyried caffael cyhoeddus. Mae'r adrannau perthnasol ar PPE ar dudalen 3-5.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/2497/20

Dr David Lloyd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

19 Awst 2020

Annwyl Dr Lloyd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf yn rhoi adroddiad y Pwyllgor imi ar yr *'Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: '.* Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am yr amser a dreuliwyd yn ystyried y pwnc pwysig hwn. Roedd yn gyfnod heriol i bob un ohonom.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r staff ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a weithiodd yn arbennig o galed i drin a gofalu am y rhai a oedd wedi dal COVID-19 a'r rhai a oedd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol brys eraill, ac i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae'r system wedi bod drwy drawsnewidiad nodedig ym mhob lleoliad o fewn cyfnodau heriol ac eithriadol o amser. O ran cyfarpar diogelu personol, hoffwn hefyd gydnabod yr her enfawr a oedd yn wynebu'r gwasanaeth o ran logisteg a gweithgynhyrchu i gael gafael ar filiynau o eitemau ar adeg anodd iawn.

Yng nghyd-destun y sefyllfaoedd gwaethaf rhesymol ar y pryd, graddfa'r lefelau capasiti a ddisgwyliwyd, nifer y staff critigol a oedd yn ofynnol a gweld systemau iechyd uchel eu parch eraill yn cael eu llethu, roedd hwn yn gyfnod eithriadol o ddwys a phryderus i bawb dan sylw.

Gwnes y penderfyniad cynnar ar 13 Mawrth i gamu'n ôl o weithgareddau rheolaidd er mwyn sicrhau bod gan y GIG a'r system ofal amser priodol i baratoi, gan gynnwys creu capasiti a hyfforddi ac aildrefnu staff. Gohiriwyd gofal sylfaenol ac eilaidd rheolaidd dros dro er mwyn cefnogi'r nifer o gleifion â COVID-19 a ragwelwyd. Gwnaed penderfyniadau anodd a oedd yn adlewyrchu pwysau ac arwyddocâd y sefyllfa a oedd yn wynebu pob un ohonom ac roeddem yn ymwybodol o'r angen i ymateb i amgylchedd a oedd yn newid yn gyflym iawn, drwy fis Ebrill a mis Mai yn arbennig.

Nod ein camau gweithredu oedd diogelu poblogaeth Cymru, achub bywydau a diogelu'r GIG. Yn y cyd-destun hwn, roedd gwaith modelu'r DU, a droswyd ar gyfer Cymru, yn dangos bod angen darparu 10,000 o welyau ychwanegol a 950 o welyau gofal critigol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau amlwg iawn a'r systemau a oedd o bosibl wedi'u llethu, gallem roi cynlluniau ar waith ar frys a oedd yn caniatáu inni dreblu capasiti gofal critigol os

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

oedd angen drwy gapasiti ymchwydd a hefyd ddyblu nifer y gwelyau ysbyty acíwt yng Nghymru – a'r cyfan o fewn dyddiau ac wythnosau yn ystod yr her ddigynsail hon.

Diolch i'r proffesiynoldeb a'r ymateb hyblyg a oedd yn nodweddion amlwg yng nghydweithrediad pob rhan o'r system iechyd a gofal, a'n gwaith paratoi cyflym yn gyffredinol, roedd Cymru wedi gallu ymateb yn gyflym i ymdopi â'r argyfwng iechyd y cyhoedd hwn. Cynorthwywyd yr ymateb drwy'r cydberthnasau agos ac agored ar draws sefydliadau iechyd a chyda phartneriaid gofal cymdeithasol ledled Cymru, gan adeiladu ar strwythurau a threfniadau partneriaeth a oedd eisoes yn bodoli. O ganlyniad i gyfathrebu rheolaidd a gwneud penderfyniadau'n gydweithredol, gwnaethom lwyddo i gyflawni nifer o gerrig milltir, o leihau gweithgareddau GIG rheolaidd dros dro, i ddatblygu ysbytai maes ac, yn ddiweddarach, i sefydlu trefniadau Profi, Olrhain a Diogelu lleol. Mae'r trefniadau atgyfnerthu hyn yn sylfaen bwysig i'r Weithrediaeth newydd sy'n cael ei datblygu ar gyfer GIG Cymru.

O ganlyniad i'r sylfaen dystiolaeth ar y pryd, a oedd yn llywio ein penderfyniadau, a chefnogaeth hollbwysig effaith ehangach y boblogaeth yn parchu rheoliadau i aros gartref, yn ffodus ni welsom y 100,000 o dderbyniadau i'r ysbyty a ddisgwyliwyd ar y pryd na'r hyd at 28,000 o farwolaethau posibl yng Nghymru, ac mae pethau'n parhau felly. Fodd bynnag, yn anffodus, mae nifer o bobl wedi colli anwyliaid ac roeddem yn ymwybodol drwy gydol y sefyllfa hon fod atal mwy o deuluoedd rhag dioddef trychineb o ganlyniad i COVID-19 yn hollbwysig.  Roedd hwn yn gyfnod arbennig o heriol i bawb a oedd ar reng flaen ein gwasanaethau ac mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol, yn enwedig wrth inni baratoi at gyfnod anrhagweladwy'r gaeaf sydd o'n blaenau.

Rwyf hefyd am gydnabod lefel y trawsnewidiad, a gefnogwyd gan arloesedd digidol, sydd wedi bod yn anhygoel wrth gefnogi'r system iechyd a gofal.  Diolch i raddfa'r her a'r datblygiad cyflym, mae nifer o'r ffyrdd newydd o weithio a'r dulliau arloesol wedi cael adborth cadarnhaol gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cleifion a chlinigwyr. Rydym yn parhau i ddysgu o'n gwaith hyd yn hyn a byddwn yn adeiladu ar yr ymdrechion hyn wrth inni gynllunio ar gyfer y gaeaf a thu hwnt. Bydd argymhellion y Pwyllgor hefyd yn helpu i lywio ein dull a'n camau gweithredu yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd tystiolaeth o nifer o ffynonellau allweddol, ac mae'n gwerthfawrogi'r sefyllfa gymhleth a oedd yn wynebu'r rhai a oedd yn rheoli'r pandemig. Mae adroddiad y Pwyllgor yn dweud y bydd yn cymhwyso'r dystiolaeth fel y'i gwyddys ar y pryd ond, mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod gwybodaeth a wyddys nawr wedi cael ei chymhwyso'n ôl-weithredol. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ran ei arsylwadau am benderfyniadau a wnaed ynglŷn â chartrefi gofal a'r polisi ar gyfer cleifion asymptomatig.

Rwy'n gwybod bod Dr Rob Orford, Cadeirydd y Gell Cyngor Technegol wedi ysgrifennu atoch ar wahân ar 14 Gorffennaf yn esbonio'r rôl sydd gan y Gell Cyngor Technegol, a rôl y mae'n parhau i'w chwarae, o ran cynnig cyngor i Lywodraeth Cymru. Rwyf ar ddeall eich bod wedi ei wahodd ef a chydweithwyr i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Medi. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth y Pwyllgor o'r cerrig milltir ar gyfer penderfyniadau a thystiolaeth. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol o ran y penderfyniadau am brofion ar gyfer cartrefi gofal a rhyddhau pobl o’r ysbyty i gartrefi gofal. Gwnaed ein penderfyniadau yn ddidwyll ac yn seiliedig ar ein gwybodaeth a’n dealltwriaeth ar y pryd. Wrth i’r dystiolaeth ddatblygu rydym wedi addasu ein dulliau lle bo hynny’n briodol, a bydd hyn yn parhau. Gallaf sicrhau’r pwyllgor mai diogelu’r bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal oedd ein prif flaenoriaeth drwy gydol y pandemig hwn. Mae diogelu’r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a gweithredu er eu lles gorau nhw yn parhau i fod yn ganolog i’n penderfyniadau.

Bydd aelodau'r Pwyllgor wedi cael copi o Ddatganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 30 Gorffennaf sy'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd i gefnogi'r sector cartrefi gofal. Bydd ein camau yn ystyried gwersi a ddysgwyd ac unrhyw fesurau pellach sy'n ofynnol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau; cyfarpar diogelu personol; cymorth cyffredinol a chlinigol i gartrefi gofal; llesiant preswylwyr; llesiant a chynaliadwyedd ariannol gweithwyr gofal cymdeithasol. Rydym wedi comisiynu hwylusydd annibynnol i gynnal adolygiad cyflym o brofiad gweithredol cartrefi gofal rhwng mis Mawrth a mis Mehefin eleni. Bydd canlyniad cynlluniau cymorth 7 cartref gofal rhanbarthol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol yn llywio gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y gaeaf. Yn ogystal, mae papur gwyddonol wedi'i ysgrifennu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dadansoddi'r unigolion a ryddhawyd o ysbytai ac achosion COVID-19 mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Mae'r papur wedi'i gyflwyno i gyfnodolyn adolygu gan gymheiriaid i'w gyhoeddi. Byddwn yn rhannu'r papur hwn gyda chi pan fydd ar gael.

Rwy'n ‘derbyn’ neu'n ‘derbyn mewn egwyddor’ y mwyafrif o'r argymhellion gan y Pwyllgor. Nid wyf wedi derbyn rhan o argymhelliad 10. Mae hyn yn ymwneud â defnyddio pecynnau profi gartref mewn cartrefi gofal. Mae canllawiau a hyfforddiant helaeth wedi cael eu datblygu ar gyfer gweinyddu'r pecynnau profi gartref a chydnabyddir bod y dull hwn yn ffordd effeithiol a hyblyg o ddiwallu anghenion penodol cartrefi gofal. Nid wyf wedi derbyn argymhelliad 20 ychwaith mewn perthynas ag olrhain cysylltiadau, sydd ond yn gallu dechrau ar ôl cael canlyniad prawf positif.

Gallaf gadarnhau bod nifer o'r argymhellion yn adlewyrchu meysydd sydd eisoes ar waith a lle caiff cynnydd cryf ei wneud eisoes. Dros yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn cymryd camau i ddarparu gwelliannau pellach, gan fod yn ystyriol o'r goblygiadau ariannol. Bydd angen gwneud dewisiadau i sicrhau'r ’gofal iechyd seiliedig ar werth’ gorau wrth symud ymlaen ac yng nghyd-destun paratoi ar gyfer cyfnod heriol yn ystod y gaeaf.

Byddwch yn ymwybodol nad oedd glasbrint ar gyfer COVID-19. Er bod cynlluniau wedi cael eu datblygu a'u profi ar gyfer pandemig ffliw, roedd graddfa ac effaith COVID-19 yn hollol newydd. Ar y cyd â phartneriaid ym mhob rhan o'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a thu hwnt, rydym yn dysgu i atal, cyfyngu a thrin y clefyd hwn, ac rydym yn cydnabod y byddwn yn parhau i fyw gyda'r feirws mewn sawl agwedd ar ein bywydau pob dydd am beth amser eto.

Ar 7 Awst, cyhoeddais ein bod yn datblygu Cynllun Diogelu'r Gaeaf a gaiff ei ddarparu ym mis Medi. Bydd hwn yn gynllun trosfwaol a fydd yn gosod ein disgwyliadau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn llywio gwaith ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach. Bydd yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer gweddill y flwyddyn a hefyd yn cefnogi nifer o argymhellion y Pwyllgor.

Mae gwaith y Pwyllgor wedi canolbwyntio'n ddefnyddiol ar nifer o feysydd allweddol: Cyfarpar Diogelu Personol; Profi; Gwarchod; Profi, Olrhain a Diogelu; a goblygiadau ariannol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Byddaf yn ymdrin â'r rhain ac yn cynnig gwybodaeth bellach i gefnogi'r ymateb hwn yn Atodiad 1.

## Cyfarpar Diogelu Personol

**Derbynnir y tri argymhelliad hyn**

### Argymhelliad 1

*Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i:*

- *gyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau cyflenwad gwydn o gyfarpar diogelu personol;*

- *casglu ynghyd lefelau digonol o gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer unrhyw achos yn y dyfodol;*
- *adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw*
- *cyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau gwydnwch y trefniadau dosbarthu ar gyfer cyfarpar diogelu personol;*
- *gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod canllawiau ar gyfarpar diogelu personol yn cael eu diweddaru yng ngoleuni'r cyngor gwyddonol diweddaraf, a chyfathrebu'r cyngor hwn yn glir i'r staff.*

## Argymhelliad 2

*Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei systemau ei hun i sicrhau bod y mecanweithiau ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ymateb yn gyflym wrth gyflenwi cyfarpar diogelu personol priodol pe bai unrhyw achosion yn y dyfodol. Rhaid i hyn gynnwys cael trefniadau caffael sy'n gallu ymateb yn amserol.*

## Argymhelliad 3

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal hanfodol fynediad dibynadwy at gyfarpar diogelu personol priodol*

Mae cynllun strategol ar gyfer caffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ddatblygu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu drwy'r Grŵp Cyflenwi, Cyrchu a Dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol, a gaiff ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru. Caiff y cynllun ei ddatblygu fel rhan o'r paratoadau ehangach ar gyfer y gaeaf a wneir gan Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn y Cynllun Diogelu'r Gaeaf cenedlaethol. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru eisoes wedi cymryd camau i sicrhau stoc sefydlog o ran cyfarpar diogelu personol a byddant yn parhau i adeiladu ar hyn i sicrhau gwytnwch pellach.

Mae gan fusnesau yng Nghymru rôl bwysig i'w chwarae o ran atgyfnerthu ein gallu i wrthsefyll ail don o COVID-19 a'r risgiau a berir gan Brexit heb gytundeb. Bydd ein cynllun caffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfuno gweithgynhyrchu lleol â chyflenwadau rhyngwladol. Rhagwelir y bydd mwy o archebion gan fusnesau yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf wrth iddynt ddechrau cynhyrchu cyfarpar diogelu personol.

Bydd Diwydiant Cymru a'i bartneriaid yn hanfodol wrth lywio ein gwaith ymgysylltu â busnesau yn y dyfodol ynghylch gofynion cyfarpar diogelu personol ynghyd â'r potensial i fodloni mwy o'n gofynion caffael eraill yn y wlad hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gyflenwi cyfarpar diogelu personol i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Lle bydd sefydliadau'r trydydd sector yn gweithredu i gefnogi'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol, byddant yn cael cyfarpar diogelu personol gan Fyrddau Iechyd Lleol neu awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gofal meddygol, megis hosbisau, wedi bod yn rhan o ddosbarthiad craidd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi parhau drwy gydol yr ymateb i COVID-19.

Mewn perthynas â gofal cymdeithasol, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu cyfarpar diogelu personol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol drwy ei Storfeydd Cyfarpar ar y Cyd er mwyn eu dosbarthu ymlaen i ddarparwyr gofal. Bydd Partneriaeth

Cydwasanaethau GIG Cymru yn parhau i gyrchu a dosbarthu cyfarpar diogelu personol i awdurdodau lleol er mwyn diwallu anghenion y sector gofal cymdeithasol am weddill y flwyddyn ariannol hon, gan gynnal cyflenwad sefydlog o gyfarpar diogelu personol drwy gydol y cyfnod adfer.

Mae cyfarpar diogelu personol yn gyfrifoldeb cyfreithiol ar y cyflogwr gan gynnwys, wrth gwrs, nifer o ddarparwyr gofal preswyl a gofal yn y cartref yn y sector annibynnol. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi camu i'r adwy i ddarparu cyfarpar diogelu personol i sicrhau bod y staff a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt wedi'u diogelu o ganlyniad i'r amodau eithriadol yn y cadwyni cyflenwi arferol am gyfarpar diogelu personol. Ni ddylem golli golwg ar arwyddocâd yr ymdrech lwyddiannus hon o ran logisteg nac yn ariannol.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd costau cyfarpar diogelu personol a fydd yn deillio o ddatblygu'r cynllun strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu talu drwy'r pecyn sefydlogi gwerth £800m i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl. Cafodd hyn ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli

## Profi

**Derbynnir yr argymhellion canlynol**

### Argymhelliad 4

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, a'i phartneriaid, sicrhau bod mynediad lleol at brawf i unrhyw un sydd ei angen, yn ôl yr angen. Mae angen i feddygon teulu a gofal sylfaenol fod yn rhan annatod o'r trefniadau hyn.*

### Argymhelliad 5

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau ymgyrch barhaus o negeseuon cyhoeddus clir, cyson ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch pryd i geisio prawf Covid-19 a sut i wneud hyn.*

### Argymhelliad 6

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod negeseuon clir a chyson yn yr un modd ynglŷn â gwerth profi, nid yn unig o ran adnabod pobl sydd â'r feirws ond i gynorthwyo gydag ymchwil a datblygu atebion at y dyfodol.*

### Argymhelliad 7

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda GIG Cymru, ddatblygu cynllun clir ar gyfer profion rheolaidd ac ailadroddus ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff asymptomatig.*

### Argymhelliad 8

*O ystyried y pryderon y bydd yr haint yn cyrraedd ail benllanw yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, asesu'r galw tebygol am brofion yn y dyfodol a chymryd camau i sicrhau bod digon o allu i brofi fel y bydd unrhyw un sydd angen prawf yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru a phartneriaid aros yn effro i ddatblygiad gwahanol fathau o fodelau profi*

### Argymhelliad 9

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob claf sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn uniongyrchol i gartref gofal wedi'i brofi yn unol â'r arfer gorau diweddaraf i sicrhau bod preswylwyr a staff yn cael eu diogelu cystal â phosib.*

Mae'r Strategaeth Profi a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn amlinellu'r cynllun ar gyfer profi staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein strategaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf. Fel bob amser, gall hyn newid wrth i'r sylfaen dystiolaeth newid dros gyfnod y pandemig https://llyw.cymru/strategaeth-profi-covid-19-html.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i gytuno ar ddull system gyfan o brofi ar gyfer Cymru a byddwn yn parhau i adolygu ein polisi profion ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal wrth i'r dystiolaeth ddatblygu. Bydd capasiti profi ychwanegol y GIG yn cael ei ddefnyddio i brofi staff rheng flaen asymptomatig yn rheolaidd ac yn strategol fel rhan o fesurau atal a rheoli heintiau.

Wrth amcangyfrif yr angen am brofion, dylanwadir ar hyn gan nifer o newidynnau, lledaeniad y clefyd, mynychder achosion newydd a chyfraddau trosglwyddo yn y gymuned, mynychder symptomau a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar y ffordd orau o ddefnyddio'r profion i atal heintiau. Byddwn yn parhau i adolygu cyngor gwyddonol newydd, ein gwaith modelu a'n profiad rhyngwladol a byddwn yn cadw golwg ar y dystiolaeth hon ac yn addasu ein hamcangyfrifon o'r angen yn unol â hynny.

Mae seilwaith profi cenedlaethol wedi cael ei sefydlu gyda rhwydwaith helaeth o gyfleusterau profi ledled Cymru, o Unedau Profi am y Coronafeirws i Unedau Profi Symudol a Chanolfannau Profi Torfol drwy Ffenest y Car. Mae pecynnau profi gartref ar gael i'r rhai hynny na allant fynd i safleoedd profi.  Gall unigolion wneud cais am brofion ar-lein drwy lwyfan GOV.UK neu drwy ffonio 119.

Mae ein capasiti samplu yn rhagori ar y gofynion cyfredol. Mae gan labordai yng Nghymru gapasiti i gynnal dros 15,000 o brofion y dydd ac mae gennym hefyd fynediad i gapasiti ehangach y DU, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer profi'r boblogaeth, profion gwyliadwriaeth mewn cartrefi gofal ac ar gyfer gweithwyr allweddol. Mae capasiti Cymru yn cael ei ddefnyddio i ymateb i angen clinigol a rheoli achosion o glefydau.

Ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae'n rhaid i ganlyniadau eu profion fod ar gael cyn iddynt gael eu rhyddhau. Rydym hefyd wedi sefydlu llwybr rhyddhau ychwanegol i bobl sy'n cael canlyniad positif neu sy'n heintus o hyd; byddant yn symud i ofal llai dwys a byddant yn cael eu profi eto er mwyn sicrhau eu bod yn cael canlyniad negatif cyn y byddant yn dychwelyd i'r cartref gofal.Mae hyn wedi'i nodi yn y canllawiau, *COVID-19: diweddariad i'r canllaw mewn perthynas â threfniadau gofal mwy a llai dwys* – https://llyw.cymru/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-or-ysbyty-covid-19

Nid ydym yn defnyddio'r holl gapasiti hwn, sy'n adlewyrchu nifer isel yr achosion o'r clefyd ar hyn o bryd. Ond mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y gallu i ymateb i gynnydd sydyn mewn anghenion profi sy'n codi o achosion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd.  Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn gwybod sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, gan roi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cynnwys deunyddiau digidol, sylw yn y cyfryngau, gwaith allgymorth cymunedol a hysbysebion mewn deunydd wedi'i argraffu, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y radio. Mae dros 450 o ddeunyddiau ymgyrchu wedi cael eu cynhyrchu mewn 34 o ieithoedd gwahanol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau

ymgyrchu. Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n arwain y gwaith o gyfathrebu â'r cyhoedd i recriwtio pobl i helpu gydag ymchwilio i atebion ar gyfer y dyfodol a'u datblygu.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. £250k yw'r costau ychwanegol ar gyfer Argymhelliad 8 mewn perthynas â gwaith Model R Cymru ar gyfer Sefyllfa Waethaf Resymol y Gaeaf, a thelir y costau hyn drwy gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Argymhelliad 10

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau:*

- *bod profion mewn cartrefi gofal yn digwydd yn rheolaidd ac yn systematig,*
- *bod profion o'r fath yn cael eu gwneud gan unigolion sydd wedi cael hyfforddiant addas yn hytrach na defnyddio pecynnau profi gartref a*
- *bod gallu digonol i brofi i gefnogi'r ddau bwynt uchod.*

**Derbynnir pwynt bwled cyntaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**
Mae profion rheolaidd a systematig wedi cael eu cynnal mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Cafodd yr holl breswylwyr a'r staff mewn cartrefi gofal eu profi yn ystod mis Mai a mis Mehefin. Yng nghanol mis Mehefin, cyflwynwyd polisi i brofi holl staff cartrefi gofal yn wythnosol, a chafodd y trefniant hwn ei estyn wedi hynny. Cyhoeddwyd Strategaeth Profi Llywodraeth Cymru ar 15 Gorffennaf a oedd yn cefnogi'r penderfyniad i leihau pa mor aml y câi staff cartrefi gofal eu profi i bob pythefnos, os byddai cyfraddau cyffredinrwydd yn parhau i fod yn isel.

Mae'r canlyniadau wedi cael ei monitro'n agos ac mae'r cyfraddau cyffredinrwydd wedi parhau'n isel. Fel rhan o ddatblygu dull mwy penodol o brofi sydd wedi'i wahaniaethu, os bydd cyfraddau cyffredinrwydd yn uchel o hyd neu os ceir cynnydd sydyn, efallai y caiff profion systematig, mwy rheolaidd eu cynnal neu eu hailgyflwyno.

**Gwrthodir ail bwynt bwled yr argymhelliad hwn**
Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi darparu canllawiau a hyfforddiant ar gyfer gweinyddu profion gan ddefnyddio pecynnau profi gartref. Mae dosbarthu pecynnau profi gartref i gartrefi gofal fel canolfannau profi ategol wedi darparu dull effeithiol a hyblyg sy'n diwallu anghenion penodol cartrefi gofal. Mae Byrddau Iechyd yn parhau i gefnogi, hyfforddi a chynghori cartrefi gofal mewn perthynas â phrofi a mesurau rheoli heintiau.

**Derbynnir trydydd pwynt bwled yr argymhelliad hwn**
Mae capasiti digonol yn labordai Cymru ac yn labordai 'Lighthouse' y DU er mwyn gallu cynnal profion mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Caiff profion eildro eu cynnal drwy ddilyn model 'Lighthouse Labs' gan ddefnyddio pecynnau profi gartref.

Lle bydd achosion lluosog (dau neu fwy o achosion positif) yna defnyddir labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru, lle caiff samplau eu cymryd gan unigolion sydd wedi'u hyfforddi er

mwyn helpu i reoli brigiad o achosion. Mae hyn yn golygu y gallwn ymateb i frigiadau o achosion mewn ffordd fwy hyblyg ac ymatebol gan gefnogi'r broses Profi, Olrhain a Diogelu.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol gan eu bod yn unol â pholisi presennol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

## Gwarchod

**Caiff yr argymhellion canlynol eu derbyn/derbyn mewn egwyddor**

### Argymhelliad 11

*Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i: sicrhau nad oes unrhyw achosion pellach o dorri data cleifion wrth symud ymlaen, a chyfathrebu'n well â phobl sydd wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain. Mae angen dull clir, ymatebol, amserol a thryloyw sydd wedi'i strwythuro'n dda, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o strategaeth y dyfodol o roi cymorth i'r grŵp agored iawn i niwed hwn o unigolion.*

### Argymhelliad 12

*Rhaid i Lywodraeth Cymru ail-edrych ar y trefniadau gyda'r prif archfarchnadoedd i sicrhau y gall fodloni ei hun y bydd digon o wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref yn gallu ateb y galw, yn enwedig yn ystod y gaeaf sydd i ddod.*

### Argymhelliad 13

*Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod carfan o bobl nad ydynt ar y rhestr cleifion sydd i fod i warchod ond sydd fel arall yn agored i niwed neu fel arfer yn dibynnu ar wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y ffordd orau o adnabod y bobl hyn a rhoi cymorth iddynt.*

### Argymhelliad 14

*Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad cyflym a phenodol o'r trefniadau cyfredol ar gyfer danfon meddyginiaethau i sicrhau eu bod yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn gynaliadwy, ac yn gallu ateb y galw cyfredol a phwysau posibl yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.*

### Argymhelliad 15

*Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau cymorth presennol ar gyfer pobl sy'n gwarchod eu hunain, a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen.*

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cau'r ymchwiliad i'r achos o dorri data a gododd heb gymryd unrhyw gamau rheoleiddio, gan gydnabod mai gwall dynol oedd hwn ac y cymerwyd camau unioni cyflym. Er bod y digwyddiad hwn yn annerbyniol, mae gwersi wedi'u dysgu ac rydym yn ymrwymedig i barhau i wella yn y maes hwn.

Mae grŵp data wedi cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod materion data priodol yn cael eu datrys yn brydlon wrth fynd ati i rannu data ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Mae rhagor o waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael ei wneud lle gallai rhanddeiliaid drafod trefniadau gwarchod a deunyddiau cyfathrebu cysylltiedig yn uniongyrchol â swyddogion. Mae hyn wedi dylanwadu ar gynnwys ein deunyddiau cyfathrebu ynghyd â'r ffordd y cânt eu dosbarthu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda saith manwerthwr bwyd mawr, gan rannu data er mwyn eu galluogi i flaenoriaethu archebion ar-lein a gwasanaethau danfon i'r cartref i bobl sy'n gwarchod eu hunain. Rydym yn croesawu'r ymdrech y mae'r manwerthwyr hyn wedi'i gwneud i ehangu eu gwasanaethau archebu ar-lein a danfon i'r cartref, ac i flaenoriaethu pobl sy'n gwarchod eu hunain.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cyfarfod yn rheolaidd â manwerthwr bwyd mawr ac mae ei swyddogion hefyd wedi cynnal trafodaethau â saith manwerthwr mawr sy'n cynnig gwasanaethau archebu ar-lein. Mae slotiau danfon ar-lein â blaenoriaeth yn gweithio'n dda ac mae manwerthwyr wedi cadarnhau y byddant yn parhau i sicrhau bod slotiau â blaenoriaeth ar gael i bobl sy'n gwarchod eu hunain ar ôl i gyngor gwarchod ddod i ben am y tro ar 16 Awst. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod pobl sy'n agored i niwed ac mae wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sydd wedi bod yn cefnogi'r grwpiau hyn, gan ddarparu mynediad i fwyd, cymorth a chynlluniau cyfeillio ehangach. Ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at arweinydd pob awdurdod lleol ym mis Ebrill er mwyn canfod faint o gymorth a ddarparwyd i bobl agored i niwed nad oeddent yn gwarchod eu hunain, a chafodd ei sicrhau bod cymorth effeithiol ar waith. Mae Gweinidogion wedi cytuno y caiff llythyr pellach ei anfon at arweinwyr a Chynghorau Gwirfoddol ym mis Awst er mwyn iddynt allu diweddaru'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt.

Mae nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd i gefnogi'r Cynllun Gwirfoddolwyr a chapasiti y Post Brenhinol yn rhagori ar y galw cyfredol gan fferyllfeydd a meddygon fferyllol ledled Cymru. Yn dilyn cyngor y Prif Swyddog Meddygol i ddod â threfniadau gwarchod i ben dros dro, bydd y Cynllun Dosbarthu gan Wirfoddolwyr a Gwasanaeth y Post Brenhinol yn parhau, fel y cynlluniwyd, i gefnogi'r cleifion hyn tan 30 Medi. Mae'r trefniadau i ddosbarthu meddyginiaethau ar gyfer COVID-19 wedi cael eu hadolygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyfranogwyr.  Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn llywio'r angen i ymateb i gynnydd pellach yn yr hydref neu i frigiadau lleol o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned.

Mewn perthynas â'r trydydd sector, mae bron £7m wedi'i ddosbarthu mewn grantiau a benthyciadau brys i 150 o sefydliadau drwy Gronfa Frys y Sector Gwirfoddol ers dechrau'r pandemig, gan fod o fudd i dros 730,000 o unigolion o bosibl. Mae pob Cyngor Gwirfoddol wedi cael £25,000 i gefnogi sefydliadau lleol i ymateb i anghenion eu cymuned; ar 31 Gorffennaf, roedd y gronfa hon wedi cefnogi dros 200 o sefydliadau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dyrennir cyllid ar gyfer prosesau cyfathrebu yn ymwneud â threfniadau gwarchod drwy gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mewn perthynas ag Argymhelliad 13, o dan y cynllun Profi, Olrhain a Diogelu, cytunwyd ar £1m fel rhan o'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol i gefnogi awdurdodau lleol gydag elfen 'Diogelu' y cynllun er mwyn helpu'r bobl hynny y mae angen iddynt hunanynysu o ganlyniad i fesurau olrhain cysylltiadau ac nad ydynt yn gallu cael cymorth gan deulu na ffrindiau. Caiff hyn ei gynnwys yn llinyn cyffredinol y gronfa a pharheir i adolygu’r swm sydd ar gael.

Mewn perthynas ag argymhelliad 14, mae £5.8m o fewn y Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol wedi cael ei haddasu i gefnogi'r trefniadau hyn drwy gydol 2020-21 os bydd angen, ac mae £7m wedi cael ei ddosbarthu i'r trydydd sector.

**Derbynnir yr argymhellion hyn mewn egwyddor**

## Argymhelliad 16

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r rhai sy'n gwarchod ynghylch cyrchu gwasanaethau gofal iechyd arferol a sut i wneud hyn yn ddiogel.*

## Argymhelliad 17

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu darparu ar gyfer teuluoedd a gofalwyr pobl sy'n gwarchod ynghylch dychwelyd i'r gwaith, a'r cymorth y gallant ei ddisgwyl.*

Ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol at y bobl hynny sy'n gwarchod ynghylch beth i'w wneud mewn perthynas â mynd i leoliadau iechyd ar gyfer gofal rheolaidd ac apwyntiadau sydd wedi'u cynllunio. Y cyngor cynnar oedd osgoi'r lleoliadau lle bynnag y bo'n bosibl a phan oedd angen cyngor neu driniaeth ar unigolyn, roedd yn bwysig cyfathrebu'n uniongyrchol â'r lleoliad er mwyn rhoi gwybod eich bod yn gwarchod eich hun.

Newidiodd y cyngor ar 13 Mehefin mewn perthynas â gwisgo masgiau wyneb, i nodi y dylai pobl a oedd wedi derbyn llythyr gwarchod gan y Prif Swyddog Meddygol (gan gynnwys gofalwr claf neu blentyn sydd ar y Rhestr o'r Cleifion a Warchodir yng Nghymru) wisgo masg meddygol pan nad oedd modd osgoi'r angen iddynt ymweld â lleoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol. Dylai masgiau gael eu darparu i bobl yn y categori hwn os oedd angen.

Nod Llywodraeth Cymru yw darparu canllawiau a fyddai'n cefnogi'r holl unigolion hynny o ran pa gamau priodol i'w cymryd.  Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyflogwyr i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19 yn y gweithle.  Mae cyngor ar gael ar y we-dudalen 'Gwaith, sgiliau a chefnogaeth ariannol' ar sut i gadw'n ddiogel yn y gwaith a chael help gydag arian neu sicrwydd cyflogaeth. https://llyw.cymru/gwaith-sgiliau-chefnogaeth-ariannol

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

## Y Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 18

*Rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle yn awr i adolygu'r holl drefniadau i sicrhau bod graddfa'r isadeiledd, y gwaith o gyflwyno technoleg a'r ymarferion recriwtio angenrheidiol ar waith i sicrhau system olrhain cysylltiadau effeithlon sy'n gweithredu'n effeithiol. Rhaid i'r system beidio â dioddef yn sgil diffyg cynllunio, adnoddau neu dechnoleg, pan fu amser i baratoi a chyfleoedd pwysig ar gyfer dysgu.*

Mae'r system Profi, Olrhain a Diogelu wedi cael ei dylunio i raddfa, fel sy'n ofynnol, gyda chynlluniau rhanbarthol i gefnogi hyn. Mae gwaith i gynllunio adnoddau, seilwaith a chapasiti wedi cael ei wneud yn seiliedig ar y modelau a'r cyngor gwyddonol diweddaraf.

Gan weithio mewn partneriaeth agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, mae gwelliannau a mesurau mireinio yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym ac ar draws y system gyfan.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**

## Argymhelliad 19

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, geisio sicrhau bod canlyniadau pob prawf yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr.*

Mae cyflymder yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y system olrhain cysylltiadau yn effeithiol. Mae arweinwyr profi byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n gyflym ar nifer o welliannau, gan gynnwys:

- gwella prosesau labordai er mwyn datblygu effeithlonrwydd a chyflymder

- Darparu staff ac offer ychwanegol ar gyfer labordai rhanbarthol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, Ysbyty Singleton, Abertawe ac Ysbyty Glan Clwyd, y Rhyl fel y gallant weithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

- Creu chwe labordy mewn ysbytai acíwt ar draws Cymru, a fydd ag offer profi cyflym, mewn llai na 4 awr, ac offer profi newydd ar gyfer cyflyrau eraill i ryddhau staff i weithio ar brofion COVID-19. Bydd y labordai hyn ar gael rhwng 8:00am a 10:00pm, saith diwrnod yr wythnos.

**Goblygiadau Ariannol –** Tra bod gwaith yn parhau gyda GIG Cymru ar hyn, caiff cyllid ar gyfer gwelliannau ei ddarparu o'r pecyn sefydlogi gwerth £800m i gefnogi GIG Cymru. Cymeradwywyd £32 miliwn o gyllid i gyflymu amseroedd profi.

**Gwrthodir yr argymhelliad hwn.**

## Argymhelliad 20

*Dylai Llywodraeth Cymru symud ar unwaith i system lle mae olrhain cysylltiadau yn cychwyn naill ai ar ôl derbyn prawf positif, neu o fewn 24 awr .*

Bydd y gwaith o olrhain cysylltiadau yn dechrau ar ôl cael prawf positif. Mae'r mwyafrif helaeth o'r bobl a gaiff eu profi yn cael canlyniad negatif (93.5% yn negatif ar 9 Awst). Gallai dechrau olrhain cysylltiadau cyn gwybod canlyniadau profion gael effaith negyddol sylweddol ar y cysylltiadau hynny y gofynnir iddynt hunanynysu'n ddiangen, a thanseilio hyder yn y system. Byddai hefyd yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau ychwanegol yn y timau olrhain cysylltiadau. Mae ein dull yn ystyried y cyngor meddygol diweddaraf ac effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach gofyn i gysylltiadau agos hunanynysu. Mae'r sefyllfa hon yn datblygu a chaiff ei hadolygu'n barhaus.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu

**Derbynnir yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**

## Argymhelliad 21

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i fonitro’r gyfradd negyddol ffug yn effeithiol, ac i sicrhau bod profion yn cael eu cyflwyno’n gyfrifol ac yn hyblyg er mwyn lleihau’r gyfradd negyddol ffug.*

Mae'r Strategaeth Profi, y cyfeiriwyd ati'n flaenorol, yn amlinellu sut y darperir profion yng Nghymru. Mae nifer isel yr achosion o’r clefyd yn debygol o gynhyrchu cyfradd uwch o ganlyniadau positif anghywir a chanlyniadau negatif anghywir. Mae'n anodd mesur canlyniadau negatif anghywir, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i amcangyfrif cyfraddau negatif anghywir yn seiliedig ar sensitifrwydd clinigol profion.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Cymerir cyllid o gyllidebau y cytunwyd arnynt ar gyfer profi, fel y disgrifir uchod.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 22

*Mewn ymgynghoriad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, dylai Llywodraeth Cymru:*

- *gyhoeddi strategaeth i gynyddu nifer y bobl sy'n dod ymlaen i gael prawf er mwyn defnyddio'r capasiti profi sydd ar gael yn llawnach*
- *cymryd camau yn awr i roi sicrwydd y bydd modd cyflawni 20,000 o brofion y dydd*
- *sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod capasiti o gyfleusterau y tu allan i Gymru yn addas i'r diben ac yn ddigonol i ateb y galw*
- *sicrhau bod y system yn gallu ymateb i gynnydd yn y galw, ac ehangu i'w ddiwallu.*

Mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, mae seilwaith profi cenedlaethol wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod y rhai y mae angen prawf arnynt yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Mae gennym strategaeth cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, gan annog y rhai hynny sydd â symptomau i gael eu profi.

Mae gwaith modelu helaeth yn helpu i lywio gofynion ar gyfer cynllunio capasiti. Gellir defnyddio Unedau Profi Symudol Wrth Gefn yn hyblyg er mwyn helpu i ymateb i frigiadau o achosion gan sicrhau y cânt eu rheoli mewn ffordd ystwyth. Rydym eisoes wedi gweld y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn ymateb i frigiadau o achosion yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim costau ychwanegol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 23

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adolygu ei phenderfyniadau ynghylch nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau ei hun a'r cyhoedd y gall y system yn gallu gweithredu'n effeithiol pan fydd y galw ar ei uchaf, ac y gall fod yn hyblyg ac ymateb yn ôl newidiadau yn y galw. Dylai gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad*.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ran nifer y staff sydd eu hangen i olrhain cysylltiadau. Y polisi yw datblygu'r arbenigedd olrhain cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli yn ein hawdurdodau lleol a'n byrddau iechyd ac adeiladu arno er mwyn creu gweithlu y gellir ei gynyddu neu ei leihau yn gyflym gan ddibynnu ar amgylchiadau.

Mae'r dull partneriaeth hwn wedi ein galluogi i sefydlu gweithlu o ryw 700 o bobl yn gyflym, sy'n fwy na digon i ymdopi â'r nifer isel o bobl sy'n cael canlyniadau prawf positif ar hyn o bryd. Roedd y dybiaeth gychwynnol y byddai angen gweithlu o 1,000 o swyddogion olrhain cysylltiadau yn seiliedig ar waith modelu cynharach. Pe byddem yn gweld ail don ar y raddfa hon, byddai angen gweithlu ag oddeutu 1,800 o swyddogion. Mae'r holl fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol wrthi'n rhoi eu cynlluniau hyfforddi a recriwtio gweithlu ar waith ar hyn o bryd a chaiff y sefyllfa ei monitro'n agos ai hailasesu'n llawn ym mis Medi.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 24

*Rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau, fel mater o flaenoriaeth, y pecyn cymorth ariannol i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o gyflogi gweithwyr olrhain proffesiynol, yn hytrach na dibynnu ar adleoli staff presennol.*

Bydd angen cymorth ac adnoddau ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae hyd at £45m ar gael y flwyddyn ariannol hon i gefnogi gweithlu olrhain cysylltiadau â chyfanswm o 1,800 o swyddogion gyda'r capasiti i olrhain cysylltiadau hyd at 11,000 o achosion positif newydd bob wythnos.  Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu'n barhaus.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae £45m wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2020-21. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu hadolygu'n barhaus.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 25

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau system o negeseuon cyhoeddus clir ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch cyfrifoldebau unigolion i hunanynysu os oes ganddynt symptomau, a phwysigrwydd hunanatgyfeirio ar frys i gael prawf.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd. Mae'n sicrhau bod pawb yn deall sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, ac yn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu. Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol.  Cymerir y costau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 26

*Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio gyda Llywodraeth y DU y trefniadau ar gyfer tâl salwch statudol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gorfod hunanynysu. Dylid gwneud hyn ar frys*.

Mae tâl salwch statudol yn fater sydd heb ei ddatganoli ac mae Gweinidogion yn parhau i godi effaith ariannol hunanynysu ar lefel y DU. Mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Iechyd wedi ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth y DU ynglŷn â'r mater hwn ond heb gael ateb cadarnhaol. Mae'r Gweinidog Iechyd wedi codi'r mater hwn yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Gweinidogion Iechyd y pedair gwlad. Mae gan weithwyr sy'n hunanynysu hawl i dâl salwch statudol ar gyfer pob diwrnod y byddant yn hunanynysu ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, gan gynnwys hunanynysu am o leiaf 4 diwrnod ar ôl ei gilydd (gan gynnwys diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gwaith). Mae pobl sydd wedi cael eu holrhain ac y mae'n rhaid iddynt hunanynysu am eu bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael canlyniad prawf coronafeirws positif hefyd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ar 27 Mai 2020, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 27

*Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am y protocol ar drefniadau trawsffiniol.*

Mae prosesau ar waith er mwyn gallu rhannu data a gwybodaeth rhwng Cymru a Lloegr i gefnogi'r gwaith o olrhain cysylltiadau. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n ddyddiol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Public Health England drwy system electronig ddiogel a chaiff y broses ei hategu gan gytundeb rhannu data rhwng y ddau sefydliad. Y system Profi, Olrhain a Diogelu neu 'Test and Trace' lle mae'r person yn byw fydd yn arwain wrth gysylltu â'r unigolyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

## Goblygiadau Ariannol i lywodraeth leol/cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

### Argymhelliad 28

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, roi ar waith ymrwymiad cyllid gwarantedig byrdymor i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i liniaru effaith ariannol Covid-19. Rhaid datblygu'r ymrwymiad hwn mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys llywodraeth leol.*

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu dros £155m ychwanegol i dalu am y costau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys ychydig llai na £63m i'w helpu i dalu'r costau ychwanegol y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn mynd iddynt.

Cydnabyddir y pwysau ariannol sydd ar awdurdodau lleol o ganlyniad i golli incwm, ac rydym wedi cytuno ar £78m ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda'r costau hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Trysoryddion Cymru er mwyn deall effaith y pandemig ar lywodraeth leol ac yn gweithredu fel sydd angen i fynd i'r afael â hyn.

**Goblygiadau Ariannol –** Mae oddeutu £155m wedi cael ei ddarparu i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn helpu i dalu costau ychwanegol yn sgil COVID-19.

Mae'r gaeaf bob amser yn gyfnod heriol i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol, ond bydd materion a phryderon ychwanegol i'w hystyried y gaeaf hwn yn arbennig. Mae Cynllun Diogelu'r Gaeaf wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn ceisio darparu fframwaith cenedlaethol er mwyn i sefydliadau gydweithredu i gynhyrchu cynlluniau integredig a fydd yn darparu gofal di-dor ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn gynharach yr wythnos hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fwy na £260m o gyllid ar gyfer awdurdodau lleol hefyd. Bydd hyn yn eu helpu i baratoi eu cyllidebau a sicrhau bod modd talu unrhyw gostau ychwanegol ac ymdopi â'r gofynion glanhau ychwanegol i gefnogi ein dull ymateb ar y cyd i COVID-19.

Byddaf yn diweddaru aelodau'r Pwyllgor pan gaiff Cynllun Diogelu'r Gaeaf ei gyflwyno. Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru:**

| **Cyfarpar Diogelu Personol** | |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i:<br>▪ gyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau cyflenwad gwydn o gyfarpar diogelu personol;<br>▪ casglu ynghyd lefelau digonol o gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer unrhyw achos yn y dyfodol;<br>▪ adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw;<br>▪ cyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau gwydnwch y trefniadau dosbarthu ar gyfer cyfarpar diogelu personol;<br>▪ gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod canllawiau ar gyfarpar diogelu personol yn cael eu diweddaru yng ngoleuni'r cyngor gwyddonol diweddaraf, a chyfathrebu'r cyngor hwn yn glir i'r staff. | |
| **Ymateb – Derbyn**<br>Mae cynllun strategol ar gyfer Caffael Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu drwy'r Grŵp Cyflenwi, Cyrchu a Dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol, a gaiff ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Arweinwyr Gweithredol Cyfarpar Diogelu Personol Byrddau Iechyd Lleol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff y cynllun ei ddatblygu fel rhan o'r paratoadau ehangach ar gyfer y gaeaf a wneir gan Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd y cynllun strategol yn cynnwys camau i gynyddu stociau ac ehangu capasiti storio er mwyn sicrhau bod gennym 'glustog' priodol o gyfarpar diogelu personol ar gyfer y gaeaf, ynghyd ag ailgyflenwi ein stoc pandemig. Mae buddsoddiadau diweddar mewn system rheoli stociau a'r gallu i fodelu wedi sicrhau bod gennym fwy o wybodaeth erbyn hyn am 'gyfradd waredu' cyfarpar diogelu personol, ynghyd â'r gallu i ddadansoddi'r galw a'r cyflenwad fesul cynnyrch a fesul sector wrth inni baratoi at y gaeaf. Bydd y systemau hyn yn parhau i gael eu mireinio a'u datblygu. Er mwyn datblygu gwydnwch ymhellach, bydd y cynllun yn ystyried cyrchu nwyddau gan gyflenwyr rhyngwladol cyn gynted â phosibl a chynnwys mwy o weithgynhyrchwyr cyfarpar diogelu personol yng Nghymru mewn llinellau cyflenwi.<br><br>Mae Cymru wedi cyfrannu at lunio canllawiau, drwy fod yn aelod o Gell Atal a Rheoli Heintiau'r DU, ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r DU ar atal a rheoli heintiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (ynghyd â'r tablau cysylltiedig ar Gyfarpar Diogelu Personol). | |

https://www.gov.uk/government/publications/wuhan-novel-coronavirus-infection-prevention-and-control

Mae Grŵp Trosglwyddiadau Nosocomiaidd wedi cael ei sefydlu i gynnwys Llywodraeth Cymru a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, a chaiff ei gadeirio ar y cyd gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio. Diben y grŵp yw cynnig cyngor, cymorth ac arweiniad o ran y camau y dylid eu cymryd i leihau trosglwyddiadau nosocomiaidd fel bod gwasanaethau'n gallu ailddechrau'n ddiogel.

Mae canllawiau atal a rheoli heintiau, gan gynnwys rhai ar gyfarpar diogelu personol, yn rhan hanfodol o gylch gwaith y Grŵp Trosglwyddiadau Nosocomiaidd ac, er mwyn hwyluso hyn, mae is-grŵp wedi cael ei ffurfio a fydd yn canolbwyntio ar atal a rheoli heintiau. Caiff y grŵp hwn ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Nyrsio. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ynghyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac, ymysg pethau eraill, bydd yn datblygu'r safonau hyfforddiant craidd ar gyfer atal a rheoli heintiau ac yn diwygio safonau glanhau.Bydd y grŵp atal a rheoli heintiau yn goruchwylio arolwg a dadansoddiad anghenion hyfforddi mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chapasiti atal a rheoli heintiau gweithluoedd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael cyfarwyddyd i ddatblygu addysg a hyfforddiant safonol a chyfredol ar atal a rheoli heintiau i Gymru.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd costau cyfarpar diogelu personol a fydd yn deillio o ddatblygu'r cynllun strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu talu drwy'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

**Argymhelliad 2**

Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei systemau ei hun i sicrhau bod y mecanweithiau ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ymateb yn gyflym wrth gyflenwi cyfarpar diogelu personol priodol pe bai unrhyw achosion yn y dyfodol. Rhaid i hyn gynnwys cael trefniadau caffael sy’n gallu ymateb yn amserol.

**Ymateb – Derbyn**

Mae gan fusnesau yng Nghymru rôl bwysig i'w chwarae o ran atgyfnerthu ein gallu i wrthsefyll ail don o COVID-19 a'r risgiau a berir gan Brexit heb gytundeb. Bydd ein cynllun caffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfuno gweithgynhyrchu lleol â chyflenwadau rhyngwladol, ac rydym yn rhagweld y bydd archebion yn cynyddu gan fusnesau yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf wrth iddynt ddechrau cynhyrchu cyfarpar diogelu personol.

Sefydlwyd CERET (Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol), a gaiff ei gadeirio gan Ddiwydiant Cymru, ym mis Mawrth er mwyn creu dolen gyswllt rhwng y sector iechyd a diwydiant a hwyluso llinell gyflenwi ar gyfer cyfarpar diogelu personol. Mae CERET wedi cefnogi nifer o sefydliadau gweithgynhyrchu yng Nghymru er mwyn dod â'r gallu i weithgynhyrchu i Gymru.

Bydd Diwydiant Cymru a'i bartneriaid yn hanfodol wrth lywio ein gwaith ymgysylltu â busnesau yn y dyfodol ynghylch gofynion cyfarpar diogelu personol ynghyd â'r potensial i fodloni mwy o'n gofynion caffael eraill yn y wlad hon.
Rydym wedi defnyddio'r ddarpariaeth COVID-19 gyfredol ar gyfer dyfarniadau caffael uniongyrchol er mwyn cynnwys busnesau lleol mewn cadwyni cyflenwi cyfarpar diogelu personol. Rydym yn awyddus i barhau i ddefnyddio pob dull posibl fel y gall y busnesau hynny a gamodd i'r adwy ar bwynt critigol pan ddechreuodd y pandemig barhau i gael mynediad at gontractau cyhoeddus fel y gallwn ddefnyddio gwariant cyhoeddus yn well i gefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 3**
Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal hanfodol fynediad dibynadwy at gyfarpar diogelu personol priodol.

**Ymateb – Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gyflenwi cyfarpar diogelu personol i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Lle bydd sefydliadau'r trydydd sector yn gweithredu i gefnogi'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol, byddant yn cael cyfarpar diogelu personol gan Fyrddau Iechyd Lleol neu awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gofal meddygol, megis hosbisau, wedi bod yn rhan o ddosbarthiad craidd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi parhau drwy gydol yr ymateb i COVID-19.

Mewn perthynas â gofal cymdeithasol, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu cyfarpar diogelu personol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol drwy ei Storfeydd Cyfarpar ar y Cyd er mwyn eu dosbarthu ymlaen i ddarparwyr gofal. Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn parhau i gyrchu a dosbarthu cyfarpar diogelu personol i awdurdodau lleol er mwyn diwallu anghenion y sector gofal cymdeithasol am weddill y flwyddyn ariannol hon, gan gynnal cyflenwad sefydlog o gyfarpar diogelu personol drwy gydol y cyfnod adfer.

Rydym yn cydnabod mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i adnabod y darparwyr gofal sy'n gweithredu yn eu hardal leol y mae angen cyfarpar diogelu personol arnynt, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector. Gan y bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyflenwi cyfarpar diogelu personol i ddiwallu'r angen a nodir gan awdurdodau

lleol, nid ydym yn credu bod angen cael llwybr dosbarthu uniongyrchol ychwanegol i sefydliadau'r trydydd sector, ac ni fyddai hyn yn ymarferol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Caiff hyn ei gwmpasu yn y cynllun strategol ar gyfer cyfarpar diogelu personol y cyfeirir ato uchod.

## Profi

**Argymhelliad 4**
Rhaid i Lywodraeth Cymru, a'i phartneriaid, sicrhau bod mynediad lleol at brawf i unrhyw un sydd ei angen, yn ôl yr angen. Mae angen i feddygon teulu a gofal sylfaenol fod yn rhan annatod o'r trefniadau hyn.

**Ymateb: Derbyn**
Mae gennym seilwaith profi cenedlaethol erbyn hyn sy'n golygu y gall unrhyw un gael prawf os oes angen un arno. Mae rhwydwaith helaeth o gyfleusterau profi ar gael ledled Cymru, o Unedau Profi am y Coronafeirws i Unedau Profi Symudol a Chanolfannau Profi Torfol drwy Ffenest y Car. Mae pecynnau profi gartref ar gael i'r rhai hynny na allant fynd i safleoedd profi. Gall unigolion wneud cais am brofion ar-lein drwy lwyfan GOV.UK neu drwy ffonio 119. Byddwn yn parhau i archwilio darpariaeth yn y gymuned drwy safleoedd lleol ac yn defnyddio pecynnau profi gartref mewn lleoliadau cymunedol sy'n gallu darparu canlyniadau cyflym.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

**Argymhelliad 5**
Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau ymgyrch barhaus o negeseuon cyhoeddus clir, cyson ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch pryd i geisio prawf Covid-19 a sut i wneud hyn.

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd, gan sicrhau bod pawb yn deall sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, ac yn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cynnwys deunyddiau digidol, sylw yn y cyfryngau, gwaith allgymorth cymunedol a hysbysebion mewn deunydd wedi'i argraffu, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y radio. Mae dros 450 o ddeunyddiau ymgyrchu wedi cael eu

cynhyrchu mewn 34 o ieithoedd gwahanol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu ar eu sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Mae'r Grŵp Cynghori Technegol hefyd wedi creu Grŵp Cyfleu Risg a Deall Ymddygiadau, a gaiff ei gadeirio gan yr Athro Ann John, er mwyn rhoi cyngor ar gyfleu risgiau'n effeithiol, gwyddor ymddygiad ac ymgysylltu.

**Goblygiadau Ariannol –** Cymerir y costau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod negeseuon clir a chyson yn yr un modd ynglŷn â gwerth profi, nid yn unig o ran adnabod pobl sydd â'r feirws ond i gynorthwyo gydag ymchwil a datblygu atebion at y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd, gan sicrhau bod pawb yn deall sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, ac yn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cynnwys deunyddiau digidol, sylw yn y cyfryngau, gwaith allgymorth cymunedol a hysbysebion mewn deunydd wedi'i argraffu, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y radio. Mae dros 450 o ddeunyddiau ymgyrchu wedi cael eu cynhyrchu mewn 34 o ieithoedd gwahanol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu ar eu sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n arwain y gwaith o gyfathrebu â'r cyhoedd i recriwtio pobl i helpu gydag ymchwilio i atebion ar gyfer y dyfodol a'u datblygu.

| |
|---|
| Mae'r Grŵp Cynghori Technegol hefyd wedi creu Grŵp Cynghori Technegol ar Brofi, a gaiff ei gadeirio gan yr Athro Robin Howe, er mwyn rhoi cyngor ar brofion COVID-19 yng Nghymru. Mae sawl dogfen ganllaw gyhoeddus ar brofi wedi cael eu cyhoeddi gan y Grŵp Cynghori Technegol.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Cymerir y costau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Argymhelliad 7**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda GIG Cymru, ddatblygu cynllun clir ar gyfer profion rheolaidd ac ailadroddus ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff asymptomatig. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae strategaeth profi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn llyw.cymru yn amlinellu'r cynllun ar gyfer profi staff iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i gytuno ar ddull system gyfan o brofi ar gyfer Cymru a byddwn yn parhau i adolygu ein polisi profion ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal wrth i'r dystiolaeth ddatblygu. Byddwn yn cefnogi Byrddau iechyd Lleol drwy Fframwaith Cynllunio'r GIG i hwyluso profion ar gyfer staff a chleifion. Yn unol â chyngor y Grŵp Cynghori Technegol, pan fydd cyffredinrwydd y clefyd yn isel, fel y mae ar hyn o bryd, mae angen cymryd gofal wrth ddefnyddio profion RT-PCR fel adnodd sgrinio. Mae nifer isel yr achosion o'r clefyd yn debygol o gynhyrchu cyfradd uwch o ganlyniadau positif anghywir a chanlyniadau negatif anghywir. Byddwn yn addasu ein dull gweithredu yn unol â'r angen mewn sefyllfaoedd cyffredinrwydd uchel ac yn unol â chyngor gwyddonol.<br><br>Yng nghyd-destun sgrinio gweithwyr hanfodol, gall hyn arwain at wahardd cryn nifer o unigolion o'r gwaith yn ddiangen ac mae angen cydbwyso hyn yn erbyn y risg o drosglwyddo'r feirws i gleifion, yn enwedig pan fyddant yn agored i niwed ac mewn perygl o ddioddef salwch mwy difrifol. Mae angen ystyried y cydbwysedd risgiau yn ofalus.<br><br>Rydym yn defnyddio capasiti profi ychwanegol y GIG ar hyn o bryd i brofi staff rheng flaen asymptomatig yn rheolaidd ac yn strategol fel rhan o fesurau atal a rheoli heintiau.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl. |
| **Argymhelliad 8**<br>O ystyried y pryderon y bydd yr haint yn cyrraedd ail benllanw yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, asesu'r galw tebygol am brofion yn y dyfodol a chymryd camau i sicrhau bod digon o allu i brofi fel y bydd unrhyw un |

sydd angen prawf yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru a phartneriaid aros yn effro i ddatblygiad gwahanol fathau o fodelau profi.

**Ymateb: Derbyn**

Mae nifer o newidynnau yn effeithio ar amcangyfrif yr angen am brofion:lledaeniad y clefyd, mynychder achosion newydd a chyfraddau trosglwyddo yn y gymuned, mynychder symptomau a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar y ffordd orau o ddefnyddio'r profion i atal heintiau. Byddwn yn parhau i adolygu cyngor gwyddonol newydd, ein gwaith modelu a'n profiad rhyngwladol a byddwn yn cadw golwg ar y dystiolaeth hon ac yn addasu ein hamcangyfrifon o'r angen yn unol â hynny.

Mae ein capasiti samplu yn rhagori ar y gofynion cyfredol. Mae gan labordai yng Nghymru gapasiti i gynnal dros 15,000 o brofion y dydd ac mae gennym hefyd fynediad i gapasiti ehangach y DU, a ddefnyddir ar gyfer profi'r boblogaeth, profion gwyliadwriaeth mewn cartrefi gofal ac ar gyfer gweithwyr allweddol. Mae capasiti Cymru yn cael ei ddefnyddio i ymateb i angen clinigol a rheoli achosion o glefydau. Nid ydym yn defnyddio'r holl gapasiti hwn, sy'n adlewyrchu nifer isel yr achosion o'r clefyd ar hyn o bryd. Ond mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y gallu i ymateb i gynnydd sydyn mewn anghenion profi sy'n codi o achosion. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd angen cynlluniau wrth gefn gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod y broses o'r dechrau i'r diwedd, trefniadau staffio ac adnoddau yn gallu ymdopi ag unrhyw gynnydd sydyn yn y galw.

Mae Is-grŵp Modelu'r Grŵp Cynghori Technegol wedi mireinio Comisiwn Swyddfa Cabinet y DU ar gyfer Sefyllfa Waethaf Resymol y Gaeaf gan ddefnyddio data Cymru. Mae dau Fodel R wedi'u datblygu ar gyfer Cymru er mwyn helpu i gefnogi gwaith cynllunio strategol ar gyfer y gaeaf.

**Goblygiadau Ariannol** – £250k yw'r costau ychwanegol ar gyfer gwaith Model R Cymru ar gyfer Sefyllfa Waethaf Resymol y Gaeaf, a thelir y costau hyn drwy gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Argymhelliad 9**

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob claf sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn uniongyrchol i gartref gofal wedi'i brofi yn unol â'r arfer gorau diweddaraf i sicrhau bod preswylwyr a staff yn cael eu diogelu cystal â phosib.

**Ymateb: Derbyn**

Mae strategaeth profi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn nodi y bydd pob darpar breswylydd newydd a phob claf a gaiff ei ryddhau o ysbyty i gartref gofal neu hosbis yn parhau i gael ei brofi cyn iddo gael ei dderbyn i gartref gofal er mwyn diogelu'r preswylwyr hynny sy'n byw mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd.

Ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae'n rhaid i ganlyniadau eu profion fod ar gael cyn iddynt gael eu rhyddhau. Rydym hefyd wedi sefydlu llwybr rhyddhau ychwanegol i bobl sy'n cael canlyniad positif neu sy'n heintus o hyd; byddant yn

| |
|---|
| symud i ofal llai dwys a byddant yn cael eu profi eto er mwyn sicrhau eu bod yn cael canlyniad negatif cyn y byddant yn dychwelyd i'r cartref gofal.Mae hyn wedi'i nodi yn y canllawiau, *COVID-19: diweddariad i'r canllaw mewn perthynas â threfniadau gofal mwy a llai dwys* – https://llyw.cymru/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-or-ysbyty-covid-19.<br><br>Mae'r broses o brofi cleifion sy'n gadael cartrefi gofal wedi bod ar waith ers 2 Mai https://llyw.cymru/y-broses-brofi-ar-gyfer-cartrefi-gofal-covid-19-html?_ga=2.206210387.1505097473.1597607064-218697520.1568727279<br><br>Mae'r Grŵp Cynghori Technegol wedi cyhoeddi system brofi ddiwygiedig yn ddiweddar ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartrefi gofal https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-meini-prawf-profi-ar-gyfer-rhyddhau-cleifion-heb-symptomau-i-gartrefi-gofal?_ga=2.126526541.1505097473.1597607064-218697520.1568727279. Nod y canllawiau yw gwella llif drwy werthuso profion positif yn erbyn lefelau trothwy a phrofion gwrthgyrff positif.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol gan eu bod yn unol â pholisi presennol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl. |
| **Argymhelliad 10**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau:<br>• bod profion mewn cartrefi gofal yn digwydd yn rheolaidd ac yn systematig,<br>• bod profion o'r fath yn cael eu gwneud gan unigolion sydd wedi cael hyfforddiant addas yn hytrach na defnyddio pecynnau profi gartref a<br>• bod gallu digonol i brofi i gefnogi'r ddau bwynt uchod. |
| **Ymateb – Derbyn mewn egwyddor/ gwrthod/ derbyn**<br>**Derbyn mewn egwyddor –** Mae profion rheolaidd a systematig wedi cael eu cynnal mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf. Cafodd yr holl breswylwyr a'r staff mewn cartrefi gofal eu profi yn ystod mis Mai a mis Mehefin. Ar 15 Mehefin, gwnaethom gyflwyno polisi i brofi holl staff cartrefi gofal bob pythefnos, a chafodd ei estyn o gyfnod cychwynnol o bedair wythnos i wyth wythnos. Wrth gyhoeddi Strategaeth Profi Llywodraeth Cymru ar 15 Gorffennaf, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai pa mor aml y câi staff cartrefi gofal eu profi yn lleihau i unwaith bob pythefnos, os byddai cyfraddau cyffredinrwydd yn parhau i fod yn isel. Mae canlyniadau'r profion wedi cael eu monitro'n agos ac mae'r cyfraddau cyffredinrwydd wedi parhau'n isel. Fodd bynnag, fel rhan o ddatblygu dull mwy penodol o brofi sydd wedi'i wahaniaethu, os bydd |

cyfraddau cyffredinrwydd yn uchel o hyd neu os byddwn yn gweld cynnydd sydyn, efallai y caiff profion systematig, mwy rheolaidd eu cynnal neu eu hailgyflwyno.

Yn unol â Strategaeth Profi Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i brofion gael 'diben clir' a rhaid i brofion rheolaidd a systematig mewn cartrefi gofal gael eu llywio gan ddadansoddiadau o dystiolaeth wyddonol a dylid ystyried pa mor agored i niwed yw pobl a'r risg o drosglwyddo. Fodd bynnag, bydd gwaith yn parhau i gefnogi, hyfforddi a chynghori cartrefi gofal mewn perthynas â phrofi a mesurau rheoli heintiau.

**Gwrthod** – Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi darparu hyfforddiant ar gyfer gweinyddu profion gan ddefnyddio pecynnau profi gartref ac mae canllawiau helaeth ar gael yn llyw.cymru. Mae dosbarthu pecynnau profi gartref i gartrefi gofal fel canolfannau profi ategol wedi darparu dull effeithiol a hyblyg sy'n diwallu anghenion penodol cartrefi gofal.

**Derbyn –** Mae capasiti digonol yn labordai Cymru ac yn labordai 'Lighthouse' y DU er mwyn gallu cynnal profion mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Caiff profion eildro eu cynnal drwy ddilyn model 'Lighthouse Labs' gan ddefnyddio pecynnau profi gartref. Lle bydd achosion lluosog (dau neu fwy o achosion positif) yna defnyddir labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru, lle caiff samplau eu cymryd gan unigolion sydd wedi'u hyfforddi er mwyn helpu i reoli brigiad o achosion. Mae hyn yn golygu y gallwn ymateb i frigiadau o achosion mewn ffordd fwy hyblyg ac ymatebol gan gefnogi'r broses Profi, Olrhain a Diogelu.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol gan eu bod yn unol â pholisi presennol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

## Gwarchod Pobl Eithriadol o Agored i Niwed

**Argymhelliad 11**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i:

- sicrhau nad oes unrhyw achosion pellach o dorri data cleifion wrth symud ymlaen, a
- chyfathrebu'n well â phobl sydd wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain. Mae angen dull clir, ymatebol, amserol a thryloyw sydd wedi'i strwythuro'n dda, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o strategaeth y dyfodol o roi cymorth i'r grŵp agored iawn i niwed hwn o unigolion.

**Ymateb – Derbyn**
Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cau'r ymchwiliad i'r achos o dorri data a gododd heb gymryd unrhyw gamau rheoleiddio, gan gydnabod mai gwall dynol oedd hwn ac y cymerwyd camau unioni cyflym. Er bod y digwyddiad hwn yn annerbyniol, mae gwersi wedi'u dysgu, gan gynnwys pa mor bwysig yw sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agosach gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn gwneud yn siŵr y gall materion a chwestiynau mewn perthynas â data gael eu datrys yn gyflym. Yn ogystal â threfnu cyfres fwy strwythuredig o gyfarfodydd gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn trafod y Rhestr o'r Cleifion a Warchodir, mae grŵp data wedi cael ei sefydlu yn Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Uned Cyflenwi'r GIG er mwyn sicrhau bod materion data priodol yn cael eu trafod a'u datrys yn brydlon, gan rannu data ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

Rydym wedi ymateb i adborth gan randdeiliaid drwy gydol y broses warchod, ond rydym yn cydnabod bod gwaith ymgysylltu gweithredol â phartïon â diddordeb wedi bod yn ddiffygiol. Ers mis Mehefin, mae aelod rhan-amser o staff wedi bod yn ymroddedig i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau lle mae rhanddeiliaid wedi gallu trafod trefniadau gwarchod a deunyddiau cyfathrebu cysylltiedig â'r tîm polisi. Mae hyn wedi dylanwadu ar gynnwys ein deunyddiau cyfathrebu ynghyd â'r ffordd y cânt eu dosbarthu. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru a'i Ddirprwy wedi cyfarfod â'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar dri achlysur dros y misoedd diwethaf er mwyn clywed yn uniongyrchol gan y Grŵp hwn ac ymateb i ymholiadau. Rydym yn ymrwymedig i barhau i wella yn y maes hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Dyrennir cyllid ar gyfer prosesau cyfathrebu yn ymwneud â threfniadau gwarchod drwy gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Argymhelliad 12**
Rhaid i Lywodraeth Cymru ail-edrych ar y trefniadau gyda'r prif archfarchnadoedd i sicrhau y gall fodloni ei hun y bydd digon o wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref yn gallu ateb y galw, yn enwedig yn ystod y gaeaf sydd i ddod.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r prif fanwerthwyr sy'n cynnig slotiau danfon â blaenoriaeth ar-lein i bobl sy'n gwarchod eu hunain ac maent wedi ein sicrhau y byddant yn parhau i ddarparu'r rhain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda saith manwerthwr bwyd mawr, gan rannu data er mwyn eu galluogi i flaenoriaethu archebion ar-lein a gwasanaethau danfon i'r cartref i bobl sy'n gwarchod eu hunain. Rydym yn croesawu'r ymdrech y mae'r manwerthwyr hyn wedi'i gwneud i ehangu eu gwasanaethau archebu ar-lein a danfon i'r cartref, ac i flaenoriaethu pobl sy'n gwarchod eu hunain.

Mae dros 269,939 o archebion wedi cael eu gosod am wasanaethau danfon i'r cartref gan bobl sy'n gwarchod eu hunain yng Nghymru, gydag 249,419 ohonynt wedi'u danfon ar hyn o bryd (wythnos sy'n gorffen 24 Gorffennaf 2020). Gall siopa ar-lein gwmpasu ardal ddaearyddol helaeth, a chaiff y gwasanaeth ei gynnig gan ddau fanwerthwr ledled Cymru gyfan. Mae trydydd darparwr yn cynnig gwasanaeth ychwanegol i'r mwyafrif helaeth o Gymru ac mae un arall yn darparu gwasanaeth i 89% o boblogaeth Cymru.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cyfarfod yn rheolaidd â manwerthwr bwyd mawr ac mae ei swyddogion hefyd wedi cynnal trafodaethau â saith manwerthwr mawr sy'n cynnig gwasanaethau archebu ar-lein. Mae slotiau danfon ar-lein â blaenoriaeth yn gweithio'n dda ac mae manwerthwyr wedi cadarnhau y byddant yn parhau i sicrhau bod slotiau â blaenoriaeth ar gael i bobl sy'n gwarchod eu hunain ar ôl i gyngor gwarchod ddod i ben am y tro ar 16 Awst.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 13**

Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod carfan o bobl nad ydynt ar y rhestr cleifion sydd i fod i warchod ond sydd fel arall yn agored i niwed neu fel arfer yn dibynnu ar wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i’r cartref. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y ffordd orau o adnabod y bobl hyn a rhoi cymorth iddynt.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod pobl sy'n agored i niwed oherwydd eu hoedran, am eu bod yn feichiog neu oherwydd eu cyflwr iechyd ac sydd felly'n wynebu mwy o risg o COVID-19. Gall pobl eraill fod yn agored i niwed yn economaidd ac yn methu fforddio bwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol sydd wedi bod yn cefnogi'r grwpiau hyn drwy ddarparu bwyd, cymorth a gwasanaethau cyfeillio ehangach. Mae hyn wedi cynnwys cysylltu pobl â gwirfoddolwyr sy'n gallu mynd i siopa ar eu rhan neu gynnig cymorth arall.

Ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at arweinydd pob awdurdod lleol ym mis Ebrill er mwyn canfod faint o gymorth a ddarparwyd i bobl agored i niwed nad oeddent yn gwarchod eu hunain, a chafodd ei sicrhau bod cymorth effeithiol ar waith. Mae Gweinidogion wedi cytuno y caiff llythyr pellach ei anfon at arweinwyr a phrif weithredwyr Cynghorau Gwirfoddol Sirol ym mis Awst er mwyn iddynt allu diweddaru'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt.

**Goblygiadau Ariannol:** O dan y cynllun Profi, Olrhain a Diogelu, cytunwyd ar £1m fel rhan o'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol i gefnogi awdurdodau lleol gydag elfen 'Diogelu' y cynllun er mwyn helpu'r bobl hynny y mae angen iddynt hunanynysu o

ganlyniad i fesurau olrhain cysylltiadau ac nad ydynt yn gallu cael cymorth gan deulu na ffrindiau. Caiff hyn ei gynnwys yn llinyn cyffredinol y gronfa a pharheir i adolygu'r swm sydd ar gael.

Mewn perthynas â'r trydydd sector:

- Mae bron £7m wedi'i ddosbarthu mewn grantiau a benthyciadau brys i 150 o sefydliadau drwy Gronfa Frys y Sector Gwirfoddol ers dechrau'r pandemig, gan fod o fudd i dros 730,000 o unigolion o bosibl.
- Rydym hefyd wedi rhoi £25,000 i bob Cyngor Gwirfoddol er mwyn cefnogi sefydliadau lleol i ymateb i anghenion eu cymuned; ar 31 Gorffennaf, roedd y gronfa hon wedi cefnogi dros 200 o sefydliadau.
- Mae'r cyllid hwn wedi galluogi'r sefydliadau i gefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gwarchod eu hunain.

**Argymhelliad 14**
Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad cyflym a phenodol o’r trefniadau cyfredol ar gyfer danfon meddyginiaethau i sicrhau eu bod yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn gynaliadwy, ac yn gallu ateb y galw cyfredol a phwysau posibl yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

**Ymateb: Derbyn**
Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau i ddosbarthu meddyginiaethau ar gyfer COVID-19 mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyfranogwyr. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn llywio'r angen i ymateb i gynnydd pellach yn yr hydref neu i frigiadau lleol o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned.

Sefydlwyd y Cynllun Cenedlaethol Cyflenwi Presgripsiynau gan Wirfoddolwyr (y Cynllun Gwirfoddolwyr) a Gwasanaeth 'Tracked 24 Click & Drop' y Post Brenhinol (Gwasanaeth y Post Brenhinol) er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn parhau i fod ar gael i'r rhai a oedd yn gwarchod eu hunain a'r rhai a oedd yn hunanynysu heb ffordd arall o gael cymorth yn ystod y cyfyngiadau symud. Rhoddwyd y Cynllun Gwirfoddolwyr ar waith yn llawn erbyn 5 Mai a daeth Gwasanaeth y Post Brenhinol yn weithredol ledled Cymru ar 1 Mehefin. Mae cytundebau ar waith i barhau â'r ddau, a'u hariannu, tan 30 Medi.

Cyflwynwyd y Cynllun Gwirfoddolwyr a Gwasanaeth y Post Brenhinol er mwyn cynyddu capasiti a gwydnwch trefniadau dosbarthu meddyginiaethau a oedd eisoes yn bodoli gan fferyllfeydd cymunedol a meddygon fferyllol, mewn ymateb i'r galw ychwanegol o ganlyniad i fesurau a gymerwyd i leihau lledaeniad COVID-19. Mae adroddiad y Pwyllgor yn cyfeirio at y trefniadau sydd eu hangen i ateb y galw presennol; gallwn gadarnhau bod nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd i gefnogi'r Cynllun Gwirfoddolwyr a chapasiti Gwasanaeth y Post Brenhinol yn rhagori ar y galw presennol gan fferyllfeydd a meddygon fferyllol ledled Cymru ac nad oedd angen cymorth ychwanegol ar lawer arnynt. Felly nid ydym o'r farn bod capasiti yn broblem o ran y trefniadau cyfredol.

Mae argymhelliad y Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at bwysau posibl yn y dyfodol. Mae'r trefniadau cyfredol wedi'u cyfyngu i'r cyfnod gwarchod a ddaw i ben ar 16 Awst. Yn dilyn cyngor y Prif Swyddog Meddygol i ddod â threfniadau gwarchod i ben dros dro, bydd y Cynllun Dosbarthu gan Wirfoddolwyr a Gwasanaeth y Post Brenhinol yn parhau, fel y cynlluniwyd, i gefnogi'r cleifion hyn tan 30 Medi. Rydym bellach yn gweithio gyda'r Post Brenhinol, Pro Delivery Manager a sefydliadau'r trydydd sector, megis y Groes Goch Brydeinig ac Ambiwlans Sant Ioan, i drafod logisteg gallu ailddechrau model cymorth ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi 'dod i ben dros dro' yn gyflym petai ail don yn ystod misoedd y gaeaf. Byddai hyn yn golygu y gellid ailddechrau trefniadau yn gyflym petai ail don sylweddol o achosion COVID-19.

Darperir gwasanaethau dosbarthu gan fferyllfeydd cymunedol ar sail fasnachol ac nid fel rhan o delerau gwasanaeth y GIG. Fodd bynnag, rydym wedi cael tawelwch meddwl bod gan bob fferyllfa gymunedol drefniadau ar waith i sicrhau bod y cleifion hynny sydd wedi'u blaenoriaethu yn cael eu meddyginiaeth ac wedi addasu £5.8m o fewn y Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol i gefnogi'r trefniadau hyn drwy gydol 2020-21 os bydd angen. Ar gyfer cleifion nad ydynt mewn grwpiau a gaiff eu blaenoriaethu, mae llawer o fferyllfeydd yn parhau i gynnig trefniadau dosbarthu preifat.

**Goblygiadau Ariannol –** Mae £5.8m o gyllid y Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol wedi cael ei haddasu i gefnogi trefniadau i ddosbarthu meddyginiaethau drwy gydol 2020-21.

**Argymhelliad 15**

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau cymorth presennol ar gyfer pobl sy'n gwarchod eu hunain, a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r gydberthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r tîm polisi gwarchod wedi'i sefydlu'n gadarn ac wedi bod yn ddull o drafod yn agored yr hyn a allai fod yn well. Yn ogystal â darparu ymatebion cyflym i ymholiadau a materion gan awdurdodau lleol, bydd y tîm gwarchod yn cysylltu'n uniongyrchol â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sawl gwaith yr wythnos er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu codi, eu trafod a'u datrys yn amserol. Wrth i'r gydberthynas ddatblygu a'r materion gweithredu leihau, mae'r gydberthynas hon wedi cefnogi dulliau cyfathrebu gwell, yn unol â rhanddeiliaid eraill, er mwyn gwella prosesau rhannu gwybodaeth mewn perthynas â chyhoeddiadau a newidiadau i ganllawiau ar gam cynharach.

Rydym yn cydnabod bod ein cydberthynas â'n partneriaid mewn awdurdodau lleol yn allweddol i gefnogi'r bobl hynny sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain wrth i'r cyngor hwn ddod i ben dros dro, boed hyn oherwydd natur agored i niwed barhaus neu fel rhan o'u rôl wrth gefnogi rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu a chyfrannu at y gwaith o reoli brigiadau o achosion.

| |
|---|
| Ar lefel Weinidogol, mae amrywiaeth o Weinidogion wedi bod yn cysylltu ag arweinwyr yn wythnosol fel y bo'n briodol. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gofal cymdeithasol wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau ar warchod a'r system Profi, Olrhain a Diogelu.<br><br>Rydym yn bwriadu parhau i fuddsoddi yn y cydberthnasau pwysig hyn, gan ganolbwyntio ar wella'n barhaus, er mwyn cefnogi ein dinasyddion.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim |
| **Argymhelliad 16**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r rhai sy'n gwarchod ynghylch cyrchu gwasanaethau gofal iechyd arferol a sut i wneud hyn yn ddiogel. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Mae'r llythyrau gan y Prif Swyddog Meddygol yn cynnwys gwybodaeth i'r bobl hynny sy'n gwarchod ynghylch beth i'w wneud mewn perthynas â mynd i leoliadau iechyd ar gyfer gofal rheolaidd ac apwyntiadau sydd wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, mae'n anodd gwneud hyn yn fwy penodol i'r lleoliad y mae'r unigolyn yn mynd iddo. Pan oedd y cyngor i warchod ar waith, y cyfarwyddyd oedd osgoi'r lleoliadau cymaint â phosibl ac os oedd hi'n gwbl angenrheidiol mynd i leoliad, roedd yn bwysig cyfathrebu'n uniongyrchol â'r lleoliad er mwyn rhoi gwybod eich bod yn gwarchod eich hun.<br><br>Pan newidiodd y cyngor mewn perthynas â gwisgo masgiau wyneb (13 Mehefin), nodwyd y dylai pobl a oedd wedi derbyn llythyr gwarchod gan y Prif Swyddog Meddygol (gan gynnwys gofalwr claf neu blentyn sydd ar y Rhestr o'r Cleifion a Warchodir yng Nghymru) wisgo masg meddygol pan nad oedd modd osgoi'r angen iddynt ymweld â lleoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol. Dylai masgiau gael eu darparu i bobl yn y categori hwn os oedd angen.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim |
| **Argymhelliad 17**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu darparu ar gyfer teuluoedd a gofalwyr pobl sy'n gwarchod ynghylch dychwelyd i'r gwaith, a'r cymorth y gallant ei ddisgwyl. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Mae'n bwysig nodi bod ystod eang o bobl, sy'n wirioneddol agored i niwed neu y mae canfyddiad eu bod yn agored i niwed, sy'n bryderus am ddychwelyd i'r gwaith. Fel Llywodraeth, ein nod yw darparu canllawiau a fyddai'n cefnogi'r holl unigolion hynny o ran pa gamau priodol i'w cymryd.  Ym mhob achos, y sgwrs bwysicaf y dylid ei chael yw gyda'r cyflogwr, a dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl er mwyn gallu dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyflogwyr i leihau'r risg o ddod i |

gysylltiad â COVID-19 yn y gweithle.  Mae cyngor ar gael yn yr adran 'Gwaith, sgiliau a chefnogaeth ariannol' ar ein gwefan https://llyw.cymru/gwaith-sgiliau-chefnogaeth-ariannol ar sut i gadw'n ddiogel yn y gwaith a chael cymorth os oes gan bobl bryderon ynghylch arian neu sicrwydd cyflogaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Y Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu

**Argymhelliad 18**
Rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle nawr i adolygu'r holl drefniadau i sicrhau bod graddfa'r isadeiledd, y gwaith o gyflwyno technoleg a'r ymarferion recriwtio angenrheidiol ar waith i sicrhau system olrhain cysylltiadau effeithlon sy'n gweithredu'n effeithiol. Rhaid i'r system beidio â dioddef yn sgil diffyg cynllunio, adnoddau neu dechnoleg, pan fu amser i baratoi a chyfleoedd pwysig ar gyfer dysgu.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r system Profi, Olrhain a Diogelu wedi cael ei dylunio i raddfa, fel sy'n ofynnol, gyda chynlluniau rhanbarthol i gefnogi hyn. Mae gwaith i gynllunio adnoddau, seilwaith a chapasiti wedi cael ei wneud yn seiliedig ar y modelau a'r cyngor gwyddonol diweddaraf.

Gan weithio mewn partneriaeth agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, rydym yn gwella ac yn mireinio'r system gyfan yn gyflym er mwyn sicrhau bod y gwaith o olrhain cysylltiadau yn parhau i gael ei wneud yn effeithlon ac yn effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim costau ychwanegol. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu.

**Argymhelliad 19**
Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, geisio sicrhau bod canlyniadau pob prawf yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gwybod bod cyflymder yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y system olrhain cysylltiadau yn effeithiol. Rydym yn gweithio'n gyflym gydag arweinwyr profi byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar nifer o welliannau. Mae £32 miliwn

ychwanegol mewn cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi gwelliannau ar waith i sicrhau canlyniadau cyflymach i gefnogi'r broses olrhain cysylltiadau. Mae hyn yn cynnwys:

- gwella prosesau labordai er mwyn datblygu effeithlonrwydd a chyflymder
- Darparu staff ac offer ychwanegol ar gyfer labordai rhanbarthol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, Ysbyty Singleton, Abertawe ac Ysbyty Glan Clwyd, y Rhyl fel y gallant weithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.
- Creu chwe labordy mewn ysbytai acíwt ar draws Cymru, a fydd ag offer profi cyflym, mewn llai na 4 awr, ac offer profi newydd ar gyfer cyflyrau eraill i ryddhau staff i weithio ar brofion COVID-19. Bydd y labordai hyn ar gael rhwng 8:00am a 10:00pm, saith diwrnod yr wythnos.

Disgwylir y bydd y tri labordy rhanbarthol yn gallu gweithredu 24 awr y dydd o fis Hydref. Bydd y chwe labordy newydd yn gweithredu ym mis Tachwedd. Mae gwaith ar y gweill i roi'r newidiadau hyn ar waith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwriadu recriwtio hyd at 160 o staff i'r rolau newydd. Mae gweithgarwch ychwanegol hefyd wedi canolbwyntio ar wella trefniadau a phrosesau cludo.

Yn ogystal â'r gwelliannau yn y labordai rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gyflymu'r broses cyn cyrraedd y labordai gan sicrhau eu bod ar eu gorau. Gwneir hyn drwy gynyddu safleoedd samplo, amlder casglu samplau, y cyflymder y bydd samplau yn cyrraedd y labordai a sicrhau amseroedd cyrraedd effeithiol.

Mae rhai llwybrau profi nad ydynt yn gallu dychwelyd canlyniadau o fewn 24 awr. Ni all profion yn y cartref, er enghraifft, weithredu o fewn yr amserlen hon. Yn yr un modd, mae gan Gartrefi Gofal beth hyblygrwydd o ran sut y bydd profion yn cael eu gweinyddu i adlewyrchu patrymau sifft ac oriau gwaith y staff. Byddwn bob amser yn ceisio cyflawni'r amser cyflymaf posibl yn unol â nodau a dibenion y profion.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio i wella hygyrchedd i safleoedd profi yn lleol drwy gyflwyno safleoedd samplo galw heibio yn lleol a safleoedd symudol dros dro a fydd yn golygu y gall unigolion â symptomau gael prawf yn gyflym.

**Goblygiadau Ariannol –** Er bod gwaith yn parhau gyda GIG Cymru ar hyn, caiff cyllid ar gyfer gwelliannau ei ddarparu o'r pecyn sefydlogi gwerth £800m i gefnogi GIG Cymru. Cymeradwywyd cyllid o hyd at £32 miliwn i gyflymu amseroedd dychwelyd canlyniadau profion.

| |
|---|
| **Argymhelliad 20**<br>Dylai Llywodraeth Cymru symud ar unwaith i system lle mae olrhain cysylltiadau yn cychwyn naill ai ar ôl derbyn prawf positif, neu o fewn 24 awr. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br><br>Bydd y gwaith o olrhain cysylltiadau yn dechrau ar ôl cael prawf positif. Mae'r mwyafrif helaeth o'r bobl a gaiff eu profi yn cael canlyniad negatif (93.5% yn negatif ar 9 Awst). Gallai dechrau olrhain cysylltiadau cyn gwybod canlyniadau profion gael effaith negyddol sylweddol ar y cysylltiadau hynny y gofynnir iddynt hunanynysu'n ddiangen. Mae'r system Profi, Olrhain a Diogelu yn dibynnu ar bobl yn dilyn y cyngor a roddir ac mae angen inni fod yn ymwybodol iawn o hyd wrth ystyried effaith unrhyw ddull ar ymddygiad. Gallai gofyn i bobl hunanynysu heb dystiolaeth bod angen iddynt wneud hynny danseilio hyder yn y system. Byddai hefyd yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau ychwanegol yn y timau olrhain cysylltiadau. Mae ein dull yn ystyried y cyngor meddygol diweddaraf ac effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach gofyn i gysylltiadau agos hunanynysu. Mae'r sefyllfa hon yn datblygu a chaiff ei hadolygu'n barhaus.<br><br>**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. |
| **Argymhelliad 21**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i fonitro’r gyfradd negyddol ffug yn effeithiol, ac i sicrhau bod profion yn cael eu cyflwyno’n gyfrifol ac yn hyblyg er mwyn lleihau’r gyfradd negyddol ffug. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Mae'r strategaeth profi a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn amlinellu sut y byddwn yn cynnal profion yng Nghymru. Mae nifer isel yr achosion o’r clefyd yn debygol o gynhyrchu cyfradd uwch o ganlyniadau positif anghywir a chanlyniadau negatif anghywir. Oherwydd eu natur, mae'n anodd mesur canlyniadau negatif anghywir yn y system, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i amcangyfrif cyfraddau negatif anghywir yn seiliedig ar sensitifrwydd clinigol profion.<br><br>**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Cymerir cyllid o gyllidebau y cytunwyd arnynt ar gyfer profi, fel y disgrifir uchod. |
| **Argymhelliad 22**<br>Mewn ymgynghoriad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, dylai Llywodraeth Cymru: |

- gyhoeddi strategaeth i gynyddu nifer y bobl sy'n dod ymlaen i gael prawf er mwyn defnyddio'r capasiti profi sydd ar gael yn llawnach;
- cymryd camau yn awr i roi sicrwydd y bydd modd cyflawni 20,000 o brofion y dydd; sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod capasiti o gyfleusterau y tu allan i Gymru yn addas i'r diben ac yn ddigonol i ateb y galw.
- sicrhau bod y system yn gallu ymateb i gynnydd yn y galw, ac ehangu i'w ddiwallu.

**Ymateb – Derbyn**

Mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, rydym wedi datblygu seilwaith profi cenedlaethol er mwyn sicrhau bod pawb sydd angen prawf yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Mae ein strategaeth cyfathrebu yn canolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, gan annog y rhai hynny sydd â symptomau i gael eu profi.

Mae ein Strategaeth Profi a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio ein capasiti profi yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y bobl hynny y mae angen prawf arnynt yn gallu cael un. Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu'r ffordd y caiff profion eu cyfeirio er mwyn sicrhau'r llwybrau a'r canlyniadau gorau. Defnyddir dull profi RT-PCR, a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio, o fewn lleoliadau neu garfanau penodol a dargedir yn unol â chyngor y Grŵp Cynghori Technegol. Mae gennym rwydwaith helaeth o gyfleusterau samplu a phrofi, gan gynnwys Canolfannau Profi Torfol drwy Ffenest y Car, Unedau Profi Symudol ac Unedau Profi am y Coronafeirws, ac mae pecynnau profi gartref ar gael i'r rhai na allant fynd i safleoedd profi.

Rydym wedi cymryd camau gweithredol i ddatblygu ein capasiti profi a byddwn yn parhau i wneud hynny. Gall ein labordai yng Nghymru gynnal dros 15,000 o brofion y dydd ac mae gennym fynediad i gapasiti ehangach y DU a ddefnyddir ar gyfer profi'r boblogaeth, profion mewn cartrefi gofal ac ar gyfer gweithwyr allweddol. Bydd llwybrau samplu newydd drwy Safleoedd Profi Lleol galw i mewn yn helpu i gynyddu capasiti ynghyd â darpariaeth fwy gan UK Lighthouse Labs.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir gan gyfleusterau y tu allan i Gymru yn addas at y diben ac yn ddigonol er mwyn ateb y galw. Mae ein strategaeth yn ein galluogi i gyfeirio profion yn unol â'r angen, er mwyn sicrhau ymateb effeithiol.

Mae gwaith modelu helaeth yn helpu i lywio gofynion ar gyfer cynllunio capasiti. Gellir defnyddio Unedau Profi Symudol Wrth Gefn yn hyblyg er mwyn helpu i ymateb i frigiadau o achosion gan sicrhau y cânt eu rheoli mewn ffordd ystwyth. Rydym eisoes wedi gweld y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn ymateb i frigiadau o achosion yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim costau ychwanegol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

**Argymhelliad 23**

Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adolygu ei phenderfyniadau ynghylch nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau ei hun a'r cyhoedd y gall y system yn gallu gweithredu'n effeithiol pan fydd y galw ar ei uchaf, ac y gall fod yn hyblyg ac ymateb yn ôl newidiadau yn y galw. Dylai gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad.

**Ymateb – Derbyn**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ran nifer y staff sydd eu hangen i olrhain cysylltiadau.

Y polisi yw datblygu'r arbenigedd olrhain cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli yn ein hawdurdodau lleol a'n byrddau iechyd ac adeiladu arno er mwyn creu gweithlu y gellir ei gynyddu neu ei leihau yn gyflym gan ddibynnu ar amgylchiadau.
Mae'r dull partneriaeth hwn wedi ein galluogi i sefydlu gweithlu olrhain cysylltiadau o ryw 700 o swyddogion yn gyflym, sy'n fwy na digon i ymdopi â'r nifer isel o bobl sy'n cael canlyniadau prawf positif ar hyn o bryd. Roedd y dybiaeth gychwynnol y byddai angen gweithlu o 1,000 o swyddogion olrhain cysylltiadau erbyn 1 Mehefin yn seiliedig ar waith modelu cynharach mewn perthynas â lledaeniad y feirws.

Wrth symud ymlaen, mae pob rhanbarth wedi ymgymryd â gwaith cynllunio manwl o ran adnoddau'r gweithlu olrhain cysylltiadau yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd ail don sylweddol iawn o'r feirws yn yr hydref a allai, ar ei phenllanw, olygu y byddai angen olrhain cysylltiadau hyd at 11,000 o achosion positif newydd bob wythnos.

Pe byddem yn gweld ail don ar y raddfa hon, byddai angen gweithlu ag oddeutu 1,800 o swyddogion ac mae Llywodraeth Cymru felly wedi dyrannu gwerth £45m o gyllid i'r rhanbarthau er mwyn talu costau gweithlu o'r maint hwn yn llawn. Mae gofynion yn cael eu monitro'n barhaus ac mae adolygiad mawr wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi.

Mae'r holl fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol wrthi'n rhoi eu cynlluniau hyfforddi a recriwtio gweithlu ar waith ar hyn o bryd a chaiff y sefyllfa ei monitro'n agos ai hailasesu'n llawn ym mis Medi er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol o hyd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae £45m wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2020-21. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu hadolygu'n barhaus.

**Argymhelliad 24.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau, fel mater o flaenoriaeth, y pecyn cymorth ariannol i awdurdodau lleol i gefnogi’r gwaith o gyflogi gweithwyr olrhain proffesiynol, yn hytrach na dibynnu ar adleoli staff presennol.

**Ymateb: Derbyn**
Rydym yn ymwybodol iawn y bydd angen ein cefnogaeth lawn ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd ac y bydd goblygiadau uchel o ran adnoddau.

Rydym wedi sicrhau y bydd £45m ar gael y flwyddyn ariannol hon. Bydd hyn yn ddigon i gefnogi gweithlu olrhain cysylltiadau â chyfanswm o 1,800 o swyddogion gyda'r capasiti i olrhain cysylltiadau hyd at 11,000 o achosion positif newydd bob wythnos.

Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n gyson wrth inni symud ymlaen.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Fel y nodwyd uchod, mae £45m wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2020-21. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. Caiff costau ychwanegol eu hadolygu'n barhaus.

**Argymhelliad 25**
Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda’i phartneriaid, sicrhau system o negeseuon cyhoeddus clir ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch cyfrifoldebau unigolion i hunanynysu os oes ganddynt symptomau, a phwysigrwydd hunanatgyfeirio ar frys i gael prawf.

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd, gan sicrhau bod pawb yn deall sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, ac yn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cynnwys deunyddiau digidol, sylw yn y cyfryngau, gwaith allgymorth cymunedol a hysbysebion mewn deunydd wedi'i argraffu, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y radio. Mae dros 450 o ddeunyddiau ymgyrchu wedi cael eu cynhyrchu mewn 34 o ieithoedd gwahanol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu ar eu sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim costau ychwanegol. Cymerir y costau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Argymhelliad 26**
Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio gyda Llywodraeth y DU y trefniadau ar gyfer tâl salwch statudol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gorfod hunanynysu. Dylid gwneud hyn ar frys.

**Ymateb: Derbyn**
Mae pryderon yn parhau i gael eu codi gyda Gweinidogion y DU o ran effaith ariannol hunanynysu. Ni all tâl salwch statudol ei hun dalu costau byw ac mae'n peri risg i unigolion a theuluoedd yn ein cymunedau sy'n agored i niwed yn ariannol. Mae tâl salwch statudol yn fater sydd heb ei ddatganoli ac rydym yn annog Llywodraeth y DU yn gryf i gymryd camau i sicrhau bod cymorth ariannol briodol ar gael i'r rhai y disgwylir iddynt hunanynysu.

Mae gan weithwyr sy'n hunanynysu hawl i dâl salwch statudol ar gyfer pob diwrnod y byddant yn hunanynysu ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, gan gynnwys hunanynysu am o leiaf 4 diwrnod ar ôl ei gilydd (gan gynnwys diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gwaith).

Mae pobl a gaiff eu holrhain ac y mae'n rhaid iddynt hunanynysu am eu bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael canlyniad prawf coronafeirws positif hefyd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ar 27 Mai 2020, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd.

Os na all pobl weithio gartref wrth iddynt hunanynysu, efallai y gallant hefyd gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sydd ar gael drwy gov.uk.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 27**
Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am y protocol ar drefniadau trawsffiniol.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r prosesau angenrheidiol ar waith er mwyn gallu rhannu data a gwybodaeth rhwng Cymru a Lloegr i gefnogi'r gwaith o olrhain cysylltiadau.

Mae'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yng Nghymru yn nodi achosion a chysylltiadau sy'n byw y tu allan i Gymru ac yn eu rhoi mewn ciw ar wahân i gysylltiadau eraill er mwyn eu rhannu â Public Health England. Caiff y wybodaeth a'r data hyn eu rhannu'n ddyddiol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Public Health England drwy system electronig ddiogel a chaiff y broses ei hategu gan gytundeb rhannu data rhwng y ddau sefydliad. Y system Profi, Olrhain a Diogelu neu 'Test and Trace' lle mae'r person yn byw fydd yn cysylltu â'r unigolyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli

## Goblygiadau ariannol i lywodraeth leol a chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion

**Argymhelliad 28.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, roi ar waith ymrwymiad cyllid gwarantedig byrdymor i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i liniaru effaith ariannol Covid-19. Rhaid datblygu'r ymrwymiad hwn mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys llywodraeth leol.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, mae awdurdodau lleol wedi bod yn rhan hollbwysig o'r ymateb i'r pandemig gan ddarparu gwasanaethau a chymorth hanfodol yn eu cymunedau mewn amgylchiadau anodd. Er mwyn galluogi hyn, rydym wedi dyrannu dros £155 miliwn ychwanegol i dalu am y costau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys oddeutu £63 miliwn (fel yr amlinellir isod) i helpu i dalu'r costau ychwanegol y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn mynd iddynt. Yn ogystal â hyn, rydym yn cydnabod y pwysau ariannol sydd ar awdurdodau lleol o ganlyniad i golli incwm, ac felly rydym wedi dyrannu £78m ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda'r costau hyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Trysoryddion Cymru er mwyn deall effaith y pandemig ar lywodraeth leol ac yn gweithredu fel sydd angen i fynd i'r afael â hyn.

Mewn perthynas ag effaith ariannol COVID-19 ar ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion, fel ymateb uniongyrchol i'r pandemig, darparodd Llywodraeth Cymru hyd at £40 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i dalu costau dyddiol ychwanegol darparwyr. Datblygwyd y pecyn cymorth hwn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'i ddiben oedd galluogi darparwyr i barhau i

weithredu yn ystod y cyfnod hwn a pharhau i ddarparu gofal. Roedd y cyllid hwn ar gyfer mis Ebrill a mis Mai yn wreiddiol, ond cafodd ei estyn i gynnwys mis Mehefin.

Er bod hyn wedi darparu cymorth mawr ei angen i'r sector, mae nifer o ddarparwyr yn wynebu pwysau ariannol o hyd, yn enwedig cartrefi gofal sy'n wynebu'r her ychwanegol o ganlyniad i golli incwm yn sgil cyfraddau defnydd gwelyau is na'r arfer. O ganlyniad, rydym eisoes wedi ymrwymo i ddarparu £22.7 miliwn o gyllid ychwanegol dros gyfnod hwy er mwyn i awdurdodau lleol allu parhau i gynorthwyo darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion gyda'r costau parhaus hyn. Eto, datblygwyd yr hwb ariannol pellach hwn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a bydd ar gael tan ddiwedd mis Medi, pan gaiff y sefyllfa ei hadolygu. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhoi tawelwch meddwl i ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion ac awdurdodau lleol o ran sut y telir am gostau nas cynlluniwyd sy'n deillio o'r pandemig hwn yn y byrdymor wrth inni asesu effaith COVID-19 yn y tymor hwy.

**Goblygiadau Ariannol:** Darperir £155m i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cefnogi costau ychwanegol sy'n deillio o COVID-19.

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

07 Medi 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Caffael prydau ysgol**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 24 Awst ynghylch caffael prydau ysgol.

Awdurdodau lleol ac ysgolion (neu'r arlwywyr a gontractiwyd ganddynt) sy'n gyfrifol am gaffael bwyd i'w ddefnyddio mewn prydau ysgol, ac maent yn gallu sefydlu trefniadau caffael cost effeithiol gyda chynhyrchwyr bwyd lleol. Rydym yn cydnabod y manteision clir a geir o wneud hyn gan gynnwys mewn perthynas â thaith bwyd a helpu plant a phobl ifanc i gysylltu â'u hamgylchedd lleol.

Am resymau ariannol, rhaid i dimau arlwyo'r awdurdodau lleol sicrhau cydbwysedd rhwng ansawdd a fforddiadwyedd. Felly, am y rheswm hwn ac er mwyn helpu i sicrhau deiet cytbwys, ni argymhellir gwneud caffael cynnyrch lleol ar gyfer prydau ysgol yn orfodol. Mewn rhai ardaloedd yn benodol, lle mae darparwyr lleol yn llai cyffredin neu'n orlawn, gallai ysgolion wynebu costau cynyddol am ddarparu bwyd i'w disgyblion. Gallai cynnydd o'r fath olygu bod prydau ysgol yn fwy drud i rieni, neu bod angen i ysgolion ddefnyddio cyllidebau eraill i dalu'r costau hyn.

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn caniatáu i ysgolion ac awdurdodau lleol gaffael cynnyrch o Gymru os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ond nid yw'n gosod gofyniad ar ysgolion nad ydynt yn gallu sicrhau cytundeb fforddiadwy. Rydym o'r farn bod hyn yn rhoi'r hyblygrwydd a'r dewis mwyaf i ysgolion ac yn cymryd i ystyriaeth y lleoliadau daearyddol gwahanol yng Nghymru a chyd-destunau unigol a rhanbarthol.

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi datblygu nifer o gytundebau caffael bwyd i'w defnyddio gan y sector cyhoeddus ehangach. Yn dilyn y Datganiad Ysgrifenedig ym mis Medi 2018 ar addasu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru, mae'r cytundebau hyn bellach yn cael eu rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Er bod y defnydd o'r cytundebau hyn yn wirfoddol, maent yn cwmpasu ystod o fentrau allweddol sy'n gysylltiedig â darparu prydau ysgol maethlon ac yn caniatáu i sefydliadau weithio gyda darparwyr i archwilio cynnwys cynnyrch o Gymru yn eu cadwyni cyflenwi. Mae Cyngor Caerffili a Llywodraeth Cymru'n cydweithio i weld sut y gallant barhau i adeiladu ar y gwaith da a wnaed hyd yma er mwyn annog mwy o ddefnydd o gynnyrch lleol.

Gobeithio bod fy sylwadau'n ddefnyddiol i chi. Rhowch wybod os hoffech gael unrhyw eglurhad pellach neu ragor o wybodaeth.

Yn gywir



Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● Website:
www.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 7

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Gorffennaf 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**CRAFFU AR GYFRIFON 2018-19: LLYWODRAETH CYMRU**

Diolch am gael golwg cynnar ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) ar y broses o graffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19. Mae fy nghynigion ar gyfer ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi'u nodi yn Atodiad A. Rwyf hefyd wedi achub ar y cyfle hwn i fynd i'r afael â'r cwestiwn a godwyd gan y pwyllgor am greu Is-adran Tir Llywodraeth Cymru. Mae'r ateb wedi'i atodi yn Atodiad B.

O ran cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, ysgrifennais at y pwyllgor yn flaenorol i egluro bod Archwilydd Cyffredinol Cymru a minnau wedi cytuno y dylid gohirio'r broses o archwilio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 am 9 wythnos o leiaf, tan ddiwedd mis Hydref 2020, oherwydd pryderon am argaeledd staff a'r gallu i gael gafael ar y data sydd eu hangen i ddilysu cyfrifon diwedd y flwyddyn. Mae adrannau Whitehall hefyd wedi gohirio cyhoeddi eu cyfrifon am hyd at 3 mis.

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, mae Trysorlys EM, yn unol â chyngor gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB), wedi cyhoeddi diwygiadau i'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) mewn cysylltiad â pharatoi adroddiadau a chyfrifon 2019-20. Nod y diwygiadau hyn yw lleihau faint o wybodaeth y bydd yn rhaid i Lywodraethau

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Datganoledig ac adrannau Whitehall ei datgelu yn yr adroddiad blynyddol. Rydym wedi adolygu'r newidiadau i'r FReM ochr yn ochr â'r hyn sydd, yn ein barn ni, yn agweddau allweddol ychwanegol ar yr adroddiad blynyddol yng Nghymru, fel y cynnydd a wnaed gennym o ran y defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad ac wrth roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. O ganlyniad, nid ydym yn cynnig newidiadau helaeth i gynnwys Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20. Y prif eitemau na fyddant yn cael eu cynnwys eleni fydd yr astudiaethau achos, sy'n cyfeirio at wybodaeth gan dimau ym mhob rhan o'r sefydliad a grantiau. Mae ein canolfan ragoriaeth grantiau (CoE) ymlith y timau canolog y mae argyfwng COVID-19 wedi effeithio fwyaf arnynt. Mae wedi bod yn cael nifer sylweddol o ymholiadau ychwanegol gan reolwyr grantiau ac wedi bod yn ymwneud yn agos â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau newydd sydd â'r nod o gefnogi'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru. Serch hynny, mae grantiau yn ddull cyflawni allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac, felly, rwy'n cynnig, ar gyfer y flwyddyn hon yn unig, y dylai'r CoE grantiau baratoi adroddiad interim ar wahân yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Byddai'r adroddiad hwn yn amlinellu gwaith y tîm yn ystod 2019-20 ac yn myfyrio ar y cymorth a'r canllawiau a ddarparwyd pan oedd argyfwng COVID-19 ar ei anterth.

Ni fydd y Datganiad Llywodraethu na'r Datganiadau Ariannol Craidd (rhannau 2 a 3 o'r adroddiad a chyfrifon) yn newid.

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad A**

**Ymatebion i'r argymhellion a wnaed gan y PAC ar ôl craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**

**Argymhelliad 1.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o gyhoeddi papurau Bwrdd a phapurau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC), a gwneud mwy na dim ond cyhoeddi agendâu a chofnodion cryno.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi agendâu a chofnodion llawn pob cyfarfod Bwrdd ar ein gwefan. O hyn ymlaen, byddwn hefyd yn cyhoeddi papurau cysylltiedig, ac eithrio'r rhai sy'n cynnwys gwybodaeth swyddogol sensitif a manylion personol staff. Yn dilyn trafodaethau rhyngof i a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Llywodraeth Cymru, rydym wedi cytuno, o ystyried natur sensitif llawer o'r papurau a'r angen i gynnig amgylchedd i aelodau allanol lle y gallant herio swyddogion mewn modd agored a gonest, na fyddai'n briodol cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd na phapurau cysylltiedig. Credwn fod y dull gweithredu hwn yn gyson â Llywodraethau eraill y DU a llawer o gyrff mwy yn y sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 2.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i chyrff a noddir i adolygu pa wybodaeth y maent yn ei chyhoeddi am eu cyfarfodydd Bwrdd a chyfarfodydd eu pwyllgorau archwilio, er mwyn sicrhau safon ofynnol gyson a galluogi'r cyhoedd i weld sut y caiff penderfyniadau eu gwneud.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Bydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn gweithio gyda'n cyrff cyhoeddus i sicrhau cysondeb a thryloywder ar gyfer y cyhoedd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn yr hydref eleni.

**Argymhelliad 3.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddangos arferion gorau o ran rheolaeth ariannol, cyllidebu ac adrodd. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi cynlluniau gwariant dangosol a blaenoriaethau sy’n gysylltiedig â chanlyniadau, cysoni cyllidebau ag alldro, cyhoeddi cyfrifon y Llywodraeth Gyfan a chynlluniau a rhagolygon cyllid cyhoeddus blaengar. Yn benodol, argymhellwn y canlynol:

Ceir manylion yr ymatebion i'r argymhellion unigol isod. Ar fater ehangach adrodd ar berfformiad, mae'r adroddiad blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar reoli a goruchwylio trefniadaeth a pherfformiad gweinyddol y gwasanaeth sifil.

Gan gadw hyn mewn cof, bydd adroddiad blynyddol 2019-20 yn cynnwys set newydd o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y meysydd hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifoldeb i mi fel yr Ysgrifennydd Parhaol. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r dangosyddion perfformiad hyn yn ystod 2020-21 a byddwn yn cyhoeddi manylion pellach yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf. Mae adrodd ar berfformiad yn erbyn yr amcanion a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn parhau i fod yn fater i Weinidogion Cymru. Cadarnheais gyda'r Pwyllgor yn ystod y gwaith o graffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon 2018-19 fod y Prif Weinidog yn fodlon â'r dull gweithredu hwn.

**a.** Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth weithredol bellach i rinweddau ac ymarferoldeb y gwaith o baratoi Cyfrifon Llywodraeth Cymru Gyfan a rhoi diweddariad i ni yn ystod hydref 2020.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Byddwn yn ymgynghori â Llywodraeth yr Alban, Trysorlys EM ac Archwilio Cymru ar rinweddau Cyfrifon Llywodraeth Cymru Gyfan. Byddaf yn ysgrifennu at y Cadeirydd cyn diwedd y flwyddyn galendr i roi gwybod iddo am ganlyniad y trafodaethau hynny a'r ffordd ymlaen a gynigir. Fodd bynnag, ni waeth beth fydd y canlyniad, bydd angen i Lywodraeth Cymru gwblhau'r prosiect cysoni ac ystyried caffael adnodd cyfuno cyn y gallwn symud yn ein blaenau gyda Chyfrifon Llywodraeth Cymru Gyfan. Mae hyn yn golygu na fydd modd paratoi ffug-rediad llawn o gyfrifon Llywodraeth Cymru Gyfan tan o leiaf 2022-23.

**b.** Mae'r Datganiad Alldro Adnoddau yn nodi mwy o wybodaeth am amrywiannau sylweddol ac yn egluro'r mathau gwahanol o amrywiannau, gan ystyried y materion a amlinellir ym mharagraff 33 o'r adroddiad.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Mae cynnwys yr esboniadau yn y Datganiad Alldro Adnoddau wedi cael ei adolygu a chaiff ei wella ar gyfer 2019-20 er mwyn sicrhau bod yr esboniadau'n fwy dealladwy i'r darllennydd. Bydd gwybodaeth ychwanegol am y 10 o feysydd gwariant refeniw a chyfalaf uchaf yn seiliedig ar wybodaeth ar lefel llinell wariant yn y gyllideb (BEL) a'r prif feysydd o wariant a reolir yn flynyddol (AME), hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r rhain yn cyfleu'r mwyafrif helaeth o wariant Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, mae'r 10 o feysydd gwariant refeniw uchaf yn seiliedig ar BEL yn cynrychioli oddeutu 85% o gyfanswm y gwariant refeniw.

**c.** Caiff yr Adroddiad Alldro ei gyhoeddi'n ffurfiol, a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid, ar yr un pryd â chyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru, neu'n fuan wedi hynny.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi cytuno y gellir gwneud yr adroddiad alldro yn fwy hygyrch i aelodau'r PAC, a'i gyhoeddi ar wefan y Senedd.   Ein nod fydd cwblhau'r adroddiad alldro o fewn 4 wythnos i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**d.** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ar ei gwefan sy'n nodi ei dull adrodd cyffredinol a'r cysylltiadau rhwng y pedwar prif adroddiad blynyddol a lunnir ganddi, fel y nodir yn Nhabl 1 o'r adroddiad hwn;

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Bydd dolen i ddisgrifiad o'r dull adrodd cyffredinol a'r gydberthynas rhwng y pedwar prif adroddiad yn cael ei chyhoeddi ar y wefan gydag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20.

**e.** Dylid creu cynllun i gyflwyno set glir a syml o amcanion a dangosyddion cyffredin ym mhob un o'r meysydd adrodd a amlinellir yn Nhabl 1 er mwyn hwyluso proses fwy cyson o lunio adroddiadau perfformiad cynhwysfawr.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Rwyf wrthi'n cyflwyno set newydd o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y meysydd hynny o weithgarwch Llywodraeth Cymru yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Ysgrifennydd Parhaol.

**Argymhelliad 4.** Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi rhestr o ddangosyddion perfformiad allweddol i ni y mae'n bwriadu adrodd arnynt ar gyfer 2019-20 er mwyn mesur perfformiad gweinyddol y gwasanaeth sifil, yn ogystal ag amserlen ar gyfer adrodd ar y dangosyddion eraill.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.**  Mae gwybodaeth fanwl am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y dangosyddion perfformiad allweddol wedi'i hatodi yn Atodiad C, ond rydym yn parhau i ddatblygu'r dull gweithredu.

**Argymhelliad 5.** Argymhellwn y dylid cynnwys crynodeb o'r prif risgiau ac unrhyw newidiadau iddynt yn ystod y cyfnod y mae'r cyfrifon yn ymdrin ag ef. Dylai hyn gynnwys  gwybodaeth am effaith bosibl y risgiau a'r camau a gymerir i'w lliniaru. Nid ydym yn gofyn am i gofrestr risgiau gyfan Llywodraeth Cymru gael ei chynnwys yn y cyfrifon.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Mae manylion y prif risgiau i Lywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20, y prif risgiau oedd Brexit a dechrau argyfwng COVID-19. Yn y gorffennol, rydym wedi cofnodi'r prif risgiau ond nid ydym o reidrwydd wedi nodi

manylion yr effeithiau posibl na'r camau lliniaru. Eir i'r afael â hyn ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20.

**Argymhelliad 6.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru egluro'n fanylach i'r Pwyllgor sut a pham y mae wedi penderfynu symud oddi wrth y gofyniad i gael ardystiad allanol ar gyfer hawliadau grant awdurdodau lleol tuag at ddibynnu ar gymeradwyaeth fewnol yn unig, a pham y mae wedi rhoi'r gorau i geisio sicrwydd bod y grantiau'n cyflawni eu canlyniadau bwriadedig.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Nod y cynllun peilot oedd nodi a oedd y risg y byddai problemau'n codi gydag arian grant a ddyfernir i Lywodraeth Leol yn ddigon i gyfiawnhau archwiliad ar wahân. Amlygodd y cynllun peilot fod y cyllid eisoes yn cael ei archwilio yn ystod y cylch archwilio blynyddol ar gyfer Llywodraeth Leol. Felly, yn dilyn nifer o drafodaethau ag Archwilio Cymru, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad y byddai'r gwaith archwilio sy'n cael ei wneud eisoes, ynghyd â sicrwydd ychwanegol gan swyddog Adran 151 ar ddiwedd y flwyddyn, yn ddigonol. At hynny, mae pob cynllun grant neilltuedig yn destun telerau ac amodau manwl a gaiff eu monitro gan y rheolwyr grantiau perthnasol. Pe byddai unrhyw bryderon yn codi, yn ystod y broses fonitro, byddai telerau ac amodau pob grant a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru yn ein galluogi i adolygu cydymffurfiaeth yn ôl-weithredol, ac adennill yr arian lle bo angen.

**Argymhelliad 7.** Argymhellwn y dylai'r Ysgrifennydd Parhaol roi mwy o eglurder drwy gynnig esboniad manwl o'i linellau atebolrwydd ac unrhyw fesurau sydd ar waith i fynd i'r afael ag achosion posibl o wrthdaro buddiannau.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Trysorlys EM 'Dear Accounting Officer' (DAO) 04/19, a oedd yn cynnwys diweddariad ar 'Managing Public Money' (MPM) a argymhellodd y dylid cyflwyno Datganiad System y Swyddog Cyfrifyddu (AOSS) i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dylai'r AOSS ymdrin â'r holl gydberthnasau a phrosesau atebolrwydd o fewn Llywodraeth Cymru, gan ddangos yn glir beth y mae'n atebol amdano o'r Swyddog Cyfrifyddu i lawr. Mae hyn yn cynnwys cydberthnasau â chyrff hyd braich a phartneriaid cyflawni trydydd parti. Dylai'r cysylltiadau atebolrwydd gael eu dangos ar ffurf diagramau, lle y bo hynny'n bosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod MPM yn dangos arferion gorau mewn meysydd fel rheolaeth ariannol a llywodraethu ac, felly, caiff AOSS ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru gyda'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Efallai y bydd aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cofio ein bod wedi bwriadu diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r gwaith hwn yn ystod argyfwng COVID-19 oherwydd y cynnydd sylweddol yn y gwaith

a wnaed gan y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethu i roi cymorth a chyngor. O ran achosion o wrthdaro buddiannau, mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau ar waith i'w rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Chofrestr gysylltiedig a datganiad blynyddol gan bob aelod perthnasol o'r staff, a gyhoeddir ar safle Mewnrwyd Llywodraeth Cymru, sy'n nodi pa swyddogion yn Llywodraeth Cymru sy'n aelodau o fyrddau neu debyg mewn sefydliadau trydydd parti.

**Argymhelliad 8** Yn olaf, i baratoi ar gyfer ymgysylltu â'r gwaith y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud ar gynllunio gweithlu Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i'r Ysgrifennydd Parhaol nodi sut y mae ei chyfrifoldeb am staffio yn cyd-fynd â blaenoriaethau Gweinidogol.

**Derbyniwyd yr argymhelliad.** Prif Weinidog Cymru sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru, gyda materion yn ymwneud â staffio, strwythurau a chyllidebau costau cynnal sefydliadol wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Parhaol fel Pennaeth y Gwasanaeth Sifil a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r fframwaith llywodraethu sy'n sail i'r cyfrifoldebau hynny yn cynnwys goruchwyliaeth bob pythefnos o faterion staffio ac adnoddau gan y Pwyllgor Gweithredol (ExCo). Mae'r pwyllgor yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol, ac mae'n cynnwys Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am Wasanaethau Corfforaethol, Llywodraethu a Moeseg, Cyllid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Thrysorlys Cymru. Mae dau Is-bwyllgor ExCo, sy'n ymdrin â Phobl a Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid, yn cynnig cyfle i'r gwaith o ystyried materion gweithlu strategol a chostau cynnal sefydliadol gael ei lywio gan gynrychiolaeth ar lefel Cyfarwyddwr o bob Grŵp a maes busnes corfforaethol.

Caiff y strategaeth gweithlu ac adnoddau, gan gynnwys gweithgarwch i gryfhau cydraddoldeb a chynhwysiant, eu hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd, gyda'r Is-bwyllgor Cydnabyddiaeth yn cymryd cyfrifoldeb ffurfiol am gytuno ar faterion recriwtio a chydnabyddiaeth yr uwch-wasanaeth sifil.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cyfarfod yn rheolaidd â Phrif Weinidog Cymru i drafod blaenoriaethau cyflawni ar gyfer y Gwasanaeth Sifil, ac mae hefyd yn trafod materion yn ymwneud ag adnoddau ag aelodau unigol o'r Cabinet. Pan gaiff cyfrifoldebau newydd eu trosglwyddo i Gymru neu pan fydd pwysau ar adnoddau yn dod i'r amlwg oherwydd, er enghraifft, sefyllfaoedd argyfwng fel yr ymateb brys i COVID-19, gall fod angen mynd ati ar frys i aildrefnu adnoddau o fewn ac ar draws Grwpiau a arweinir gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol. Caiff pwysau newydd a materion yn ymwneud â sicrhau adnoddau brys eu trafod â Phrif Weinidog Cymru a'r Gweinidogion perthnasol fel bod eu barn yn llywio'r broses o gysoni ac ailflaenoriaethu, o bosibl, yr adnoddau staffio o fewn y cyllidebau sydd ar gael.

Ymgynghorir hefyd â Phrif Weinidog Cymru a'r Cabinet ar faterion ehangach sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu mewn modd strategol, gan gynnwys tâl a gwobrwyo, strwythur sefydliadol, galluogrwydd, amrywiaeth a chynhwysiant.

**Atodiad B**

**Creu Is-adran Tir Llywodraeth Cymru**

Mae manteisio ar y potensial i ddatblygu tir sy'n eiddo i'r cyhoedd er mwyn helpu i ateb y galw am fwy o dai fforddiadwy a chyflawni polisïau ehangach y llywodraeth yn flaenoriaeth gweinidogol yn ystod tymor presennol y Cynulliad.

Felly, yn gynnar yn 2019, gofynnais i'm swyddogion baratoi cynnig a fyddai'n dwyn ynghyd elfennau gwahanol o'r sefydliad er mwyn darparu ymateb ystwyth i'r maes polisi newydd hwn. Fel cam cyntaf, argymhellodd swyddogion y dylid sefydlu Is-adran Tir newydd o fewn Llywodraeth Cymru. Nodwyd y byddai newid o'r fath hefyd yn mynd i'r afael ag argymhellion a ddeilliodd o'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019.

Mae gan y Gweinidog Cyllid ddiddordeb portffolio penodol yn yr Is-adran Tir gan mai hi sydd â chyfrifoldeb gweinidogol cyffredinol am asedau a byddai nifer o asedau tir Llywodraeth Cymru yn cael eu trosglwyddo i'r Is-adran newydd o bortffolio'r Economi. O ganlyniad, rhoddwyd nodyn briffio i'r Gweinidog ar 08 Awst 2019 yn argymell y dylid sefydlu Is-adran Tir newydd a chadarnhau'r sefyllfa o ran y gyllideb ac adnoddau.

Mewn papur dilynol i'r Cabinet ar 16 Medi 2019, nodwyd datblygiad yr Is-adran Tir a'i chenhadaeth i gyflawni mwy o werth cyhoeddus drwy'r ffordd y caiff ein hasedau eu rheoli. Cytunodd y Cabinet hefyd i drosglwyddo asedau tir sydd â photensial preswyl o bortffolio eiddo yr Economi i'r Is-adran Tir newydd. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog.

**Atodiad C**

# Diweddariad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Arfaethedig

## Dangosyddion arfaethedig ar gyfer themâu 'Swyddogaeth'

(*Noder y gall dangosyddion gael eu newid wrth i'r broses ddatblygu barhau)*



| Thema | Statws y thema | Dangosyddion arfaethedig |
|---|---|---|
| Llunio Polisïau | | Dangosyddion i'w datblygu [oedi oherwydd COVID-19]<br>Dangosyddion i'w datblygu [oedi oherwydd COVID-19]<br>Dangosyddion i'w datblygu [oedi oherwydd COVID-19] |
| Rheoli Cyllid a Rheolaeth Ariannol | | Y gwahaniaeth mewn £ rhwng y rhagolygon a'r alldro/canran y gwahaniaeth [neu ganran y gwall] rhwng y rhagolygon a'r alldro (gan gynnwys ffactorau dadelfennu)<br>Sgôr / safle yn y Mynegai Cyllidebau Agored (mesur tryloywder cyllidebau)<br>Cyfanswm y tanwariant a nodwyd ac a ryddhawyd yn unol ag amserlen briodol<br>Canran yr argymhellion fesul categori a nodwyd mewn adolygiadau 'Gateway' a gynhaliwyd ar gyfer rhaglenni/prosiectau mawr |
| Deddfwriaeth | | Dichonoldeb cyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol yn llwyddiannus [cynnydd]<br>Dichonoldeb cyflawni'r ymrwymiadau i wneud y gyfraith yn hygyrch a'r broses ddeddfu'n dryloyw yn llwyddiannus [cynnydd]<br>Dangosydd i'w ddatblygu [oedi oherwydd COVID-19; disgwylir diweddariad ym mis Gorffennaf] |
| Cadernid, Cynllunio Wrth Gefn ac Ymateb | | Canlyniadau/sgôr effeithiolrwydd ymarferion prawf Cynlluniau Wrth Gefn y Busnes a'r ymarferion gwersi a ddysgwyd<br>Dangosyddion i'w datblygu [oedi oherwydd COVID-19]<br>Dangosyddion i'w datblygu [oedi oherwydd COVID-19] |

| | | |
|---|---|---|
| Caffael / Grantiau | | Dangosyddion Caffael:<br>– Arbedion caffael fel % o gyfanswm y gwariant y gellir dylanwadu arno<br>– Cyfraniad at wariant gwerth cymdeithasol fel % o gyfanswm y gwariant y gellir dylanwadu arno<br>– Canran cyfanswm y gwariant y gellir dylanwadu arno a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru, gan gynnwys bunesau bach a chanolig<br>– Canran cyfanswm y gwariant y gellir dylanwadu arno gyda chyflenwyr oddi ar gontractau ffurfiol/Gwariant amrywio fel % o gyfanswm y gwariant y gellir dylanwadu arno<br>Dangosyddion grantiau i'w datblygu |
| Rheoli Adnoddau Dynol | | Hyd cyfartalog y cyfnod recriwtio o'r dechrau i'r diwedd |
| | | Nifer y ceisiadau a gafwyd gan ymgeiswyr mewn grwpiau cydraddoldeb allweddol |
| | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i symud adnoddau i'r meysydd sy'n flaenoriaeth i'r Gweinidogion'* |
| | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Mae'r sefydliad yn cymryd camau i gefnogi iechyd a llesiant ei weithlu'* |
| TGCh a Digidol i Swyddogion | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Mae gen i'r dechnoleg (TGCh/TG) sydd ei hangen arnaf i gyflawni fy swydd yn effeithiol'* |
| | | Sgôr gyfartalog gyffredinol ar gyfer Asesiad Aeddfedrwydd Digidol SOCITM (a'r sgoriau cyfartalog ar gyfer y 9 thema unigol) |
| | | Defnydd o adnoddau digidol gan staff er mwyn cyflawni amrywiaeth o dasgau / cyflawni eu swyddi [yr arolwg staff] |
| Cyllid Mewnol | | Cyfran y taliadau prydlon a wnaed o fewn targedau 5, 10 a 30 diwrnod |
| | | Cywirdeb prosesau rheoli arian parod (rhagfynegi llif arian parod): Perfformiad LlC yn erbyn amrywiannau a bennir gan y Trysorlys |
| | | Cywirdeb proffiliau Cyllidebau |
| Rheoli Ystadau | | Defnydd o ofod a ddefnyddir wedi'i fynegi fel metr sgwâr fesul CALl; m2 fesul CALl ar gyfer yr ystad yn ei chyfanrwydd |
| | | Gwelliannau i effeithlonrwydd y gweithle wedi'i fynegi fel £ fesul CALl: £ fesul CALl ar gyfer yr ystad yn ei chyfanrwydd |
| | | Perfformiad amgylcheddol yn erbyn amcanion a thargedau ar gyfer allyriannau CO2: tCO2e fesul CALl |
| Gweinyddu Trethi | | Dangosyddion i'w datblygu [cydgysylltu ag Awdurdod Cyllid Cymru] |
| | | Dangosyddion i'w datblygu [cydgysylltu ag Awdurdod Cyllid Cymru] |
| | | Dangosyddion i'w datblygu [cydgysylltu ag Awdurdod Cyllid Cymru] |
| Gwasanaethau Digidol i Ddinasyddion | | Cyfraddau manteisio ar wasanaethau digidol / canran y boblogaeth darged |
| | | Ffigurau dilynwyr cymdeithasol ar gyfer prif sianeli Twitter a Facebook |
| | | Nifer yr ymwelwyr â gwefan Llywodraeth Cymru |

## Dangosyddion arfaethedig ar gyfer y themâu 'Priodweddau'

(*Noder y gall dangosyddion gael eu newid wrth i'r broses ddatblygu barhau)*

| Thema | Statws y thema | Dangosyddion arfaethedig |
|---|---|---|
| Ffyrdd o weithio a Gwerthoedd Craidd | | Canran y Sgôr Mynegai Gadarnhaol ar gyfer y 5 cwestiwn ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [yr Arolwg Pobl a'r Arolwg Rhanddeiliaid; Arolwg Rhanddeiliaid heb ei gynnal ar hyn o bryd] |
| | | Canran yr atebion 'ydw' ar gyfer y cwestiynau ar God y Gwasanaeth Sifil (ymwybyddiaeth, adrodd a hyder y caiff camau eu cymryd) |
| | | Nifer yr achosion a nodir sy'n ymwneud â gwerthoedd craidd/ymddygiad (cwynion cyflogaeth, disgyblu a chwynion) |
| Bod yn agored | | Nifer y setiau data agored sydd wedi dod ar gael yn ystod y 12 mis blaenorol |
| | | Cyfradd cydymffurfiaeth gyffredinol â Safonau Corfforaethol / Rheoliadau<br>– Cwynion, Deddf Diogelu Data / Rheoli Cofnodion, Torri rheoliadau TGCh, Rhyddid Gwybodaeth |
| | | Canran yr ymatebion cadarnhaol yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a dinasyddion [yr Arolwg Pobl a'r Arolwg Cenedlaethol]<br>*– Yn y lle rwy'n gweithio, rydym yn gwneud y canlynol yn rheolaidd: ceisio cydweithio â rhanddeiliaid allanol i helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru*<br>*– Yn y lle rwy'n gweithio, rydym yn gwneud y canlynol yn rheolaidd: ceisio cynnwys y rhai y mae ein gwaith yn effeithio arnynt (e.e. cwsmeriaid, dinasyddion).*<br>*– Yn gyffredinol, pa mor dda yw Llywodraeth Cymru am wrando ar farn pobl cyn gwneud penderfyniadau, yn eich barn chi?* |
| Galluogrwydd | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i wella capasiti a sgiliau ei weithwyr'* |
| | | Lefel aeddfedrwydd galluogrwydd proffesiynau o fewn Llywodraeth Cymru [gan gynnwys asesiad anghenion] |
| | | Canran yr ymatebion cadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Mae gen i'r sgiliau sydd eu hangen arnaf i gyflawni fy swydd yn effeithiol'* |
| Cydraddoldeb a Chynhwysiant | | Nifer staff Llywodraeth Cymru sydd â nodweddion gwarchodedig |
| | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Mae'r sefydliad yn hybu urddas a pharch ar gyfer pob aelod staff'* |
| | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Rwy'n credu bod y sefydliad yn parchu'r gwahaniaethau rhwng unigolion (ee diwylliannau, dulliau gweithio, cefndiroedd, syniadau ac ati)'* |
| Ymgysylltu â Staff | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y Mynegai Ymgysylltu â Gweithwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | Canrannau ar gyfer cwestiwn yr Arolwg Pobl ar 'bwriadu parhau i weithio i'r sefydliad' |
| | | Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollir (cyfartaledd treigl, salwch tymor byr, wedi'i addasu ar gyfer CALI) |
| Y Gymraeg | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i helpu'r Gymraeg i ffynnu'* |
| | | Canrannau ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl: *'Ym mha iaith ydych chi'n gwneud eich gwaith?'* |
| | | Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg<br>– Nifer y cwynion a wnaed i'r Comisiynydd yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg<br>– Nifer y cwynion a ddaeth i law yn ymwneud â Safonau Gwasanaeth Cymraeg a Ddarperir (yr ymchwiliwyd iddynt / a gafodd eu dirwyn i ben) |
| Arloesedd | | Canran y sgôr gadarnhaol ar gyfer y cwestiwn yn yr Arolwg Pobl *'Rwy'n credu y cawn gefnogaeth i roi cynnig ar syniad newydd, hyd yn oed pe byddai'n methu'* |
| | | Canran y sgoriau cadarnhaol ar gyfer y cwestiynau canlynol yn yr Arolwg Pobl:<br>– *'Mae aelodau fy nhîm yn cael eu hannog i feddwl am ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau'*<br>– *'Mae aelodau fy nhîm yn cydweithio i ddod o hyd i ffyrdd o wella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu'* |
| | | Sgôr gyfartalog ar gyfer yr is-thema 'Arloesedd Digidol' (o fewn Gweledigaeth Ddigidol ac Arweinyddiaeth) |

| Statws y thema | |
|---|---|
| Cyflawnwyd | |
| Bron â'i chwblhau, ychwanegiadau bach i ddod yn 2021 | |
| Wedi'i chwblhau'n rhannol, ychwanegiadau i ddod yn 2021 | |
| Heb ei datblygu'n llawn, ond mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud. Ni fydd y thema ar gael tan ddiwedd 2021 | |
| Heb ei datblygu. Ni fydd y thema ar gael tan ddiwedd 2021 | |

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Gorffennaf 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd.**

Er bod hwn yn gyfnod anodd ac ansicr i bob un ohonom, roeddwn i'n falch iawn yn gynharach eleni i lansio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn y sefydliad, *Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*.

Rydw i'n hynod o falch o'r strategaeth achos mae'n gosod nod uchelgeisiol a hir-dymor i ddefnyddio'r Gymraeg, un a fydd yn cael effaith gadarnhaol am genedlaethau i ddod. Mae wedi golygu gwaith gan nifer o'n cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad a thros gyfnod hir.

Mae strategaeth ffurfiol gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol yn gosod her i ni ddod yn sefydliad dwyieithog yn raddol dros y deng mlynedd ar hugain nesaf. Ein nod yw y dylai Llywodraeth Cymru ddod yn wirioneddol ddwyieithog erbyn 2050; yn weithle lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio mewn modd naturiol a chyfnewidiol. Mae hyn yn golygu, dros y tri degawd nesaf, y bydd yn rhaid i weithwyr Llywodraeth Cymru yn awr ac yn y dyfodol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu gallu'r sefydliad yn y Gymraeg er mwyn galluogi ein gweithlu ni oll i allu deall o leiaf Cymraeg sylfaenol.

Mae hwn yn nod hirdymor, ond mae angen inni roi camau ar waith i weithio tuag ato yn awr. Byddwn yn cryfhau dysgu a datblygu drwy ehangu a gwella ein cynnig i ddysgu'r

Gymraeg, a chynnig rhagor o gyfleoedd i chi ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn caniatáu i ni i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf i bobl Cymru.

Mae dyletswydd statudol arnom i fabwysiadu polisi sydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd y Gymraeg yn y gweithle o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn 2017 gofynnodd strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*, inni ddod yn sefydliad sydd yn "arwain drwy esiampl" yn ein defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Ac, roedd y Prif Weinidog yn ei faniffesto i ddod yn arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru yn addo "prif ffrydio" y Gymraeg ar draws ein holl feysydd polisi. Mae cyrff cyhoeddus eraill wedi gwneud camau breision yn y maes hwn hefyd, boed yn awdurdodau lleol neu gyrff cenedlaethol, ac felly roedd hi'n bryd i ninnau weithredu ein hunain.

Nod ar gyfer yr hir-dymor sydd yn y strategaeth. Ond byddwn yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar y pum mlynedd cyntaf, 2020-2025, a dod yn sefydliad sydd yn dangos esiampl yn ein defnydd o'r Gymraeg o'i gymharu â sefydliadau tebyg yng Nghymru. Mae 10 cam gweithredu yn y strategaeth sy'n golygu ein bod yn dechrau ar y llwybr i 2050 mewn ffordd raddol, rhesymol a chymesur. Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth yn hollbwysig,

- **Gwneud ymrwymiad hirdymor ac arwain y ffordd:** bydd y newid yn digwydd yn raddol, dros amser, ond ein bwriad yw arwain trwy esiampl yn y ffordd yr ydym yn hybu defnydd o'r iaith yn y gweithle.

- **Buddsoddi yn ein staff a chynnig cyfleoedd iddynt ddysgu Cymraeg a meithrin sgiliau ieithyddol:** mae'n hanfodol darparu hyfforddiant effeithiol a hwylus, gan roi amser a chymhelliant i bobl wella'u sgiliau Cymraeg yn barhaus.

- **Parhau i fod yn sefydliad agored, cynhwysol ac amrywiol:** mae gan bawb y potensial i fod yn siaradwr Cymraeg, ac nid yw'r strategaeth hon yn groes i'n hymrwymiad i fod yn agored, yn gynhwysol ac yn amrywiol – er y bydd sgiliau Cymraeg yn fwyfwy angenrheidiol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi, nid yw meithrin gweithle dwyieithog yn golygu (nac yn awgrymu) bod y sgiliau hynny'n ofynnol ar gyfer ymuno â Llywodraeth Cymru.

- **Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ein ffyrdd o weithio er mwyn hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg:** pan fyddwn yn cyflwyno polisïau a mentrau mewnol newydd, byddwn yn adolygu i ba raddau maent yn cynnig cyfleoedd pellach i'r staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith beunyddiol.

Ymhen amser, rwy'n gobeithio y gellir defnyddio'r strategaeth i ysbrydoli sefydliadau eraill wrth iddynt weithio tuag at ein nod o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Rydw i'n hyderus y gallwn ni gyrraedd y nod, oherwydd mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.




**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en